Arolwg o Siarter y BBC

BBC Charter Review

# BALCH
# BEIDDGAR
# CREADIGOL

Rhaglenni a gwasanaethau'r BBC yn y Siarter nesaf.

Medi 2015

BBC

# Cynnwys


4 Cyflwyniad

## Rhan un: Y BBC Heddiw

11 **A yw'r BBC yn llwyddiannus heddiw?**
12 1.1 A yw'r BBC yn gweithio'n ymarferol?
14 1.2 Sut y cyflawnwyd y llwyddiant hwnnw?
16 1.3 Mae'r BBC yn ganolog i'n bywydau
19 1.4 Mae'r BBC yn helpu i greu'r Brydain sydd ohoni?
21 1.5 Mae'r BBC yn gwneud y DU yn wlad fwy creadigol
22 1.6 A ellir cyfiawnau ffi'r drwydded?

24 **A yw allbwn y BBC yn nodedig ac o ansawdd uchel?**
25 2.1 Beth yw natur nodedig?
26 2.2 I ba raddau rydym yn cynnig arlwy nodedig?

43 **Beth mae cynulleidfaoedd am**

**ei gael gan y BBC?**
44 3.1 Mae'r cyhoedd am gael mwy gan y BBC
47 3.2 Portreadu'r wlad gyfan
48 3.3 Investment in programmes is falling
51 3.4 Y BBC yng nghyd-destun ei farchnad

## Rhan dau: Dyfodol y BBC

58 **BBC Agored**
59 4.1 BBC sy'n addas i'r rhyngrwyd
60 4.2 Y BBC—partner creadigol Prydain
60 4.3 Llwyfannau agored ar gyfer cynnwys

63 **Hysbysu**
64 5.1 Rôl y BBC i hysbysu'r cyhoedd yn oes y rhyngrwyd
65 5.2 Ffrwd newyddion y BBC: yn adrodd stori'r DU, yn well ac yn gynt
66 5.3 Helpu'r farchnad newyddion lleol i lenwi bylchau mewn democratiaeth leol
68 5.4 Rydym am fuddsoddi yn y World Service
69 5.5 BBC Newyddion agored sy'n addas i'r rhyngrwyd

70 **Addysgu**
71 6.1 Rôl y BBC i addysgu yn oes y rhyngrwyd
71 6.2 Y Gwasanaeth Syniadau
73 6.3 Celfyddydau'r DU
74 6.4 Oes Ryfeddod Newydd
75 6.5 iPlay
76 6.6 Cymorth cwricwlwm ledled y DU

78 **Diddanu**
80 7.1 Rôl y BBC i ddiddanu
82 7.2 Cyfuno cynnwys y DU
83 7.3 Diddanu'r DU gyfan
84 7.4 Y chwyldro nesaf yn myd radio
85 7.5 Gwasanaeth darganfod cerddoriaeth newydd gan y BBC

## Rhan tri: Ariannu'r dyfodol

88 **Ariannu BBC y dyfodol**
89 8.1 Cyd-destun ariannol y BBC
90 8.2 Mae'r BBC wedi trawsnewid ei effeithlonrwydd
94 8.3 Proses yw effeithlonrwydd, yn hytrach na diwedd y daith
95 8.4 Byddwn yn cynyddu ein hincwm masnachol
97 8.5 Anghenion buddsoddi'r BBC
98 8.6 Ariannu ein buddsoddiadau arfaethedig

102 **BBC agored, mwy nodedig**



# Cyflwyniad

—

gan
**Tony Hall, y Cyfarwyddwr Cyffredinol**

*Medi 2015*

Mae'r BBC yn dynesu at ei ganmlwyddiant yn 2022 a bydd y penderfyniadau a wneir dros y misoedd nesaf yn ffurfio'r BBC am y genhedlaeth nesaf.

Mae'r ddogfen hon yn dynodi BBC mwy agored nag erioed o'r blaen. Mae'n nodi sut y bydd y BBC yn diwygio ei hun ac yn ffynnu yn oes y rhyngrwyd. Bydd ein cynigion yn arwain at BBC mwy creadigol, mwy nodedig a mwy personol. Maent yn adeiladu ar gryfderau lu'r BBC ond yn cadw at ein cenhadaeth sefydlu—hysbysu, addysgu a diddanu.

Yn hollbwysig, maent yn adlewyrchu'r cyfnod ariannol rydym yn byw ynddo, gan ganolbwyntio ar BBC sy'n effeithlon, sy'n cynhyrchu rhaglenni o'r ansawdd uchaf ac sy'n darparu gwasanaethau sy'n rhoi gwerth gwych am arian.

Os gwnawn y dewisiadau cywir nawr, gall Prydain weld BBC sy'n rhagori'n fyd-eang-BBC sy'n bwerdy dros dwf creadigol ac economaidd y Deyrnas Unedig gyfan.

Mae'r BBC yn eiddo i'r cyhoedd. Rydym yn gwarchod sefydliad y mae'r cyhoedd yn ei goleddu.

Fel y dywedais ar fy niwrnod cyntaf fel y Cyfarwyddwr Cyffredinol, rwy'n credu bod dyddiau gorau'r BBC eto i ddod. Balch, Beiddgar a Chreadigol—credaf fod y ddogfen hon yn dynodi gwell BBC i bawb.

Man cychwyn ein rhaglen newid yw disgrifiad ystyriol o'r hyn yr ydym eisoes yn ei wneud a'n perthynas â'n cynulleidfaoedd ledled y DU a'r byd.

Oherwydd nid yw'r achos dros y BBC yn dibynnu ar ddadleuon ideolegol, na thrafodaethau rhwng economegwyr. Mae'n dibynnu ar yr hyn a wnawn.

Mae i'r BBC ddiben syml iawn. Ein diben yw cynnig rhaglenni a gwasanaethau gwych. Dyna pam mae pobl yn hoffi'r BBC. Dyna pam maent yn ei fwynhau. Dyna pam maent yn ymddiried ynddo. Dyna pam maent yn ei werthfawrogi. Dyna'r hyn y maent yn talu i ni ei wneud.

Mae'r BBC yn ychwanegu at fywydau pawb yn y DU mewn mwy o ffyrdd nag erioed o'r blaen ac yn amlach nag erioed o'r blaen. Rydym yn tanio dychymyg ac yn ennyn chwilfrydedd ein cynulleidfaoedd

Rydym yn mynd â hwy ar anturiaethau nad oeddent erioed wedi'u dychmygu. Rydym yn rhoi cyfle iddynt bori drwy wybodaeth, cael eu hamlygu i syniadau newydd, a dod ar draws diddordebau newydd.

Rydym yn eu cysylltu â bydoedd newydd a hefyd â'i gilydd.

Weithiau, rydym ond yn gwneud iddynt chwerthin ac mae hynny'n wych hefyd. Rydym yn diddanu, yn addysgu ac yn hysbysu, ond rydym hefyd yn arloesi ac yn ysbrydoli. Fel yr ysgrifennodd R.H. Tawney "Only those institutions are loved which touch the imagination."

Mae 46 miliwn o ddinasyddion Prydain yn defnyddio'r BBC bob dydd. Bron bawb bob wythnos.

Wrth wraidd yr athroniaeth sy'n sail i'r BBC mae syniad syml iawn, democrataidd iawn: dylai pawb gael mynediad at y goreuon, pwy bynnag ydynt, ble bynnag maent yn byw, boed yn gyfoethog neu'n dlawd, yn hen neu'n ifanc. Ein nod yw cynnig y gorau i bawb.

Ers 93 mlynedd, mae'r BBC wedi chwarae'r rôl hon yn ein diwylliant; rydym yn rhan o'r hyn sy'n nodweddu'r DU. Rydym yn adlewyrchu ac yn dathlu ei gwahanol wledydd a chymunedau. Rydym yn rhan o wead y wlad. Rydym yn rhan o'r ffordd y mae pobl eraill yn ein gweld ni, a pham yr hoffai llawer o bobl dramor gael BBC ei hun. Rydym yn gonglfaen un o'r diwydiannau cyfryngau mwyaf llwyddiannus yn y byd.

Mae ffi'r drwydded yn hollbwysig i'r syniad hwn.

Am fod y BBC wedi'i ariannu drwy ffi'r drwydded, mae ei genhadaeth yn gwasanaethu pawb. Am fod pawb yn talu, mae'n rhatach i bawb. Am ei fod wedi'i ariannu'n uniongyrchol gan y cyhoedd, maent yn disgwyl safonau uchel gennym. Am fod y BBC yn cael ei ariannu'n annibynnol, mae hynny'n rhoi rhyddid creadigol i ni.

Mae'r rhyddid creadigol hwnnw'n bwysicach nag erioed. Pan fyddwn yn gwneud rhaglenni nid ydym yn dechrau gyda bwlch yn y farchnad ac yn ceisio ei lenwi. Rydym yn dechrau gyda'r syniad ac yna'n gwneud iddo ddigwydd.

Rydym am i'r BBC yn y degawd nesaf fod yn fan lle mae pobl yn dod i wneud rhaglenni gwych, rhaglenni nodedig. I gynhyrchwyr, cyfarwyddwyr, awduron, artistiaid gael y rhyddid creadigol i wneud pethau a fyddai'n anodd iddynt wneud unrhyw le arall.

Rydym am gyflogi'r bobl orau sydd â'r syniadau gorau yn gwneud y gwaith gorau. I ffurfio timau gwych. I helpu'r genhedlaeth nesaf o dalent i fynegi ei hun. I fod yn ddigon hyderus i fentro, croesi ffiniau a rhoi cynnig ar bethau newydd. I beidio ag ofni codi pynciau dadleuol. I'r BBC fod yn llwyfan i'r pethau gorau y gall Prydain eu cynnig—nid yn unig i'r wlad hon, ond i'r byd.

Ein rôl yn y degawd nesaf fydd galluogi cynnwys o'r ansawdd uchaf, wedi'i wneud ym Mhrydain, i gynulleidfaoedd ei fwynhau. Credaf y byddai BBC sy'n arddel uchelgais creadigol o'r fath yn fwy nodedig nag erioed, a mwy llwyddiannus nag erioed ymhlith cynulleidfaoedd.

Pennwyd cenhadaeth y BBC bron ganrif yn ôl gan ei sylfaenydd, yr Arglwydd Reith, sef hysbysu, addysgu a diddanu. Mae'r genhadaeth hon mor berthnasol heddiw ag y bu bryd hynny. A'r un mor angenrheidiol yn y dyfodol ag y mae heddiw.

Oherwydd rydym ni, fel pob darlledwr arall, yn wynebu byd sy'n newid. Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o'n cynulleidfaoedd yn mwynhau rhaglenni a gwasanaethau'r BBC dros yr awyr. Bydd hynny'n parhau. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn parhau i fwynhau rhaglenni radio a theledu, fel ar hyn o bryd, dros y degawd nesaf.

Ond yn gynyddol, drwy'r rhyngrwyd a dyfeisiau symudol, mae pobl yn mwynhau'r hyn a ddymunant, pryd bynnag y dymunant, ble bynnag y dymunant.

Mae'n berffaith bosibl mai hwn fydd y prif lwybr i'r hyn a wna'r BBC erbyn canol y degawd nesaf.

Felly yn ystod y deng mlynedd nesaf, bydd angen i ni wneud dau beth, sef gwasanaethu'r rhai sydd wedi mabwysiadu'r rhyngrwyd, ac ar yr un pryd sicrhau bod y rhai sydd am barhau i wylio a gwrando ar sianelau traddodiadol yn parhau i gael gwasanaeth priodol hefyd.

Byddwn yn symud i BBC sy'n addas i'r rhyngrwyd, yn barod am fyd rhyngrwyd yn unig pryd bynnag y daw. Ond dylem geisio symud wrth bwysau ein cynulleidfaoedd.

Mae oes y rhyngrwyd yn atgyfnerthu'r achos dros y BBC a'i rôl barhaol. Yn oes y rhyngrwyd, mae'n haws dod o hyd i wybodaeth, ond mae'n anos gwybod a ddylid ymddiried ynddi. Mae'n haws dod o hyd i gymunedau bach, ond mae'n anos i'w wlad siarad â'i hun ac â'r byd. Mae'n haws gwneud cynnwys ond yn anos dod o hyd i'r cymorth ariannol ar gyfer gwaith o ansawdd uchel. Ac mae oes y rhyngrwyd yn beth gwych i'r rhai sy'n gallu ei fforddio a chael mynediad iddo—ond mae perygl y bydd y rhai na allant wneud hynny yn cael eu gadael ar ymylon cymdeithas.

I'r problemau hyn, mae'r BBC yn cynnig ateb. Yn oes y rhyngrwyd, mae ein cenhadaeth yn un syml: rhaglenni Prydeinig gwych, a thywysydd yr ymddiriedir ynddo—i bawb. Rydym am achub ar bob cyfle a grëir gan y rhyngrwyd i hysbysu, addysgu, a diddanu mewn ffyrdd newydd. Ac at y genhadaeth draddodiadol honno byddem yn ychwanegu pedwerydd gorchymyn heb ei ddatgan—galluogi. Rydym am agor y BBC i fod yn bartner creadigol Prydain, i fod yn llwyfan i dalent anhygoel y wlad hon.

Bydd y rhyngrwyd yn trawsnewid ein cenhadaeth i hysbysu'r cyhoedd yn ystod y degawd nesaf. Bydd yn

haws cynnig mwy o wybodaeth, i fwy o bobl, yn fwy cyflym. Felly byddwn yn newid o newyddion treigl i ffrydio'r newyddion. Newyddion yn eich dwylo.

Byddwn yn agor y BBC i ddarparwyr newyddion eraill drwy bartneriaeth newydd a fydd, gobeithio, yn helpu newyddiaduraeth leol i ffynnu. Rydym yn cynnig y dylid ad-drefnu ein darllediadau newyddion er mwyn diwallu anghenion newydd cynulleidfaoedd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Rydym am adeiladu ar awdurdod BBC World Service i gyrraedd hanner biliwn o bobl bob blwyddyn, ac mewn rhannau o'r byd lle mae ei angen fwyaf.

Rydym yn ymrwymo o'r newydd i bwysigrwydd y BBC fel addysgwr. Rydym yn cynnig gwasanaeth newydd i blant—iPlay—sy'n adeiladu ar gryfderau CBBC a CBeebies. Rydym yn ymrwymo i weithio gyda sefydliadau tebyg, yn fawr a bach, ar 'Wasanaeth Syniadau' newydd sy'n dwyn ynghyd yr hyn a wna'r BBC ym maes y celfyddydau, diwylliant, gwyddoniaeth, hanes a syniadau, gyda'r gwaith yn cael ei wneud gan sefydliadau celfyddydol, diwylliannol, gwyddonol a deallusol o fri yn y wlad hon.

Mae ein cynulleidfaoedd yn credu y dylai rôl y BBC fel diddanwr barhau. Dyna eu blaenoriaeth bennaf. Mae drama, comedi ac adloniant yn ein helpu i ddeall pwy ydym, gwneud synnwyr o'n bywydau a dod â ni ynghyd. Ond yn hytrach nag ildio dosbarthiad dros y rhyngrwyd i eraill, byddwn yn agor iPlayer i gynnwys gorau Prydain. Ym myd cerddoriaeth, rydym ni a'n partneriaid yn y diwydiant yn cynnig gwasanaeth darganfod newydd i arddangos y goreuon ym myd cerddoriaeth heddiw a hyrwyddo cerddoriaeth newydd ym Mhrydain.

Mae hyn oll yn ateb cwestiwn ehangach, nid yn unig i'n cynulleidfaoedd, ond er budd economi greadigol fywiog Prydain. Pwy fydd yn buddsoddi mewn rhaglenni radio, teledu ac ar-lein Prydeinig o ansawdd uchel? Mae Ofcom yn nodi'n glir yn ei adolygiad o ddarlledu cyhoeddus bod yr arian a fuddsoddir mewn rhaglenni Prydeinig yn lleihau ond eto fod cynulleidfaoedd yn fwy ymrwymedig nag erioed i bwrpasau darlledu cyhoeddus. Canfu Ofcom fod y BBC yn parhau i fod yn gonglfaen y system darlledu cyhoeddus. Mae buddsoddiad yn y BBC yn fuddsoddiad yn niwydiannau creadigol Prydain.

Mae'r BBC hefyd yn un o storïau llwyddiant byd-eang gwych Prydain. Dros y byd mae pobl yn ymddiried yn ein gwasanaethau newyddion ac yn eu hedmygu. Mae cangen fasnachol y BBC, sef BBC Worldwide, yn cyflwyno rhaglenni Prydeinig—rhai mewnol a rhai a gynhyrchir yn annibynnol—i'r byd. Rydym am i'n dylanwad ar ran y DU dyfu. Mae'r DU yn un o'r gwledydd mwyaf creadigol yn y byd. Rydym am i hynny barhau.

Nid yw'r cynigion hyn yn golygu BBC mwy o faint. Maent yn golygu BBC gwell. Peidied neb ag amau na fydd y setliad cyllidebol a gyhoeddwyd gan y Canghellor yn ei Gyllideb ym mis Gorffennaf yn golygu bod rhai dewisiadau anodd iawn o'n blaen. Mae'r BBC yn wynebu her ariannol anodd. Ar ôl gwneud arbedion o 40% o refeniw'r BBC yng nghanol y Siarter hon, mae'n rhaid i ni arbed tua 20% arall dros y pum mlynedd nesaf.

Bydd ein cyfran o arian refeniw teledu yn y DU yn gostwng o tua 20% ar hyn o bryd i tua 12% erbyn diwedd y Siarter. O'n cymharu â chewri byd y cyfryngau rydym yn fach, a thros y degawd nesaf

byddwn yn mynd yn llai fyth. Felly bydd yn rhaid i ni reoli ein hadnoddau hyd yn oed yn fwy gofalus ac yn blaenoriaethu'r hyn y dylai'r BBC ei gynnig yn ein barn ni. Yn anochel, bydd yn rhaid i ni gau neu leihau rhai gwasanaethau.

Bydd yn rhaid i ni hefyd newid y ffordd rydym yn gweithio. Rydym i gyd am weld sefydliad symlach, mwy effeithiol lle mae cymaint o arian â phosibl yn cael ei wario ar raglenni a gwasanaethau. Rydym i gyd am weld BBC a fydd yn arloesi ac yn addasu'r hyn a wnawn wrth i ni wynebu'r heriau newydd, tra'n parhau i goleddu'r gwerthoedd sy'n ein gwneud yn nodedig ac yn wahanol. Yn anad dim, rydym i gyd am weld y BBC fel partner gwirioneddol â sefydliadau eraill. Byddwn yn hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu—ac yn galluogi.

I bawb y mae'r BBC yn bwysig iddynt, mae hon yn adeg i wrando, myfyrio a chroesawu trafodaeth. Os gwnawn y dewisiadau cywir nawr, bydd gan Brydain BBC sy'n rhagori mewn oes ddigidol, fyd-eang, yn agosach nag erioed i'r rhai sy'n talu amdano, gan wneud gwaith gwych a hollbwysig dros greadigrwydd yr ynysoedd hyn.

Mae'r BBC yn ased cenedlaethol gwych. Rydym yn ei warchod i'r genhedlaeth nesaf.

Y ddogfen hon yw'r gyntaf mewn cyfres ar gyfer yr Arolwg o'r Siarter.

Ei fan cychwyn yw'r trefniant ariannu i'r BBC a gyhoeddwyd yng Nghyllideb mis Gorffennaf. Wrth amlinellu strategaeth y BBC ar gyfer cyfnod y Siarter nesaf, rydym yn mynd i'r afael â themâu ym mhapur ymgynghori'r Llywodraeth ynghylch cenhadaeth, maint a chwmpas, a gwerth am arian, y BBC. Byddwn yn ymateb yn llawn i'r cwestiynau polisi yn y papur ymgynghori ym mis Hydref.

Mae'r ddogfen hon yn ateb y cwestiynau canlynol, fesul pennod.

Yn Rhan Un edrychwn ar y BBC heddiw. Mae Pennod Un yn gofyn: A yw'r BBC yn llwyddiannus? A yw'n gweithio'n ymarferol a sut y cyflawnwyd y llwyddiant hwnnw? Rydym yn amlinellu'r gwerth y mae'r BBC yn ei gynnig i gynulleidfaoedd heddiw. Rydym yn ystyried cyfraniad y BBC i gymdeithas, i'r economi greadigol, a'r ffordd y mae ffi'r drwydded yn sail hanfodol i werth cyhoeddus y BBC.

Ym Mhennod Dau, rydym yn mynd i'r afael â chwestiwn natur nodedig ein gwasanaethau. Sut y dylid diffinio hynny, i ba raddau y mae'r BBC yn cynnig arlwy nodedig a lle y gallwn gynnig arlwy sydd yn ystyrlon yn fwy nodedig?

Mae Pennod Tri yn gofyn beth mae cynulleidfaoedd am ei gael gan y BBC yn y dyfodol. Rydym yn defnyddio arolwg darlledu cyhoeddus Ofcom fel man cychwyn wrth ystyried anghenion y cyhoedd a gosod y BBC yng nghyd-destun ei farchnad.

Mae Rhan Dau yn ystyried BBC y dyfodol. Mae Pennod Pedwar yn amlinellu gweledigaeth i'r BBC yn ystod y Siarter nesaf: BBC sy'n addas i'r rhyngrwyd a phartner creadigol Prydain. Mae'n esbonio sut y gallwn edrych ar egwyddorion ac arfer gorau syniadaeth y rhyngrwyd a'u cymhwyso at ein cynhyrchion a'n gwasanaethau er mwyn sicrhau eu bod cystal ag y bo modd i'n cynulleidfaoedd ac yn rhoi'r cymorth mwyaf i sector creadigol a diwylliannol y DU.

Yna mae Penodau Pump, Chwech a Saith yn ystyried yn fanylach sut y cynigiwn y dylid ailddyfeisio'r ffordd rydym yn hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu yn unol â'r weledigaeth honno, fel y gallwn foderneiddio a gwarchod yr agweddau gorau ar ddarlledu cyhoeddus yn y dyfodol.

Mae Rhan Tri yn ystyried sut y gallwn ariannu BBC y dyfodol o fewn y cytundeb Cyllidebol y cytunwyd arno â'r Llywodraeth. Mae'n amlinellu ein cynigion i fod yn fwy effeithlon fyth, cynyddu ein hincwm masnachol a'r ffordd rydym yn cynnig byw o fewn ein hincwm.

Yn sgil y cynllun hwn, byddwn yn cyhoeddi ein cynigion cynhyrchu yn ddiweddarach yn ystod ym mis hwn, ac yn ateb cwestiynau polisi'r Papur Gwyrdd ym mis Hydref.

Mae'r BBC yn eiddo i'r cyhoedd. Mae ond yn llwyddo o ganlyniad i'w bartneriaid. Edrychwn ymlaen at gael barn pawb fel y gallwn wella ein cynigion a chytuno ar ddyfodol y BBC i'r genhedlaeth nesaf.

# RHAN UN:
# Y BBC HEDDIW

1

# A yw'r BBC yn llwyddiannus heddiw?

O'i gymharu â sefydliadau mawr eraill Prydain, mae'r BBC yn ifanc o hyd. Mae yna bobl yn byw o hyd sy'n gallu cofio adeg cyn y gallai'r wlad gyfan wrando ar eu Prif Weinidog neu eu Brenin, hynny yw, cyn bod y BBC yn bodoli i gynnal ein diwylliant cenedlaethol a'n bywyd cyhoeddus.

Cyn darlledu, fel y nododd Cyfarwyddwr Cyffredinol cyntaf y BBC, "Most of the good things of this world [were] badly distributed and most of the people [had] to go without them."

Gan ddechrau gyda'r 'weiarles', mae'r BBC wedi helpu i unioni hynny.

Mae pawb wedi gallu eistedd yn y sedd flaen. Ac yn y sioeau gorau i gyd. Gall pawb rannu yn y ddadl wleidyddol a arferai fod yn agored i'r ychydig rai yn unig. Gall pawb deithio'r byd, a gweld golygfeydd a phrofi diwylliant, nid yn unig Prydain, ond y byd cyfan.

Mae'r BBC wedi helpu i ddangos y wlad a hyd yn oed y byd i bobl Prydain.

Pa ddadleuon damcaniaethol bynnag a gynigir ynglŷn â bodolaeth y BBC, y profiad ymarferol ohono sy'n rhoi'r ddadl dros y sefydliad ddydd ar ôl dydd.

Y datganiad mwyaf croyw y gall y BBC ei wneud yw'r datganiad sy'n cael ei wneud nawr ac sydd erioed wedi cael ei wneud drwy ei raglenni, drwy ei greadigrwydd, yr edau sy'n cysylltu Richard Dimbleby mewn awyren Lancaster, *That Was The Week That Was*, *Doctor Who*, *Monty Python's Flying Circus*, Radio 4, adroddiad Michael Buerk ar y newyn yn Ethiopia, *Boys from the Blackstuff*, *The Proms*, *Match of the Day*, *Panorama*, *Planet Earth*, *The Archers*, *EastEnders* i *Wolf Hall*, Chris Evans, *The FA Cup* a *The Great British Bake Off*.

Y rhaglenni gorau, i bawb. Mae'r BBC yn gallu addo hynny'n hyderus, sef hyder na all neb ei gael mewn unrhyw drefniant arall. Mae manteision unrhyw bolisi arall yn ansicr. Mae manteision y BBC yn ddiriaethol ac yn amlwg.

Ni fyddai pobl Prydain am wneud heb y BBC a'r hyn a gynigia. Dyna'r ddadl dros y BBC mewn un frawddeg.

1.1


# A yw'r BBC yn gweithio'n ymarferol?

Ydy, yn bendant. Gall ategu'r honiad hwn â data pendant.

Mae ein gwasanaethau yn cyrraedd 97% o boblogaeth y DU bob wythnos, gyda chyfartaledd o tua wyth awr a hanner o deledu a thros ddeg awr o BBC Radio y pen.[1] Ac wrth i dechnoleg newid, y BBC, yn aml, sydd wedi bod ar flaen y gad. Mae ein deg ap mwyaf poblogaidd wedi cael eu lawrlwytho 80m o weithiau[2] a dim ond safleoedd Google a Facebook sy'n fwy poblogaidd na safleoedd y BBC ar ddyfeisiau symudol yn y DU.[3] O blith y 75 gwefan fwyaf poblogaidd yn y byd, gwefan y BBC yw'r unig wefan o Brydain.[4]

Mae'r perfformiad hwnnw wedi gwella dros gyfnod y Siarter bresennol. Rydym yn cyrraedd cymaint o bobl ag y gwnaethom ar y dechrau, ac maent yn rhoi marciau uwch i ni.

## Perfformiad cynulleidfaoedd y BBC yn ystod cyfnod y Siarter[5]




Mae'r amser y mae pobl yn ei dreulio gyda ni, a'u gwerthfawrogiad o ansawdd ein cynnwys, wedi golygu bod cefnogaeth i'r BBC wedi cynyddu dros gyfnod y Siarter hon. Maent yn rhoi saith allan o ddeg i ni, ar gyfartaledd, sy'n uwch nag yn 2007/08. Dywed wyth allan o ddeg o bobl y byddent yn gweld eisiau'r BBC pe na bai'n bodoli, sydd dipyn yn uwch nag unrhyw ddarlledwr arall.[6] Er gwaethaf gostyngiad nodedig i 6.0 allan o 10 yn ystod argyfwng Savile yn 2012, mae lefelau ymddiriedaeth wedi codi ac maent yn uwch nawr nag y buont ar ddechrau'r Siarter hon.[7]

1 GfK ar ran y BBC, Arolwg 'Cross-Media Insight', 6,000 o oedolion yn y DU fesul chwarter; RAJAR; BARB; 2014/15

2 Ar 10 Awst 2015

3 Metrics Symudol comScore, y DU, Ymwelwyr Unigryw, [P] Safleoedd y BBC, Mehefin 2015

4 Metricsau Symudol comScore, pen desg yn unig, Byd-eang, Ymwelwyr Unigryw, [P] Safleoedd y BBC, Mehefin 2015


5 Cyrhaeddiad y BBC cyfan ac amser fesul defnyddiwr / cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog BBC Ar-lein: GfK ar ran y BBC, Arolwg 'Cross-Media Insight', 6,000 o oedolion yn y DU, 16+ fesul chwarter; 2009/10 a 2014/15; Cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog Teledu'r BBC 15+ munud ac amser fesul defnyddiwr: BARB, 4+, 2010/11 a 2014/15; Cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog Radio'r BBC 15+ munud ac amser fesul defnyddiwr: RAJAR, 15+, 2007/08 a 2014/15; Mynegai Gwerthfawrogiad): Pulse gan GfK ar ran BBC, 2007/08 a 2014/15

6 Arolwg Cylch Gwaith Pwrpasau gan NatCen ar ran Ymddiriedolaeth y BBC, 2,298 o oedolion yn y DU, hydref 2014

7 Kantar Media ar ran y BBC, 6,000-12,000 o oedolion yn y DU y flwyddyn

## Mae canfyddiadau'r cyhoedd o'r BBC wedi gwella yn ystod cyfnod y Siarter hon[8]


*(Sgôr allan o ddeg)*




Adlewyrchir y gymeradwyaeth hon yng nghefnogaeth y cyhoedd i ffi'r drwydded Er nad oes unrhyw fath o drethiant yn boblogaidd, dengys arolygon barn hirdymor fod cynnydd yng nghefnogaeth y cyhoedd i ffi'r drwydded dros gyfnod y Siarter hon. Erbyn hyn mae cefnogaeth yn uwch, sef yn agos at 50%, nag y bu yn 2004 pan gefnogwyd ffi'r drwydded gan 31%, ac yn uwch nag y bu 25 mlynedd yn ôl. Mewn gwrthgyferbyniad, mae cefnogaeth i danysgrifio wedi bod yn lleihau dros y deng mlynedd diwethaf a hwnnw yw'r opsiwn lleiaf poblogaidd erbyn hyn.[9]

## Dengys arolygon barn hirdymor fod cynnydd yng nghefnogaeth y cyhoedd i ffi'r drwydded ers 2004[10]

*Pa un o'r canlynol yr hoffech weld fel prif ffynhonnell ariannu'r BBC?*




8 Kantar Media ar ran y BBC, 6,000–12,000 o oedolion yn y DU y flwyddyn. Graddfa: argraff gyffredinol 1 = hynod anffafriol, 10 = hynod ffafriol; datganiadau eraill: 1 = anghytuno'n gryf, 10 = cytuno'n gryf

9 2015: Ipsos MORI, 2,062 o oedolion 15+ yn y DU; 2004: ICM Unlimited, 1,037 o oedolion 18+ yn y DU; 1980au a 1990au: Arolygon o Ddelwedd Gorfforaethol y BBC

10 2004: ICM Unlimited, 1,037; 2009: ICM Unlimited, 1,001; 2011: ICM Unlimited, 1,034; 2012: Ipsos MORI, 2,078; 2013: Ipsos MORI, 1,034; 2014: Ipsos MORI, 1,015; 2015: Ipsos MORI, 2,062. Holl oedolion y DU ac eithrio 2009 sy'n Brydain Fawr

## 1.2

# Sut y cyflawnwyd y llwyddiant hwnnw?

Sut y cafwyd y gymeradwyaeth hon?

A yw'n deillio o ofyn i bobl, dyweder, roi cyfran uwch o'u hincwm i ariannu'r BBC? Neu o'r BBC yn mynd â chyfran gynyddol uwch o farchnad gyfryngol farwaidd?

Yr ateb yw bod y marciau uwch a roddir i'r BBC gan ei gynulleidfaoedd yn seiliedig ar raglenni a gwasanaethau gwych, yn ystod cyfnod pan oedd y sefydliad yn ymateb i ofyniad dealladwy i beidio â rhoi mwy o faich ariannol ar dalwyr ffi'r drwydded.

Arallgyfeiriwyd ein portffolio gennym. Dros ddau gyfnod Siarter crëwyd gwasanaethau newydd i gynulleidfaoedd a oedd yn cael llai gan y BBC—y Rhwydwaith Asiaidd, BBC Three a BBC ALBA. Lansiwyd gwasanaethau newydd er mwyn gwneud gwasanaethau'r BBC hyd yn oed yn fwy nodedig—o 6 Music i BBC Four a Radio 4 Extra. Gwnaethom helpu'r wlad i newid i deledu digidol. Arloeswyd i gynnig gwasanaethau newydd fel iPlayer a Newyddion Ar-lein. A'r cyfan am lai o ffi trwydded, o ystyried chwyddiant.

### Mae'r BBC yn darparu llawer mwy, am lai[11]

| Y BBC 20 mlynedd yn ôl | Y BBC heddiw |
|---|---|
| £153.21 fesul aelwyd (prisiau 2015)<br>0.23% o CMC | £145.50 fesul aelwyd<br>0.21% o CMC |
| BBC LOCAL RADIO | BBC RED BUTTON<br>BBC LOCAL RADIO<br>Ynghyd â rhwymedigaethau newydd gwerth tua £500m |
| Cystadleuaeth gyfyngedig:<br>Cyfran o 46% o raglenni teledu a radio a wyliwyd neu y gwrandawyd arnynt | Cystadleuaeth eithriadol:<br>Cyfran o 42% o raglenni teledu a radio a wyliwyd neu y gwrandawyd arnynt |
| 20 awr fesul unigolyn yr wythnos<br>teledu a radio | 20 awr fesul unigolyn yr wythnos<br>teledu, radio, ar-lein |

Diolch i arallgyfeirio, rydym yn dal i wasanaethu pawb. Ni newidiodd ein cyfran o gynulleidfaoedd teledu a radio ar ychydig dros 40%[12], ac rydym y parhau i gyrraedd bron bob oedolyn yn y DU bob wythnos.

Cyflawnwyd hynny er bod y BBC yn mynd yn llai o'i gymharu â'r farchnad. Gostyngodd ein cyfran o arian refeniw y diwydiant o 40% i 25%.[13] Aethom o gynnig dwy allan o 11 o sianelau teledu yn 1984, i ddwy allan o 61 o sianelau teledu yn 1994 i naw allan o 536 yn 2014.[14]


11 Dadansoddiad y BBC

12 BARB, RAJAR

13 1994 40%: PwC, Zenith, WARC, y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Adroddiad Blynyddol y BBC; 25%: Adroddiad Blynyddol y BBC 2014/15, Ofcom 2014

14 BFI, Ofcom

## Nifer y sianelau yn y DU





Mae'r darlun yn debyg ar gyfer radio, lle mae'r BBC wedi mynd o 50 allan o 226 o orsafoedd radio yn 1995 i 56 allan o 413 erbyn hyn.[15]

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi lleihau wrth i'r farchnad dyfu. Cafodd ffi'r drwydded ei rhewi, a bu'n ofynnol i'r BBC ddod o hyd i £500m y flwyddyn i ariannu'r World Service, rhoi cymhorthdal i fand eang gwledig a chefnogi S4C a theledu lleol. O ganlyniad, gostyngodd ffi'r drwydded ar gyfer gwasanaethau'r BBC o £4.1bn i £3.5bn mewn termau real. Yn ystod yr un cyfnod, cynyddodd ITV 12% a chynyddodd Sky 7% mewn termau real.[16]

## Ffi'r drwydded ar gyfer gwasanaethau'r BBC

*(prisiau 2014/15)*[17]




Felly, mae ariannu ar gyfer y BBC wedi gostwng o gymharu â'r farchnad dros y 25 mlynedd diwethaf, ac mewn termau real yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Ond roedd ei gyfran o'r gynulleidfa yn sefydlog. Nid oes unrhyw dystiolaeth bod y BBC wedi cynnal ei gyfran ar draul twf yn y farchnad.

15 Ofcom, BBC

16 Daw data refeniw blwyddyn lawn o adroddiadau cwmni: ITV (refeniw allanol y Grŵp) ar gyfer blwyddyn galendr 2011 a blwyddyn galendr 2014; Sky (refeniw'r Grŵp wedi'i addasu, heb gynnwys Ewrop) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben mis Mehefin 2011 a'r flwyddyn a ddaeth i ben mis Mehefin 2014. Mae 'termau real' yn cyfeirio at brisiau 2014/15.

17 Dadansoddiad y BBC

# 1.3 Mae’r BBC yn ganolog i’n bywydau

Mae dyletswydd ar ddarlledwr cenedlaethol a ariennir drwy ffi’r drwydded nid yn unig i gyrraedd cynulleidfa eang, ond i wneud hynny mewn ffordd sylweddol. Rydym yn ei hystyried yn ddyletswydd arnom i fod yn rhan o fywydau ein cynulleidfa, er mwyn sicrhau eu bod yn cael gwasanaeth sydd o werth cyson a dwfn yn gyfnewid am eu ffi.

Awgryma’r dystiolaeth sydd ar gael ein bod yn cyflawni’r ddyletswydd honno.




07:45 — 12.5m yn dechrau’r dydd gyda Radio’r BBC




08:00 — 500,000 o borwyr yn edrych ar wefan Tywydd y BBC




08:15 — 3.8m yn gwylio *BBC Breakfast*



09:00 — 2.0m o borwyr yn defnyddio BBC Ar-lein




09:15–12:00 — 4.8m yn gwrando ar BBC Radio 2



13:00 — 2.2m o borwyr yn defnyddio BBC Ar-lein 3.4m yn gwylio *One o’clock News* y BBC




15:45 — Ar brynhawniau yn ystod yr wythnos: 300,000 o blant yn gwylio CBBC

Ar brynhawn dydd Sadwrn yn ystod y tymor pêl-droed:
3.1m yn gwrando ar 5live neu Radio Lleol y BBC 2.8m o borwyr yn edrych ar wefan BBC Chwaraeon



17:00 — 7.0m yn gwrando ar *BBC Radio Drivetime*



17:15 — 3.4m yn gwylio *Pointless* ar BBC One



18:00 — 6.0m yn gwylio *Six o’clock News* y BBC



18:30 — 6.6m yn gwylio Newyddion Rhanbarthol y BBC



18:45 — 300,000 o blant o dan 7 oed yn paratoi ar gyfer gwely gydag Awr Amser Gwely CBeebies




19:00 — 1.2m yn gwrando ar *The Archers* ar Radio 4




19:30–22:00 — 16.4m yn troi Teledu’r BBC ymlaen



22:00 — 6.1m yn gwylio *Ten O’Clock News* y BBC




23:00 — 500,000 o geisiadau i BBC iPlayer

Mae’r BBC yn rhan gyson o ddiwrnodau pobl, gan gydweddu â’u trefn feunyddiol a bod yn bresenoldeb pwerus a chyson.

Mewn gwaith ymchwil newydd,[18] cytunodd 70 o aelwydydd yn y DU, a oedd yn tueddu i gynnwys pobl a oedd yn gwrthwynebu talu ffi’r drwydded lawn, i wneud heb y BBC am naw diwrnod ac, yn lle hynny, rhoddwyd swm cyfatebol o £3.60 iddynt.

18 MTM Research, ‘Life without the BBC: household study’, 70 UK households, Gorffennaf 2014–Mawrth 2015

Fodd bynnag, ar ôl treulio amser heb y BBC, newidiodd dros ddwy o bob tair aelwyd eu meddwl, gan ddweud eu bod wedi tanbrisio rôl y BBC yn eu bywyd bob dydd. Heb bresenoldeb y BBC, roeddent wedi sylweddoli i ba raddau roedd yn rhan o wead eu bywydau, o godi ben bore i deithio yn y car, a'u helpu i baratoi'r plant i fynd i'r gwely. Roeddent yn gwerthfawrogi ansawdd y BBC a dywedwyd wrthym eu bod wedi gweld eisiau ei gynnwys a'i wasanaethau unigryw.

Mae miliynau o BBCau gwahanol. Gall pob gwrandäwr, gwyliwr a defnyddiwr greu ei BBC ei hun o'n hamrywiol wasanaethau. Ond oherwydd bod pob un ohonom yn talu am yr un bwndel o wasanaethau, mae pawb yn talu llai am ei BBC.

Dyna werth ffi'r drwydded. Mae'n ein galluogi i gynnig arlwy eang—gan apelio i chwaeth boblogaidd a'r hyn na fydd yn ddichonadwy i ddarparwyr masnachol. Mae'n ein galluogi i fod yn ddwfn, gan ddarparu amrywiaeth o wasanaethau i gynulleidfaoedd y gellir eu cyfuno er mwyn bodloni eu chwaeth bersonol.

## Mae'r BBC yn wahanol i bob aelwyd[19]

*O blith sampl o **1,038** o aelwydydd, cyfrifwyd **825** o wahanol gyfuniadau o wasanaethau'r BBC a ddefnyddir mewn wythnos*





*Ni ddefnyddiwyd yr un cyfuniad o wasanaethau'r BBC gan fwy na **3%** o aelwydydd*



19 Kantar Media ar ran y BBC, 1,038 o aelwydydd yn y DU, Gorffennaf-Awst 2015

## Mae bron bob aelwyd yn defnyddio grŵp gwahanol o wasanaethau[20]




20 Kantar Media ar ran y BBC, 1,038 o aelwydydd yn y DU, Gorffennaf-Awst 2015; BARB, RAJAR, 2014/15. Gwasanaethau a ddangoswyd = y rhai sydd â chyrhaeddiad uchel neu â mynegai uchel (sy'n golygu eu bod yn anghymesur o bwysig) fesul math o aelwyd. Ni ddangosir y logos mewn unrhyw drefn benodol

## 1.4 Mae'r BBC yn helpu i greu'r Brydain sydd ohoni?

Mae gwasanaethau'r BBC nid yn unig o ansawdd uchel ac yn boblogaidd iawn ymhlith cynulleidfaoedd. Maent yn helpu i wneud Prydain yn lle gwell.

Maent yn dod â'r wlad at ei gilydd. Mae'r BBC yn troi pethau mor amrywiol â dawnsio neuadd (*Strictly Come Dancing*), pobi cartref (*The Great British Bake Off*), busnes (*The Apprentice*), cerddoriaeth glasurol a phoblogaidd (*The Proms*, *The Voice UK*, *Radio 1's Big Weekend*), yn ogystal ag achosion elusennol (*Children in Need*, *Comic Relief*) a chwaraeon (*Wimbledon*, *The Olympics*, *The FA Cup*) yn ddigwyddiadau cenedlaethol. Maent yn dod yn weithgarwch hamdden cyffredin y gall pawb fod yn rhan ohono a'i drafod.

Yn hytrach na gwahanu pobl oddi wrth ei gilydd, mae technoleg ar alw wedi ychwanegu at y profiad cyffredin hwnnw: gall cynulleidfaoedd ddal i fyny ar y rhaglenni y mae eu ffrindiau a'u teulu wedi'u mwynhau.

Ni ddylid cymryd hyn yn ganiataol. Mae'n Brydeinig iawn ac yn ffrwyth sefydliad y BBC.

Yn yr UD, er enghraifft, mae eiliadau o'r fath yn cael eu rhannu'n llawer llai cyffredin ac maent yn llawer prinnach. Heblaw am chwaraeon, nid yw cynulleidfaoedd mwyaf yr UD fawr ddim mwy na'n cynulleidfaoedd ni, er bod eu poblogaeth bum gwaith yn fwy.

Un o fanteision eraill y BBC i hunaniaeth a bywyd cymunedol y wlad yw ei fod yn adlewyrchu ac yn adrodd ar y Deyrnas Unedig gyfan.

O ran newyddion, chwaraeon, rhaglenni dogfen a chomedi—ar radio lleol, ac mewn rhaglenni teledu a wneir yn benodol i'r Gwledydd, yn ogystal ag mewn ieithoedd lleiafrifol—mae ein gwasanaethau yn helpu i gysylltu cynulleidfaoedd â'u diwylliant a'u treftadaeth, gan sicrhau bod y wlad yn cael sgwrs hyddysg â hi ei hun.



Gwyliodd 91% o'r DU Gemau Olympaidd 2012 ar Deledu'r BBC. Teimlai 95% o'r gynulleidfa fod darllediadau'r BBC wedi bodloni neu wedi rhagori ar eu disgwyliadau



Mae BBC One yn rhan o wead Dydd Nadolig ym Mhrydain. Dros gyfnod y Siarter hon, mae wedi dangos, ar gyfartaledd, saith o'r 10 rhaglen fwyaf poblogaidd a wyliwyd yn fyw ar y diwrnod



Y sioe fwyaf poblogaidd ar y BBC yn 2013 oedd Tân Gwyllt Nos Galan, gyda 13.5 o wylwyr



Gwyliodd 18.7m Seremoni'r Briodas Frenhinol yn 2011 yn fyw ar BBC One

ELECTION
2015

Cyrhaeddodd darllediadau teledu'r BBC ar Noson Etholiad 2015 dros 19m o bobl



Denodd gêm derfynol Cwpan y Byd 2014 gynulleidfa o 15m ar BBC One



Gwyliwyd rhaglen dathlu 30 mlynedd o Eastenders gan fwy na 21m o bobl—37% o'r boblogaeth




Gwnaeth pedwar o bob pum oedolyn yn y DU weld neu glywed cynnwys y BBC i nodi canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf



Gwyliodd 61% o'r boblogaeth ddarllediadau teledu Wimbledon 2013 y BBC gyda 17m yn gwylio Andy Murry yn ennill y bencampwriaeth

Ond gall rhaglenni a gwasanaethau wneud rhagor.

Gallant unioni problemau na all dulliau eraill eu hunioni.

Sut i gael mwy o fyfyrwyr i astudio gwyddoniaeth; sut i annog dinasyddiaeth; sut i drin a thrafod cwestiynau anodd. Dyma broblemau sydd o bwys i bleidleiswyr ond mae llywodraethau'n cael anhawster i'w hateb yn uniongyrchol.

Mae'r rhai sy'n llunio polisi yn gwybod bod diwylliant yr un mor bwysig â darparu gwasanaethau. Ond anaml y bydd ganddynt yr adnoddau i newid diwylliant. Dyna lle y gall darlledu cyhoeddus helpu. Mae'n cynnig fforwm lle y gall pobl drafod yr hyn sy'n bwysig, newid neu ddyfnhau eu safbwyntiau, a dod o hyd yn raddol i atebion gwell.

### Dinasyddiaeth hyddysg



Nododd Diwrnod Democratiaeth ar y BBC 750 mlwyddiant senedd gyntaf Lloegr gan helpu i ddyblu ymwybyddiaeth dros nos bron o 19% i 34% o oedolion yn y DU

### Helpu plant i ddysgu

BBC Bitesize


Defnyddir Bitesize gan 82% o ddisgyblion uwchradd yn yr ysgol. Dros gyfnod y Siarter, mae dros 200,000 o ddisgyblion ysgol wedi cymryd rhan yn Adroddiad Ysgol BBC Newyddion i fod yn newyddiadurwyr am y diwrnod

### Llythrennedd a llenyddiaeth i bawb




Mae ap Amser Stori CBeebies wedi cael ei lawrlwytho 1.2 miliwn o weithiau. Yn y cyfamser, helpodd addasiad BBC Two o Wolf Hall i ddyblu'r ymwybyddiaeth o'r nofel ymhlith y cyhoedd a chynyddu nifer y darllenwyr 40%

### Dinasyddiaeth weithredol



Cyrhaeddodd darllediadau Etholiad Cyffredinol 2015 y BBC 89% o'r holl oedolion a 84% o bobl 16–34 oed yn ystod wythnos y canlyniadau. Teimlai 60% mai darllediadau'r BBC oedd rhai gorau'r ymgyrch

### Annog astudio gwyddoniaeth



Cyrhaeddodd Blwyddyn Gwyddoniaeth y BBC 45.4m o bobl. Mae'r Athro Brian Cox o'r farn ei fod wedi helpu i gynyddu'r niferoedd sy'n astudio gwyddoniaeth

### Cynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon



Nod rhaglen Get Inspired y BBC yw annog cyfranogiad mewn chwaraeon a chadw'n heini. Cymerodd dros 30,000 o bobl ran yng Nghwpan y Bobl

### Cyfraniad elusennol



Dros gyfnod y Siarter, mae apeliadau elusennol y BBC wedi codi cyfanswm o £937m

### Tanio gwerthfawrogiad o'r celfyddydau




Mae menter gerddorol Ten Pieces y BBC, sy'n anelu at gyflwyno byd cerddoriaeth glasurol i blant, wedi cynnwys hanner holl ysgolion cynradd y DU

### Cefnogi talent newydd




Mae BBC Introducing ynddo'i hun wedi darganfod dros 30 o artistiaid sydd wedi llofnodi contractau â chwmnïau recordiau annibynnol mawr a phwysig yn ystod y 12 mis diwethaf

Y pŵer hwn i ddeall ein cymdeithas yw'r rheswm mai'r DU sy'n arwain yn fyd-eang o ran teledu sy'n helpu pobl i ddysgu. O blith 61 o sianelau yma a thramor, ystyrir mai BBC One yw'r sianel orau o ran helpu pobl i ddysgu pethau newydd a'r sianel orau ar y cyd o ran helpu pobl i ddeall yr hyn sy'n digwydd yn y byd ac yn y wlad heddiw.[21]

21 Populus ar ran y BBC, 14 o wledydd (500 o oedolion fesul gwlad), Mai–Mehefin 2015

## 1.5 Mae'r BBC yn gwneud y DU yn wlad fwy creadigol

Mae'r gwerth y mae'r BBC yn ei roi i gynulleidfaoedd yn rhan ganolog o'r ddadl drosto. Ond mae sylw ymarferol arall sy'n werth ei nodi.

Mae gan y DU y BBC, ac ychydig iawn o wledydd eraill sydd mewn sefyllfa well yn greadigol na'r DU.

Dros gyfnod estynedig, mae'r diwydiannau creadigol wedi tyfu yn gynt o lawer na'r economi yn ei chyfanrwydd, o ran gwerth ychwanegol gros (GYG), allforion a chyflogaeth.

Nid drwy hap y mae Prydain mewn sefyllfa gystadleuol.

Mae'r DU wedi creu system gyfryngol yn y wlad hon sy'n seiliedig ar y canlynol:

- Talent greadigol sy'n rhyfeddol o gryf a dwfn—yr awduron, cyfarwyddwyr, cynhyrchwyr, cerddorion, actorion a'r rhai sy'n gweithio y tu ôl i'r llwyfan
- Rhwydwaith creadigol sydd â chysylltiadau cadarn a thalent sy'n llifo rhwng ei wahanol elfennau—rhwng teledu a ffilm, radio a cherddoriaeth, a darlledu a'r celfyddydau perfformio
- Cystadleuaeth cyhoeddus-preifat—ym myd darlledu, yn ogystal ag ym myd diwylliant a'r celfyddydau, mae gan y DU ecoleg gymysg o sefydliadau a ariennir yn gyhoeddus a sefydliadau masnachol sy'n cystadlu er budd pawb. Mae arian cyhoeddus—sydd bellach ond yn cyfrif am un rhan o bump o gyfanswm arian refeniw teledu—wedi cefnogi marchnad cyfryngau fywiog yn y DU yn hytrach na'i thagu.

Mae'r BBC yn cefnogi'r holl bethau hyn. Awgrymwyd bod ein marchnad cyfryngau gadarn yn destun cywilydd i'r BBC, ac mae wedi tyfu er gwaethaf y BBC. Ond i'r gwrthwyneb. Mae'r BBC yn falch o farchnad cyfryngau Prydain ac yn credu ei bod mor gryf ag y mae yn rhannol oherwydd y BBC.

Mae cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus y BBC yn ei gwneud yn ofynnol i ni fuddsoddi mewn syniadau a thalent greadigol newydd, frodorol, ac mae ffi'r drwydded yn ein galluogi i wneud hynny ar raddfa. O deledu i gerddoriaeth, o ysgrifennu i ffilmio, mae'r BBC yn rhan allweddol o'r rheswm pam mae'r DU yn allforiwr creadigrwydd mor ardderchog.

Mae gwaith dadansoddi gan Frontier Economics[22] wedi nodi'r prif sianelau lle mae'r BBC yn cynorthwyo twf y sector preifat.

Yn gyntaf, y BBC yw'r buddsoddwr mwyaf unigol mewn teledu a radio. Mae'n defnyddio ffi'r drwydded i ddarganfod ac ariannu syniadau a thalent orau Prydain—boed hynny'n fewnol neu gan gwmnïau annibynnol—a'u cysylltu â chynulleidfa gartref a thramor. Buddsoddodd y BBC tua £2.2bn o incwm ffi'r drwydded yn uniongyrchol yn y sector creadigol yn 2013/14. Buddsoddwyd £1.2bn o'r cyfanswm hwn y tu allan i'r BBC, gyda thua £450m yn cael ei fuddsoddi mewn micro-fusnesau creadigol a rhai bach. Mae 86% o'i gyflenwyr creadigol yn fusnesau bach neu'n ficrofusnesau. Er bod ffi'r drwydded yn cyfrif am tua 20% o arian refeniw darlledu teledu'r DU, caiff ei throi i ryw 40% o'r buddsoddiad mewn cynnwys teledu gwreiddiol yn y DU.

Yn ail, y BBC yw'r llwyfan gorau i'r byd ar gyfer talent a gwneuthurwyr rhaglenni o Brydain. Mae llawer o'r rhaglenni teledu y mae'r BBC wedi buddsoddi ynddynt yn cynhyrchu enillion economaidd mawr drwy werthiannau eilaidd ac allforion (o *Wolf Hall* i *Silent Witness*). Mae BBC Worldwide yn dosbarthu rhaglenni'r BBC yn ogystal â rhaglenni cynhyrchwyr annibynnol, a'r BBC yw'r dosbarthwr mwyaf yn y byd y tu allan i stiwdios mawr yr UD.

Yn drydydd, fel y nododd adolygiad Ofcom o ddarlledu cyhoeddus, y BBC yw conglfaen y system darlledu cyhoeddus. Pan fydd y BBC yn perfformio'n dda, mae darlledwyr masnachol yn ymdrechu i gystadlu am gynulleidfaoedd, sy'n herio'r BBC i anelu'n uwch—sy'n creu dolen adborth gadarnhaol yn hytrach na sefyllfa lle mae'r naill ond ar ei ennill ar draul y llall.

Yn bedwerydd, mae effeithiau ehangach buddsoddiadau'r BBC yn mynd ymhell y tu hwnt i fyd darlledu. BBC iPlayer oedd y sbardun dros ddatblygu marchnad fideo ar alw'r DU, sef y farchnad fwyaf yn Ewrop o bell ffordd erbyn hyn.

Fel y dywedodd Reed Hastings, Prif Weithredwr Netflix, "The iPlayer really blazed the trail. That was long before Netflix and really got people used to this idea of on-demand viewing."

22 Frontier Economics, The contribution of the BBC to the UK's creative industries, Ebrill 2015

Cydnabyddir bod y BBC yn anhepgor i sefyllfa'r DU fel arweinydd cerddoriaeth yn y byd. Mae Radio 1 a Radio 2, yn benodol, yn darganfod ac yn hyrwyddo talent gerddorol frodorol newydd ac mae'r sylw yn eu rhaglenni yn ysgogi gwerthiannau cerddorol. Mae'r BBC yn creu'r caneuon mwyaf poblogaidd y mae eraill yn eu chwarae.

Yn olaf, mae'r BBC yn atgyfnerthu gallu cynhyrchu'r sector creadigol ac, yn hollbwysig, yn lledaenu buddiannau twf ledled y DU. Gwna hyn drwy ddarganfod a hyrwyddo'r genhedlaeth nesaf o dalent ar y sgrin a'r tu ôl i'r llwyfan ym Mhrydain. Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae BBC Introducing wedi darganfod dros 30 o artistiaid sydd wedi llofnodi contractau â chwmnïau recordiau annibynnol mawr a phwysig.

Roedd cyfarwyddwyr megis Danny Boyle a Tom Hooper sydd wedi ennill gwobrau Oscar, neu actorion megis David Oyelowo, Martin Freeman a Daniel Craig, sy'n sêr dros y byd, oll wedi cael cyfle cynnar ar y BBC. Mae'r BBC hefyd yn atgyfnerthu'r sector creadigol drwy fod yn 'denant angori' i glystyrau cyfryngau/digidol ledled y DU—yn Salford a Manceinion Fwyaf gyda MediaCityUK, ym Mryste gyda'r Uned Hanes Naturiol, yng Nghaerdydd gyda'r pentref drama ac yn Glasgow gyda Pacific Quay.

Nid oes angen i'r rhai sy'n llunio polisi ddewis rhwng llwyddiant masnachol a'r BBC. Mae'r naill yn cefnogi'r llall. Mae niweidio'r naill yn niweidio'r llall.

## 1.6 A ellir cyfiawnau ffi'r drwydded?

Mae'r BBC yn gweithio'n ymarferol, ond beth am y ffordd y caiff ei ariannu?

Beth yw'r rhesymeg bolisi dros sefydliadau fel y BBC, yn y byd sydd ohoni? Gan fod mwy o gystadleuaeth ym myd darlledu erbyn hyn, beth am adael y cyfan i'r farchnad?

Dylech ddechrau gyda'r nodau rydym am eu cyflawni—sut beth yw canlyniad da yn yr agweddau gwahanol ar ein bywydau? Yna dylem benderfynu ar y ffordd orau o gyflawni'r nodau hyn.

Beth yw'r cymysgedd gorau o atebion y farchnad ac atebion cyhoeddus. Beth yw'r ffordd orau o ariannu gwasanaethau ac iddynt bwrpasau gwahanol? Bydd y dewisiadau yn amrywio yn ôl y maes a byddant, yn hollbwysig, yn dibynnu ar y pwys y mae cymdeithas yn ei roi ar feini prawf cymdeithasol, diwylliannol a moesol yn ogystal â thwf ac effeithlonrwydd. Ni all hwn fyth fod yn ymarfer gwyddonol—mae a wnelo â'r farn rydym yn ei llunio gyda'n gilydd, yn enwedig drwy'r Arolwg o'r Siarter.

Mae pobl Prydain am weld amrywiaeth o gynnwys gwreiddiol o ansawdd uchel o Brydain sydd ar gael yn gyffredinol ac y gallant fanteisio arno. Dylai mynediad at ddiwylliant, y cyfryngau a gwybodaeth fod yn hawl ddynol sylfaenol, wedi'i sicrhau ni waeth beth fo gallu preifat unigolyn i dalu amdano. Ond nid yw sicrhau ei fod ar gael yn ddigon—mae'n rhaid iddo gael ei ddefnyddio'n dda. Pan fydd pawb yn cymryd rhan, mae'n esgor ar fuddiannau lles a chydlyniad, democratiaeth ac addysg.

Y ffordd orau o gyflawni'r nodau hyn yw cymysgedd o sefydliadau cyhoeddus a phreifat a chanddynt gylch gwaith a modelau ariannu gwahanol.

Mae'r gystadleuaeth am ansawdd rhwng y BBC, y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol (ITV/STV/UTV, Channel 4, S4C a Channel 5) a darlledwyr tanysgrifio fel Sky, wedi arwain at fwy o fuddsoddiad ac allbwn gwell a mwy amrywiol. Mae Ofcom wedi dangos bod cefnogaeth gyffredinol i bwrpasau parhaol darlledu cyhoeddus, sy'n mynd y tu hwnt i unioni methiannau'r farchnad. Y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sy'n sbarduno cynnwys gwreiddiol yn y DU, gan gyfrif am fwy nag 80%—£2.5bn—o'r buddsoddiad mewn cynnwys bob blwyddyn.

Mae'r BBC yn rhan unigryw a hollbwysig o'r ecoleg lwyddiannus hon. Mae'n cydweddu'n dda â sefydliadau'r farchnad.

Fel prifysgolion, llyfrgelloedd cyhoeddus, amgueddfeydd, theatrau ac orielau, rydym yn sicrhau bod pobl yn cael mynediad at gynnwys sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu ac yn ei ddefnyddio. Ochr yn ochr â radio masnachol, papurau newydd a gwefannau, mae Prydain yn cynnig mwy o ddewis o gyfryngau na bron unman arall.

Mae ffi'r drwydded yn chwarae rhan ganolog.

Mae'n sicrhau bod y gwasanaeth i bawb. Mae'n gwarantu apêl y BBC i bawb. Mae'n sicrhau—gan fod pawb yn talu—bod pawb yn talu llai a bod pawb yn elwa.

Ar gyfer pob awr a wyliwyd, mae rhaglenni teledu'r BBC yn costio tua phum gwaith yn llai fesul aelwyd na'r rhai ar deledu tanysgrifio[23]. Gall aelodau'r cyhoedd weld cyswllt uniongyrchol, syml rhwng y buddiannau y mae'r BBC yn eu rhoi iddynt a'r taliadau a wnânt. O ganlyniad i hynny, mae'r BBC yn uniongyrchol atebol i'r cyhoedd tra'n dal i fod yn annibynnol oddi ar reolaeth wleidyddol.

Oherwydd ffi'r drwydded, mae pobl yn cael mwy o ddewis o gyfryngau: gan BBC sy'n cynnig arlwy nodedig, o'r cymorth y mae ffi'r drwydded yn ei roi i economi greadigol Prydain ac oherwydd y gronfa fwy o arian i'w fuddsoddi mewn rhaglenni. Ni fyddai hysbysebion a thanysgrifio yn cymryd lle buddsoddiad a gollwyd o ffi'r drwydded.[24]

Mae ffi'r drwydded yn sicrhau bod y cyhoedd yn cael gwell rhaglenni, am lai o arian, nag o dan unrhyw system arall. Gan fod pawb yn talu, mae'r gost i'r unigolyn yn mynd mor isel ag y gall fod am y gwasanaeth gorau a mwyaf cynhwysfawr.

Ond er bod egwyddor ffi'r drwydded yn dal i fod yn gywir, mae angen diweddaru'r system bresennol er mwyn adlewyrchu technolegau newydd ac ymddygiad cynulleidfaoedd. Rydym yn croesawu ymrwymiad y Llywodraeth i ymestyn ffi'r drwydded teledu i fideo darlledu cyhoeddus ar alw, a chyflwyno deddfwriaeth i wneud hynny o fewn y 12 mis nesaf.

Mae opsiwn y Llywodraeth yn y Papur Gwyrdd i ddiwygio ffi'r drwydded yn y tymor canolig drwy ei chodi ar bob aelwyd, fel sy'n digwydd yn yr Almaen, yn werth ei ystyried. Byddai moderneiddio o'r fath yn adlewyrchu'r defnydd cyffredinol a wneir o'r BBC a'r gwerth y mae ei wasanaethau yn ei roi i gymdeithas gyfan. Byddai hefyd yn diogelu buddsoddiad yn yr economi greadigol yn yr hirdymor.

Mae ffi'r drwydded wedi cael ei moderneiddio'n barhaus—yn gyntaf i gynnwys teledu, yna deledu lliw, ac yn fwyaf diweddar, defnydd byw dros y rhyngrwyd. Mae hon yn broses a ddylai barhau. Byddai dulliau ariannu amgen, megis tanysgrifio, yn newid natur y BBC yn sylfaenol ac yn dadsefydlogi ecoleg ddarlledu'r DU, sy'n seiliedig ar gystadleuaeth am ansawdd —ond nid cystadleuaeth am ariannu—rhwng y BBC a'r farchnad.

23 Mediatique, Index of cultural inflation, Awst 2015

24 Sefydliad er Astudio Newyddiaduraeth Reuters, Chwefror 2014, 'What if there were no BBC'. Ar gael yn http://reutersinstitute.politics.ox.ac.uk/publication/what-if-there-were-no-bbc-television

2

# A yw allbwn y BBC yn nodedig ac o ansawdd uchel?

Felly, nid oes angen i'r arolwg Siarter hwn unioni gwasanaeth cyhoeddus sy'n methu. Ond mae Papur Gwyrdd y Llywodraeth o anghenraid yn codi cwestiynau am y dyfodol, a hynny'n ddilys.

## 2.1 Beth yw natur nodedig?

Un cwestiwn pwysig a godwyd gan y Papur Gwyrdd yw a yw'r BBC yn cynnig arlwy nodedig. A yw corff a sefydlwyd fel sefydliad cyhoeddus ond yn gwneud yr hyn y gallai unrhyw gwmni preifat ei wneud?

Mae dyletswydd ar y BBC i wasanaethu pawb—ond nid gyda rhywbeth rhywbeth.

Mae angen apelio at bawb drwy ansawdd parhaol ein rhaglenni, o fewn amrywiaeth unigryw o eang o genres.

Mae ffi'r drwydded yn rhoi rhyddid creadigol i ni. Mae gennym y fraint o allu gwneud rhaglenni da, heb orfod ystyried a fyddant yn gwneud elw hefyd. Dylai'r fraint honno fod yn rhan o bopeth a wnawn.

Dylem anelu at sicrhau bod pob rhaglen yn anelu am y gorau yn y genre hwnnw. Bydd yr hyn a olygir wrth y rhaglen orau yn amrywio o genre i genre. Bydd p'un a ydym wedi llwyddo bob amser yn oddrychol. Yn aml byddwn yn methu. Bydd eraill yn aml yn gwneud rhaglenni gwell. Ond dylai pob un o raglenni'r BBC anelu am y gorau—ni ddylai unrhyw rai nad ydynt yn gwneud hynny gael eu comisiynu.

Dylai rhaglenni unigol cael eu barnu ar eu teilyngdod eu hunain, yn hytrach na thrwy eu cymharu â rhaglenni eraill yn y farchnad. Nid yw'n gwneud synnwyr yn ymarferol dweud y dylai'r BBC ond gwneud rhaglen pe na bai darlledwr arall byth yn ei gwneud. Byddai hynny'n golygu pan wnaeth ITV *Broadchurch*, y byddai'n rhaid i'r BBC roi'r gorau i wneud *Happy Valley*.

Nid yw ychwaith yn gwneud synnwyr yn greadigol. Nid ydym yn rhoi cymhelliant i'n timau drwy ofyn iddynt wneud rhaglenni sy'n wahanol. Rydym yn gwneud rhaglenni da drwy ddod o hyd i'r dalent orau, gyda'r syniadau gorau, a rhoi pob rhyddid iddynt. Nid ydym yn dechrau gyda bwlch yn y farchnad, ac yn ceisio ei lenwi. Rydym yn dechrau gyda'r syniad ac yna wneud iddo ddigwydd.

Gall natur nodedig gwasanaethau gael ei barnu drwy gymhariaeth. Rydym yn cynnig diffiniad syml: ar y cyfan, dylai'r amrywiaeth o raglenni yn un o wasanaethau'r BBC fod yn wahanol yn amlwg i'w gystadleuwyr masnachol.

Pam ar y cyfan? Pam bod y BBC yn gwneud rhai mathau o raglenni sy'n debyg i raglenni'r sector masnachol? Y rheswm pwysicaf yw ei fod yn gwneud y rhaglenni hynny'n dda.

Yna mae ffi'r drwydded yn golygu bod cynulleidfaoedd yn talu llai am y rhaglenni hynny gan y BBC, ond maent yn cael mwy gan y farchnad gyfan, gan fod cystadleuaeth yn gwneud i ddarlledwyr a ariennir drwy danysgrifio, drwy hysbysebion a thrwy arian cyhoeddus anelu am y gorau.

Dim ond os bydd y BBC yn bodloni prawf natur nodedig y bydd y dewis ehangach hwnnw yn digwydd—o'n cymharu â'n cystadleuwyr, a ydym yn gwneud llai o raglenni sy'n fasnachol atyniadol a mwy o raglenni nad ydynt yn fasnachol atyniadol? Pe baem yn efelychu'r farchnad, byddai'r cynulleidfaoedd ond yn cael yr un sioeau. Ond drwy wneud rhai o'r sioeau mwyaf poblogaidd rydym yn cynyddu dewis.

Mae'r cyhoedd yn cefnogi ffi'r drwydded oherwydd yr amrywiaeth honno. Yr hyn sy'n ei gwneud yn bosibl i gael ffi trwydded sy'n ariannu rhaglenni newyddion neu raglenni dogfen neu gerddoriaeth glasurol fyw yw'r gefnogaeth gyffredinol a ddaw o ddarparu rhaglenni i bawb.

Mae ffi'r drwydded yn ein galluogi i arloesi, bod yn feiddgar a mentro. Mae'n briodol bod y Papur Gwyrdd—wrth bwysleisio natur nodedig—yn mynnu bod ein hallbwn cyffredinol yn dangos tystiolaeth gref o hyn.

Ond mae angen i ni ddiffinio natur nodedig yn glir. Nid yw'n golygu na ddylai'r BBC fyth wneud rhaglen y gallai'r sector masnachol ei gwneud, nac ychwaith bod modd barnu natur nodedig rhaglen drwy gymhariaeth. Dylai olygu bod pob un o raglenni'r BBC yn anelu am y gorau yn y genre hwnnw, ac, ar y cyfan, y dylai pob un o wasanaethau'r BBC fod yn wahanol yn amlwg i'w gystadleuwyr masnachol.

## 2.2 I ba raddau rydym yn cynnig arlwy nodedig?

Pa mor dda rydym yn ei wneud heddiw o ran cynnig arlwy nodedig ac a allwn wneud yn well?

Er mwyn ystyried hyn, rydym wedi mesur pob un o wasanaethau'r BBC yn erbyn eu cystadleuwyr. Rydym yn crynhoi'r dadansoddiad isod. I'r rhai sydd am ei astudio'n fanylach, mae fersiwn o'r bennod hon sy'n nodi bod pob ffynhonnell ar gael ar-lein.

Ar y cyfan, mae gwasanaethau'r BBC yn fwy nodedig nag y buont erioed. Er enghraifft, 30 mlynedd yn ôl, roedd pumed rhan o amserlen oriau brig BBC One yn cynnwys cyfresi o dramor fel *Dallas*, *The Rockford Files* a *Kojak*. Heddiw, nid oes yr un gyfres o'r fath.


Mae llawer o wasanaethau, drwy broses arolygon trwydded gwasanaethau Ymddiriedolaeth y BBC, wedi dod yn fwy nodedig drwy'r Siarter hon.

Mae rhai yn unigryw. Mae'n anodd dod o hyd i wasanaeth sy'n cymharu â Radio 4 neu BBC Alba. Lle y ceir cystadleuwyr uniongyrchol, mae ein harlwy gyffredinol yn amlwg yn wahanol.

BBC One yw gwasanaeth pwysicaf y BBC. Hon yw sianel fwyaf poblogaidd y DU ym mhob grŵp oedran, grŵp economaidd-gymdeithasol ac ym mhob rhan o'r wlad. Mae ar gael mewn 18 o fersiynau gwahanol, gyda rhaglenni ychwanegol ym mhob un o'r Gwledydd. Mae'n cyrraedd tri chwarter y boblogaeth bob wythnos, sy'n ei wylio am dros saith awr a hanner yr wythnos. Mae tair miliwn o bobl yr wythnos yn defnyddio BBC One a dim un o wasanaethau eraill y BBC.

BBC One yw sianel orau'r byd bron yn sicr. Mewn arolwg rhyngwladol o 14 o wledydd, gofynnwyd i bobl mewn gwahanol rannau o'r byd ddisgrifio ansawdd eu sianelau mwyaf. Gwylwyr yn y DU oedd fwyaf bodlon ar eu sianel deledu a chafodd BBC One y sgôr uchaf o ran ansawdd o blith 66 o sianelau teledu mawr—gyda 79% o oedolion yn y DU yn dweud ei bod o ansawdd da, yn uwch na unrhyw sianel arall mew unrhyw wlad a arolygwyd.

## Mae cydbwysedd allbwn BBC One ac ITV yn wahanol iawn yn ystod oriau brig





BBC Two yw trydedd sianel deledu fwyaf Prydain yn ôl cyfran. Mae'n cynnig cymysgedd aml-genre cyfoethog sydd wedi'i anelu at gynulleidfa brif ffrwd ddeallus a chywrain—mae'n cyrraedd hanner poblogaeth Prydain bob wythnos ac yn y trydydd safle yn y byd o ran ansawdd.

Mae BBC Two yn cynnig lle i dalent greadigol wneud eu gwaith nodweddiadol mwyaf nodedig ym maes drama, comedi a rhaglenni dogfen. Mae awduron a pherfformwyr yn dweud ei bod yn cynnig cyfuniad unigryw iddynt, sef cynulleidfa sy'n ddigon mawr y maent am gynhyrchu ar ei chyfer, ac un sy'n croesawu rhaglenni arloesol. O ganlyniad, mae wedi meithrin ac wedi datblygu rhai o raglenni mwyaf poblogaidd y BBC fel *Top Gear, The Great British Bake Off, The Apprentice* a *Have I Got News for You*.

Mae cymysgedd genre BBC Two yn wahanol iawn i BBC One ac ITV. Mae ei ymrwymiad i wybodaeth ac allbwn ffeithiol yn agosach at allbwn Channel 4 o bosibl, ond mae eu hymagwedd mor wahanol nes bod y cynulleidfaoedd y maent yn eu gwasanaethu yn eithaf annhebyg.

## Mae gan BBC Two a Channel 4 gynulleidfaoedd gwahanol iawn yn ystod oriau brig

(cyfran cynulleidfaoedd BBC Two a Channel 4 yn ystod oriau brig yn ôl grŵp oedran)




## BBC Three

Yn ei 12 mlynedd fel sianel ddarlledu, mae BBC Three wedi gwneud amrywiaeth o sioeau arloesol a nodedig—rhaglenni fel *Our War, The House of Tiny Tearaways, Being Human*, a *Murdered By My Boyfriend*, ymhlith llu o raglenni eraill. O ystyried y lefel o arloesi a mentro, nid yw'n syndod bod rhywfaint o'r allbwn yn llai llwyddiannus neu wedi crwydro'n rhy bell oddi wrth gylch gwaith y BBC. Ond mae BBC Three wedi canolbwyntio drwy'r amser ar ei chynulleidfa darged a'r angen i ddarparu cynnwys perthnasol o Brydain ar ei chyfer.

Mae BBC Three ar fin gwneud newid unigryw arall—y sianel deledu fawr gyntaf yn y byd, fe gredwn, i fynd yn gyfan gwbl ar-lein. Bydd y newid yn manteisio ar gryfderau BBC Three, gan gynnig rhywbeth unigryw a newydd, gyda'r nod o feithrin enw da'r BBC ymhlith cynulleidfaoedd ifanc. Bydd yn ysgogi'r farchnad i ddarparwyr adloniant, gwybodaeth ac addysg ddigidol i bobl ifanc 16–34 oed ac yn porthi'r galw am fathau newydd o gynnwys.

Bydd BBC Three ar-lein yn cynnig cymysgedd o raglenni dogfen, materion cyfoes, newyddion, drama, comedi ac adloniant. Bydd yn parhau i gynnig safbwyntiau newydd ac yn cyflwyno pynciau neu faterion newydd i bobl. Bydd yn arloesi'n ddigidol ac yn cynnig amrywiaeth o gynnwys y gwyddom fod cynulleidfaoedd ifanc yn ei fwynhau ac rydym am arloesi ym meysydd fideo cryno, adrodd stori drwy ddelweddau a blogiau gan gyfranwyr a fydd yn gwneud i bobl chwerthin a meddwl. Bydd yn byw ar y llwyfannau lle mae cynulleidfaoedd ifanc.








## BBC Four

Mae BBC Four wedi ennill bri yn nhirwedd teledu Prydain. Mae'n enwog am ymagwedd olygyddol hynod nodedig sy'n dathlu goreuon diwylliant, creadigrwydd a syniadau'r byd ochr yn ochr ag ymagwedd feiddgar ac arloesol tuag at raglennu, gan gynnwys arloesi ym maes drama mewn ieithoedd tramor, a rhaglenni perfformiad, a thymhorau arloesol fel 'Slow Week'.

Adlewyrchir y safbwynt golygyddol unigryw hwn ym marn pobl am ei hansawdd a'i gwreiddioldeb. Mae polisi rhaglenni nodedig y sianel hefyd wedi'i gwneud yn bedwaredd sianel ddigidol fwyaf y DU yn ôl cyrhaeddiad yn ystod ei horiau darlledu a'r sianel ddigidol ffeithiol fwyaf o ran cyrhaeddiad a chyfran. CBBC a CBeebies yw'r dewis wasanaeth cyhoeddus heb hysbysebion amlwg yn lle'r nifer cynyddol o sianelau a chyfryngau ar-lein o'r tu allan i'r DU sydd ar gael i blant.

### Mae BBC Four yn un o sianelau digidol mwyaf poblogaidd y DU

*(Cyrhaeddiad wythnosol ymhlith poblogaeth y DU (%), pob aelwyd)*











Mae CBeebies a CBBC yn unigryw o ran eu hymrwymiad i gynnwys o'r DU. Gwnaethant ddarparu 86% o'r holl raglenni plant a ddarlledwyd am y tro cyntaf ac a oedd yn dod o'r DU yn 2014 ymhlith sianelau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Gan fod cwotâu ar y lleill wedi cael eu diddymu, y BBC yw prif gomisiynydd olaf allbwn gwreiddiol o Brydain.

Maent hefyd ymhlith hoff sianelau plant. Mae CBeebies yn cyrraedd 45% o blant 0–6 oed. Mae CBBC ymhlith y sianelau mwyaf poblogaidd ymhlith plant 6–12 oed ond mae'r sianel linellol wedi colli cynulleidfa wrth i blant newid eu hymddygiad o ran y cyfryngau. Mae ymateb i'r newid hwn yn un o dasgau pwysicaf y BBC.


Ar-lein, maent yn cynnig amgylchedd diogel i blant fanteisio i'r eithaf ar gynnwys digidol heb gael eu hamlygu i beryglon byd y rhyngrwyd nad yw wedi'i reoleiddio.

## Gwariant ar allbwn y DU i blant (£m, 2014)




## Mae CBBC yn un o'r hoff sianeli plant 6–2 oed


*(Cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog fel % ymhlith plant 6–12 oed, pob aelwyd)*



Sianel Newyddion y BBC yw'r sianel newyddion parhaus sydd â'r nifer fwyaf o wylwyr yn y DU, gan gyrraedd tua naw miliwn o wylwyr yr wythnos, o gymharu â phum miliwn ar gyfer y sianel fwyaf ond un. Mae gwylwyr o'r farn mai hon yw'r sianel newyddion orau o bell ffordd.

### Pwy sydd orau am newyddion parhaus?

*(% sydd o'r farn mai hon yw'r sianel orau)*




BBC Parliament yw'r unig sianel yn y DU sy'n ymroddedig i ddarllediadau o fyd gwleidyddiaeth. Mae'n dangos dadleuon a phwyllgorau o San Steffan, Holyrood, Stormont, Bae Caerdydd a Strasbourg.



Mae BBC ALBA yn cynnig amrywiaeth nodedig o raglennu gwreiddiol i siaradwyr Gaeleg yr Alban sy'n adlewyrchu ac yn cefnogi diwylliant, hunaniaeth a threftadaeth Gaeleg yr Alban. Mae'n cyrraedd 16% o holl oedolion yr Alban a 73% o oedolion yr Alban sy'n siarad Gaeleg yr wythnos. Nid oes sianel debyg iddi yn unman arall yn y byd.



## *Mae pob un o'n gorsafoedd radio yn nodedig. Mae rhai yn unigryw.*


BBC RADIO 1

Mae Radio 1 yn diddanu ac yn ennyn diddordeb ystod eang o wrandawyr ifanc gyda chymysgedd nodedig o gerddoriaeth ac allbwn llafar o'r radd flaenaf.

Mae Radio 1 yn enwog yn rhyngwladol am ddatblygu chwaeth newydd—mae'n troi caneuon yn ffefrynnau y mae eraill yn eu chwarae. Mae ei harlwy gerddorol yn unigryw, gyda mwy o ddyfnder ac amrywiaeth o gerddoriaeth na'i chystadleuwyr a'r rhestr chwarae fwyaf agored sy'n cael ei hadnewyddu amlaf yn y DU.

Mae'n hyrwyddo cerddoriaeth newydd a cherddoriaeth fyw yn benodol: Mae 65% o'r gerddoriaeth a chwaraeir yn ystod y dydd yn newydd, ac mae 61% gan artistiaid o'r DU.

Wrth gyrraedd 38% o bobl ifanc 15–29 oed bob wythnos, mae'n cynnig ffynhonnell bwysig o newyddion. Mae Newsbeat yn cyrraedd mwy o bobl ifanc bob wythnos na'r *10 O'Clock News*, ac mae Radio 1 yn darlledu dros 40 o raglenni dogfen y flwyddyn ochr yn ochr â'i sioe wythnosol *Surgery*.





*Mae dewisiadau cerddoriaeth Radio 1 yn wahanol iawn i eraill. Er enghraifft, mae Radio 1 yn rhannu 3% o draciau â Capital, mae Capital yn rhannu 32% o draciau â Radio 1.*

BBC RADIO 2

Radio 2 yw'r orsaf radio fwyaf poblogaidd yn y DU, gyda'r amrywiaeth ehangaf o raglenni o gerddoriaeth boblogaidd i gerddoriaeth arbenigol i gynnwys llafar, gan amrywio o fwy nag 20 awr yr wythnos o newyddion a materion cyfoes i raglenni dogfen, y celfyddydau a chomedi. Mae bron 30% o oedolion yn y DU yn gwrando ar Radio 2 bob wythnos.

Mae'r gerddoriaeth a chwaraeir ar Radio 2 yn nodedig iawn—mae'r orsaf yn chwarae mwy o amrywiaeth o gerddoriaeth nag unrhyw orsaf radio arall yn y DU ac mae hyn yn cynnwys dros 1,100 o oriau o raglenni cerddoriaeth arbenigol bob blwyddyn, gan gynnwys Jazz, Gwerin a Gwlad.

Mae Radio 2 yn ychwanegu gwerth cyhoeddus enfawr drwy gynnwys ar ei rhestr chwarae artistiaid newydd nad ydynt yn cael fawr ddim sylw ar radio masnachol, gan gynnwys artistiaid gwerin, gwlad, canu'r enaid a jazz. Mae hefyd yn cefnogi artistiaid treftadaeth nad yw eu cerddoriaeth yn cael ei chwarae mwyach gan radio masnachol.





*Mae dewisiadau cerddoriaeth Radio 2 yn wahanol iawn i eraill. Er enghraifft, mae Radio 2 yn rhannu 13% o'i thraciau ag Absolute. Mae Absolute yn rhannu 37% o'i thraciau â Radio 2.*


Mae Papur Gwyrdd y Llywodraeth yn codi'r cwestiwn a yw cynulleidfaoedd a dewisiadau cerddoriaeth Radio 1 a Radio 2 yn gorgyffwrdd, ac yn nodi'r canlynol: *"some of the BBC's services might be serving significantly overlapping audiences—failing to be sufficiently distinct not only from commercial output, but from other BBC services."*

Mae'r dystiolaeth yn dangos nad yw'r ddau wasanaeth hyn yn gorgyffwrdd i unrhyw raddau sylweddol.

## Mae Radio 1 ond yn rhannu 6% o draciau cerddoriaeth â Radio 2. Mae Radio 2 yn rhannu 5% o draciau cerddoriaeth â Radio 1.




## Dim ond 13% o gynulleidfaoedd Radio 1 a Radio 2 gyda'i gilydd sy'n gwrando ar y ddwy orsaf.




Mae Radio 3 yn un o ddarlledwyr pwysicaf y byd ym maes cerddoriaeth a'r celfyddydau. Mae'n cynnal chwe grŵp perfformio a gŵyl gerdd fwyaf y byd, sef *The BBC Proms*.

Radio 3 yw'r comisiynydd cerddoriaeth newydd mwyaf arwyddocaol yn y byd gyda bron 200 o gomisiynau gwreiddiol yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Mae ei harlwy gerddorol yn unigryw, gyda 57% o'r gerddoriaeth yn cael ei darlledu'n fyw neu ei recordio'n arbennig. O gymharu â Classic FM mae'n ailddarlledu llawer llai o gerddoriaeth mewn wythnos.

### Allbwn cerddorol yn ôl natur nodedig

*(Radio 3 a Classic FM)*





Mae BBC Radio 4 yn darlledu amrywiaeth unigryw o raglenni o gomedi i raglenni nodwedd, y celfyddydau, drama a gwyddoniaeth, a ategir gan graidd o newyddion byw a gwleidyddiaeth. Mae 20% o wrandawyr yn y DU yn gwrando arni bob wythnos.

Nid oes yr un orsaf arall yn y byd sy'n cwmpasu'r amrywiaeth hon gyda'r un dyfnder a'r trylwyredd deallusol. O ganlyniad, mae'n cyflawni llwyddiant byd-eang newydd, gyda thros 300m o bodlediadau yn cael eu lawrlwytho yn 2014/15.







Mae BBC Radio 5live yn gyfuniad unigryw o newyddion a chwaraeon. Newyddion sy'n cyfrif am 75% o allbwn yr orsaf, ac mae'n rhagori ar ddarlledu digwyddiadau o bwysigrwydd cenedlaethol, o'r Etholiad, Refferendwm yr Alban neu Gemau'r Gymanwlad.


Mae allbwn chwaraeon 5live yn ehangach nag erioed. Ynghyd â 5live sports extra, mae'n cynrychioli dros 51 o gampau gwahanol o bêl-droed dynion a merched i feicio.

Mae allbwn newyddion 5live yn fwy nodedig nag erioed, gydag allbwn busnes a gwyddoniaeth estynedig, newyddiaduraeth ymchwiliol a datblygiadau digidol newydd.


Mae arddull a naws agos atoch yr orsaf yn denu cynulleidfa wahanol i Radio 4 gyda bron 40% o'i chynulleidfa yn y grŵp oedran 15–44, o gymharu â thua chwarter cynulleidfa Radio 4.

## Mae 5live yn darlledu amrywiaeth eang o chwaraeon byw

*(chwaraeon byw a ddarlledwyd yn 2014)*




## Dim ond 13% o wrandawyr radio chwaraeon sy'n gwrando ar chwaraeon 5live a talkSPORT




## BBC LOCAL RADIO

Radio lleol y BBC yw ein rhwydwaith o 39 o orsafoedd ledled Lloegr, a ddefnyddir gan 6.7m o oedolion yr wythnos. Nid yw 2.3m yn gwrando ar unrhyw un o orsafoedd radio eraill y BBC ac nid yw 1.1m yn gwrando ar unrhyw orsaf radio arall o gwbl mewn wythnos. Mae'n cynnig cymysgedd nodedig o allbwn llafar a cherddoriaeth gydag elfen gref o newyddion lleol, gwybodaeth a thrafodaeth—mae dros 70% o'r allbwn yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos yn allbwn llafar.

Fodd bynnag, mae cynulleidfaoedd radio lleol yn lleihau, gan waethygu'r risgiau i roi sylw i faterion lleol. Byddwn yn trafod y mater hwn yn ddiweddarach.

### Mae cynulleidfa Radio Lleol y BBC yn wahanol iawn i radio masnachol lleol

*(Cyfran y gynulleidfa yn ôl oedran)*




Nid oes unrhyw orsaf fel rhwydweithiau radio'r BBC yn y Gwledydd. Maent yn rhoi gwasanaeth unigryw i'r cynulleidfaoedd cenedlaethol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, gan gwmpasu storïau cenedlaethol ac adlewyrchu diwylliant cenedlaethol.

Mae pob un o'r gorsafoedd iaith Saesneg (Radio Wales, Radio Scotland a Radio Ulster/Foyle) yn cyrraedd rhwng 16% o 36% o'u poblogaethau bob wythnos ac maent yn cynnig newyddion manwl, gwleidyddiaeth ac allbwn llafar sy'n adlewyrchu materion o bwys cenedlaethol ac yn ysgogi trafodaeth ac yn rhyngweithio â'r gynulleidfa.

Mae gorsafoedd radio Gwledydd y BBC hefyd yn arddangos amrywiaeth gyfoethog o'r celfyddydau a drama, cerddoriaeth a chwaraeon sy'n bwysig i gynulleidfaoedd a bywyd diwylliannol y Gwledydd.

Mae ein gorsafoedd radio digidol wedi tyfu'n gryf, gan gynyddu nifer y bobl sy'n gwrando ar radio digidol a chyrraedd y cynulleidfaoedd mwyaf erioed.


BBC Radio 6 Music oedd yr orsaf ddigidol gyntaf i gyrraedd dwy filiwn o wrandawyr yr wythnos. Mae cynulleidfaoedd yn mwynhau ei amrywiaeth unigryw o gerddoriaeth amgen a chyflwynwyr hyddysg.

Mae BBC Asian Network a BBC 1Xtra yn gwasanaethu cynulleidfaoedd ifanc ac amrywiol gyda chymysgedd o newyddion, trafodaeth a cherddoriaeth. Mae rhaglenni dogfen ar y ddau rwydwaith yn ymdrin â materion pwysig sy'n berthnasol i'w cynulleidfaoedd targed, ac sydd o bwys cenedlaethol ehangach.

Radio 4 Extra yw gwasanaeth digidol y BBC ar gyfer ei archif o adloniant llafar. Mae'n dod yn fwyfwy poblogaidd, gyda'r gynulleidfa fwyaf erioed o 2.2m o wrandawyr yr wythnos, wedi'i hategu gan y nifer fwyaf erioed o wrandawyr ifanc.

## Twf radio digidol y BBC

*(Cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog)*



BBC ONLINE

*BBC Ar-lein yw'r porth i'r BBC ar y rhyngrwyd. Hwn yw trydydd gwasanaeth mwyaf y BBC, gan ddarparu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus i hanner poblogaeth Prydain bob wythnos. Hwn yw'r trydydd gwasanaeth mwyaf o ran amser a dreulir gyda chynulleidfaoedd iau.*

*Ond rhan fach o'r rhyngrwyd ydyw—dim ond 3% o amser a dreulir ar-lein yn y DU. Mae'n cael ei gymeradwyo'n fawr am ansawdd a chynnwys nodedig, ac mae'n chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o gyflawni cenhadaeth y BBC i hysbysu, addysgu a diddanu ar-lein.*


## *Hysbysu*

Mae BBC Ar-lein yn rhoi cyfle i ni wneud yr hyn rydym bob amser wedi'i wneud—cynnig newyddiaduraeth ddiduedd, nodedig, o ansawdd uchel—ond mewn ffyrdd gwell, mwy cyfleus a mwy ymdrwythol.

Yn fwyaf diweddar, cafodd ein darllediadau ar-lein am yr Etholiad Cyffredinol y gynulleidfa fwyaf erioed. Cafwyd 278m o drawiadau ar wefan ac apiau BBC Newyddion drannoeth yr etholiad, o gymharu â 9m yn 2001, gyda sgoriau gwerthfawrogiad y gynulleidfa yn uwch nag unrhyw ddarparwr arall yn y DU.

Ond, nid yw'r llwyddiant hwn wedi dod ar draul eraill. Mae Newyddion Ar-lein yn rhan o farchnad newyddion ar-lein gref. Mae ei chyfran o newyddion/amser gwybodaeth wedi gostwng i 30% heddiw.

### Y BBC yw'r ffynhonnell newyddion ar-lein yr ymddiriedir ynddi fwyaf
*(gyda phwy rydych yn cysylltu'r gair 'dibynadwy?)*



## *Addysgu*

Ym maes addysg a dysgu rydym wedi defnyddio ar-lein i ail-greu ein brandiau a'n rhaglenni ar gyfer byd cysylltiedig. Mae BBC Arts, Science, Earth, History a Music yn ymestyn cenhadaeth ddysgu'r BBC o ddarlledu i ar-lein.

Mae Bitesize wed bod yn gonglfaen trefn adolygu pobl ifanc ers dros ddegawd. Mae'n defnyddio rhaglenni mwyaf y BBC fel *Doctor Who* a *Horrible Histories* i ddod â dysgu ar-lein yn fyw. Heddiw, defnyddir Bitesize gan 82% o blant ysgol uwchradd a 62% o blant ysgol gynradd.

Bob mis, ceir *2 filiwn* o deithiau o'n gwefan Newyddion i'n gwefannau addysgu a dysgu fel iWonder.


Yn ystod ei wythnos gyntaf cafodd ein canllaw iWonder What's the maths behind an amazing FA Cup free kick? *400,000* o ymweliadau. Daeth dros *75%* o wefan BBC Chwaraeon

## *Diddanu*

iPlayer fu'n gyfrifol am sbarduno'r twf mewn teledu ar-lein yn y DU. Hwn yw'r gwasanaeth fideo ar alw mwyaf nodedig yn y byd—nid oes neb arall yn darparu cymaint o amrywiaeth o raglenni ar-lein, o raglenni dogfen i ddrama a chomedi, i faterion cyfoes i ddigwyddiadau chwaraeon a cherddoriaeth fyw. Yn ystod dwy o'r tair blynedd diwethaf, hwn fu brand mwyaf poblogaidd y DU.

Mae ap newydd iPlayer Radio yn golygu bod bron bob un o'n rhaglenni radio ar gael i'w lawrlwytho'n llawn, gan roi cyfle i bobl wrando arnynt all-lein a'u cadw am hyd at 30 diwrnod.

**Cyfran y defnyddwyr ar-lein 16–64 oed yn y DU nad ydynt erioed wedi defnyddio'r chwaraewyr ar-lein hyn ar gyfer sioeau teledu.**




Mae angen ystyried un darn arall o waith ymchwil.

Ymgymerodd Populus ag astudiaeth ryngwladol yn gofyn i bobl o bedwar ban byd raddio allbwn teledu cyffredinol eu gwlad o ran ansawdd ac yna raddio ansawdd pob un o sianelau mwyaf eu gwlad.

Y DU oedd ar y gorau yn fyd-eang o ran ansawdd teledu, gyda 72% o oedolion yn y DU yn dweud bod rhaglenni teledu yn y DU o ansawdd da yn gyffredinol—y ganran uchaf o blith y 14 o wledydd a arolygwyd.

## Canfyddiadau o ansawdd teledu cyffredinol fesul gwlad yn ôl ymatebion yn y wlad[25]

*(% sydd o ansawdd da iawn/ eithaf da)*





Cadarnhaodd yr astudiaeth safle'r BBC fel conglfaen darlledu cyhoeddus. Allan o 66 o sianelau, BBC One a gafodd y sgôr uchaf oll am ansawdd—gyda 79% o oedolion yn y DU yn nodi ei bod o ansawdd da—a daeth BBC Two yn agos yn y trydydd safle.

25 Arolwg Populus ar ran y BBC, a gynhaliwyd ym mis Medi–Hydref 2013 mewn 14 o wledydd (sampl gynrychioliadol o 500 o oedolion 18+ fesul gwlad). Cwestiwn yr arolwg: 'Beth yw eich barn chi am ansawdd rhaglenni teledu yn gyffredinol yn [RHOWCH ENW'R WLAD]?

## Canfyddiadau o ansawdd sianelau teledu fesul gwlad yn ôl ymatebion yn y wlad[26]

*(% sydd o ansawdd da iawn/ eithaf da)*




26 Arolwg Populus ar ran y BBC, a gynhaliwyd ym mis Medi–Hydref 2013 mewn 14 o wledydd (sampl gynrychioliadol o 500 o oedolion 18+ fesul gwlad). Cwestiwn yr arolwg: I ba raddau rydych yn credu bod ansawdd rhaglenni ar y sianelau teledu canlynol yn [RHOWCH ENW'R WLAD] yn dda neu'n wael?

Felly beth rydym yn ei ddysgu o'r dadansoddiad hwn?

Yn gyntaf, bod pob un o wasanaethau'r BBC yn llwyddiannus ac yn boblogaidd. Llwyddiant a gwerth ymarferol gwasanaethau ddylai fod yn brif ystyriaeth wrth ystyried sut y dylid diwygio pethau. Dull gweithredu Prydain erioed fu cefnogi llwyddiant ac ymdrin â methiant, a hynny'n gwbl gywir. Mae llwyddiant y gwasanaethau hyn yn cyflwyno'r achos polisi drostynt yn fwy huawdl na dim byd arall.

Yn ail, dengys y dadansoddiad fod arlwy'r BBC yn nodedig, ei bod wedi dod yn fwy nodedig, ond ei bod yn briodol credu y gallai arlwy'r BBC fod hyd yn oed yn fwy nodedig.

Felly rydym yn cynnig newidiadau i gyflawni'r amcan hwn.

Er yr ystyrir mai BBC One yw sianel orau'r byd o bosibl o ran ansawdd, byddwn yn codi ei safonau'n uwch yn wyneb cystadleuaeth fyd-eang. Byddwn yn gweithio'n galed i ddod o hyd i olynwyr *Sherlock*, *Doctor Who*, *Happy Valley* a *Car Share*. A byddwn yn cadw rhaglenni ffeithiol wrth wraidd yr amserlen, gan ddefnyddio arbenigwyr a lleoliadau sy'n ychwanegu at wybodaeth a dealltwriaeth.

Mae hyn yn golygu mentro, gan dderbyn na fydd pob arbrawf creadigol yn llwyddo a choleddu gallu BBC One i ddod â'r wlad at ei gilydd fel na all yr un sefydliad diwylliannol arall yn y DU ei wneud.

Bydd y BBC bob amser yn ceisio diddanu—y rôl y mae'r cyhoedd yn ei chysylltu â ni fwyaf.

Er bod y cyhoedd am weld adloniant gan y BBC, mae'n cyfrif am gyfran lai o amserlen oriau brig BBC One nag amserlen ITV a bydd yn parhau i wneud hynny. Rydym ond yn gwario 2% o ffi'r drwydded ar raglenni adloniant teledu.

O bryd i'w gilydd, byddwn yn prynu fformatau rhyngwladol a'u troi'n rhaglenni'r BBC, fel y gwnaethom yn achos *University Challenge*, *The Apprentice*, *The Voice UK* a *Dragons' Den*. Ond byddwn yn anelu at ddod o hyd i'r fformat adloniant nesaf ein hunain—ac rydym yn cynnig diddymu cwotâu mewnol a sefydlu BBC Stiwdios er mwyn gwneud hynny'n fwy tebygol.

Mae BBC Two yn chwarae rôl arbennig ym myd darlledu'r DU. Nid oes gan yr un sianel arall gylch gwaith tebyg: aml-genre, i wylwyr o bob oedran, yn dangos rhaglenni o ddyfnder a sylwedd ynghyd â briff i arloesi. Cafodd ei nodi'n drydedd sianel orau'r byd o ran ansawdd, diolch i raglenni fel *Wolf Hall*, *The Fall*, *Springwatch*, *The Eichmann Show*, *Stargazing Live*, *The Detectives* a *The Wrong Mans*.

Ond mae'r cyd-destun y mae BBC Two yn gweithredu ynddo yn wahanol iawn erbyn hyn. Yn y gorffennol, gellid bod wedi ei chymharu â Channel 4. Erbyn hyn, mae'n cystadlu'n fwyfwy â HBO, Netflix ac Amazon Prime llawn cymaint â sianelau Prydeinig eraill.

Felly byddwn yn ailddyfeisio BBC Two ar gyfer oes cynnwys byd-eang. Byddwn yn adeiladu ar ei henw da fel un o'r sianelau gorau yn y byd o ran ansawdd er mwyn cynnig hyd yn oed mwy o'r hyn sy'n ei gwneud yn nodedig. A byddwn yn parhau i'w hannog i gyrraedd cynulleidfa eang gyda'r allbwn hwnnw.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad oes modd cael ansawdd ac arloesi o'r radd flaenaf heb wario, felly byddwn yn canolbwyntio ein buddsoddiad ar y rhaglenni mwyaf cofiadwy a'r rhai sy'n diffinio'r sianel orau.

Byddwn yn sicrhau mai prif amcan BBC Two yw cynnig arlwy o'r natur nodedig hon.

Bydd BBC Two yn cynnig cyfuniad unigryw—cynulleidfa sy'n ddigon mawr ac eang i ddenu talent greadigol o'r radd flaenaf a bod yn llwyfan iddi, ond byth yn lle mor fawr fel bod cyfran y gynulleidfa yn bwysicach nag arloesi fel mesur o lwyddiant.

Byddwn yn ei hannog i ddatblygu sioeau a all arddangos talent o Brydain, boed hynny'n ddrama newydd sbon fel *Peaky Blinders*, comedi deallus fel *Episodes*, fformatau newydd mewn pynciau ffeithiol fel *Bake Off* neu'r rhaglenni teledu mwyaf deallus yn y byd, o ddiwylliant i wyddoniaeth a hanes.
Ni chaiff llwyddiant y BBC Two hon ei fesur yn ôl yr amser y mae cynulleidfaoedd yn ei dreulio gyda hi yn unig, ond p'un a oedd y rhaglenni hynny yn gofiadwy ac o'r radd flaenaf.

Mae llawer o wasanaethau radio'r BBC yn unigryw, ond hyd yn oed lle nad ydynt yn unigryw, maent yn dal yn nodedig.

Yn benodol, mae Radio 1 a 2 yn tywys cynulleidfaoedd at gerddoriaeth newydd. Ni chafodd hanner y caneuon a chwaraewyd ar Radio 1 a Radio 2 yn ystod y dydd eu chwarae gan unrhyw orsaf debyg. Er mwyn troi caneuon yn ffefrynnau, mae'n rhaid iddynt barhau i fod yn orsafoedd poblogaidd—fel arall byddai llai o bobl yn cael cyfle i glywed y caneuon newydd hynny.

Felly nid yw'r dystiolaeth yn awgrymu bod angen i gynnwys gwasanaethau radio'r BBC newid fel rhan o'r Arolwg o'r Siarter. Ond, fel y nodwn yn ddiweddarach yn y ddogfen hon, credwn y gallwn ddefnyddio technoleg newydd er mwyn helpu mwy o bobl i ddod o hyd i'r cynnwys nodedig hwnnw.

Mae ein gwasanaethau ar-lein yn fwy newydd, ac maent yn dal i ddod o hyd i'w lle mewn marchnad sy'n datblygu o hyd. Ar y dechrau, gwnaethant helpu i greu'r farchnad honno, gyda BBC Newyddion Ar-lein ac yna iPlayer.

Mae gennym rôl syml pan fydd technoleg yn creu cyfleoedd creadigol newydd, sef darganfod beth ydynt ac yna sicrhau y gall pawb fanteisio arnynt. Dro ar ôl tro, rydym wedi dod o hyd i ffyrdd o ddefnyddio technoleg newydd er mwyn darparu gwasanaethau newydd, cyn iddi ddod yn amlwg sut y gellid ariannu'r rhain yn fasnachol.

Ond hyd yma, mae'r rhan fwyaf o'n datblygiadau arloesol wedi ymwneud â'r ffordd rydym yn dosbarthu cynnwys, yn hytrach na'r cynnwys ei hun. Bydd hynny'n newid. Yn hytrach na chomisiynu ar gyfer teledu, neu radio, byddwn yn gwneud i'n cynnwys weithio ar bob un o'n llwyfannau. Os mai'r ffordd orau o ddiwallu angen cynulleidfa yw drwy gynnwys ar gyfer ar-lein yn unig, yna rhaid i ni wneud hynny. Yn anad dim, byddwn yn cymhwyso'r prawf uchod—beth fyddai arlwy orau pob genre, a beth fyddai'n ei olygu o ran ein cynnwys ar-lein.

Rydym yn addo arloesedd a chreadigrwydd Prydeinig, gan anelu at gynulleidfa eang. A chredwn, drwy fodloni'r prawf hwnnw, y byddem yn amlwg yn wahanol i'r farchnad sy'n newid gyflymaf yn y maes hwn. Byddwn yn lansio adolygiad creadigol er mwyn ystyried y materion hyn a'r ffordd y gallwn ganolbwyntio ein hadnoddau ar-lein yn well, o dan arweiniad Cyfarwyddwr Newyddion a Materion Cyfoes y BBC, a fydd yn cyflwyno adroddiad erbyn diwedd 2015.

Mae'r BBC yn fwy nodedig nag erioed, a cheir gwahaniaeth amlwg rhyngddo a'r farchnad. Serch hynny, bwriadwn ddod hyd yn oed yn fwy nodedig a byddwn yn cyhoeddi ein cynlluniau i wneud hynny yn ystod yr Arolwg o'r Siarter.

Rydym am i'r BBC yn y degawd nesaf fod yn fan lle mae pobl yn dod i weld a gwrando ar raglenni gwych—ond hefyd yn fan i wneud rhaglenni gwych. Rydym am i'r rhai sy'n gwneud rhaglenni gael y rhyddid creadigol i wneud pethau na allent eu gwneud i'r fath raddau yn rhywle arall. Rydym am arddangos goreuon cynnwys o Brydain. Rydym am gyflogi'r bobl orau sydd â'r syniadau gorau sydd am wneud eu gwaith gorau. Rydym am helpu'r genhedlaeth nesaf i fynegi ei hun. Rydym am fod yn ddigon hyderus i fentro, gwthio ffiniau, rhoi cynnig ar bethau newydd a pheidio ag osgoi pynciau dadleuol.

Er mwyn creu BBC sydd wir yn falch, yn feiddgar ac yn greadigol.

3

# Beth mae cynulleidfaoedd am ei gael gan y BBC?

Mae cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi'r BBC heddiw, ond a yw hynny'n newid? A yw cynulleidfaoedd am gael mwy neu lai gan ddarlledu cyhoeddus a'r BBC? A yw newydd-ddyfodiaid yn cynnig y rhaglenni i gynulleidfaoedd a gawsant gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn y gorffennol, neu a fyddant yn creu rhwystrau newydd i'w cael?


## 3.1 Mae'r cyhoedd am gael mwy gan y BBC

Er mwyn asesu'r angen am ddarlledu cyhoeddus yn y dyfodol, rhaid mai'r man cychwyn yw asesu barn y gynulleidfa.

Y llynedd, gwnaeth Ofcom yr union beth hwnnw yn ei adolygiad o ddarlledu cyhoeddus yn y DU. Mae'r ddogfen honno yn rhoi cyd-destun pwysig i'r Arolwg Siarter hwn.

Canfu Ofcom fod cynulleidfaoedd yn parhau i werthfawrogi darlledu cyhoeddus. Yn wir, maent yn ei werthfawrogi'n fwy nag erioed, gyda llawer o'r pwrpasau darlledu cyhoeddus yn dod yn fwy pwysig yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf.


### Pwysigrwydd pwrpasau darlledu cyhoeddus (wedi'u dewis, % sy'n rhoi saith neu fwy allan o ddeg)[27]




Canfu Ofcom hefyd fod pobl ifanc yn dal i werthfawrogi'r cysyniad o ddarlledu cyhoeddus, cymaint â chynulleidfaoedd yn gyffredinol. Ni fu unrhyw ddirywiad—mae nodweddion darlledu cyhoeddus yr un mor bwysig i gynulleidfaoedd ifanc, er iddynt dyfu i fyny mewn tirwedd gyfryngol a fyddai'n amhosibl ei dychmygu 20 mlynedd yn ôl.

27 Ofcom, Gorffennaf 2015, Adroddiad Blynyddol 2015 ar Ddarlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus. Ar gael yn http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/broadcast/reviews-investigations/psb-review/psb2015/PSB_Annual_Report_summary.pdf


## Pwysigrwydd nodweddion darlledu cyhoeddus (wedi'u dewis, % sy'n rhoi saith neu fwy allan o ddeg)[28]




Mae'r ffafriaeth hon mewn theori i'w gweld mewn gwirionedd hefyd. Sianelau darlledu cyhoeddus yw'r sianelau teledu mwyaf poblogaidd ymhlith pobl ifanc 16–24. BBC One yw eu hoff sianel, gyda chynulleidfa wythnosol o 53% o'r grŵp oedran hwnnw. ITV1 sydd nesaf ar 45%, Channel 4 ar 39% ac E4 ar 29%.[29]

Mae cynulleidfaoedd iau yn dal i ddefnyddio'r BBC yn fwy nag YouTube neu Netflix. Mae hynny'n rhannol am ein bod wedi arloesi—er enghraifft drwy sianel YouTube Radio 1, yr orsaf radio ar-lein fwyaf yn y byd.

## Mae pobl ifanc 16–24 oed yn dal i ddefnyddio'r BBC yn fwy nag unrhyw wasanaeth arall, ond mae hyn yn dod o dan bwysau[30]




Mae arferion gwylio a gwrando pobl iau a phobl hŷn yn gynyddol wahanol. Mae pobl iau yn gwylio llai o deledu na phobl hŷn. Maent yn gwrando ar lai o radio. A lle mae cynulleidfaoedd ifanc yn mynd nawr, bydd cynulleidfaoedd hŷn yn eu dilyn. Mae arloesedd ar-lein wedi arafu'r dirywiad. Nid yw wedi'i wrthdroi.


28 Ibid.

29 BARB, 2014/5, cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog 15 munud+ yn olynol


30 GfK ar ran y BBC, Arolwg 'Cross-Media Insight', tua 6,000 o oedolion yn y DU fesul chwarter, Cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog y BBC 15 munud neu fwy a hawliwyd; Cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog YouTube a Netflix 3 munud neu fwy a hawliwyd, C1 2015. D.S. Mae cyrhaeddiad YouTube yn amrywio, yn dibynnu ar y ffynhonnell; Cyrhaeddiad wythnosol Netflix, nifer y tanysgrifwyr

## Cyfanswm perfformiad teledu a Theledu'r BBC 2010/11–2014/15, wedi'i fynegeio ar 2010/11[31]

*Cyfanswm amser wythnosol cyfartalog teledu y pen wedi'i fynegeio ar 2010/11*




*Cyfanswm amser wythnosol cyfartalog Teledu'r BBC y pen wedi'i fynegeio ar 2010/11*




Fel y dywed Ofcom:

> *"The generation gap between younger and older audiences appears to be getting wider, with significant differences in opinion, attitude and habits towards PSB and television more generally. While younger audiences have always watched less television than older audiences, our audience research suggests that the connected generation are watching increasingly less television, and that they may be taking these habits with them as they age."*[32]

Os bydd y duedd hon yn parhau, erbyn canol y 2020au, ni fyddai lleiafrif sylweddol o dalwyr ffi'r drwydded yn rhan o'r sgwrs gyffredin y mae darlledu cyhoeddus yn ei chynnal mwyach, ac efallai na fyddent ychwaith yn cael digon o werth i gyfiawnhau talu ffi'r drwydded. Yn anad dim, ni fyddem yn rhoi gwybodaeth, addysg na diddanwch gwych iddynt.

Casgliad Ofcom yw bod yn rhaid i ddarlledu cyhoeddus foderneiddio ar gyfer oes y rhyngrwyd:

> *"Public service broadcasters will need freedom to continue to innovate, as audiences increasingly want content that is delivered over multiple devices and specifically designed for the internet environment. Audiences are likely to want more than just traditional television content from public service broadcasters, and short-form video or online-first content could potentially serve as an effective way of delivering key PSB purposes."*[33]

31 BARB, yn seiliedig ar y set teledu ac wedi'i fynegeio ar amser wythnosol cyfartalog y pen

32 Ofcom, 15 Rhagfyr 2014, Public Service Content in a Connected Society. Ar gael yn http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/consultations/psb-review-3/summary/PSBR-3.pdf

33 Ofcom, Gorffennaf 2015 'Public Service Broadcasting in the Internet Age'. Ar gael yn http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/consultations/psb-review-3/statement/PSB_Review_3_Statement.pdf

## 3.2 Portreadu'r wlad gyfan

Mae'r BBC yn helpu i gysylltu'r DU.

Ein hymrwymiad yw adlewyrchu amrywiaeth y DU—yn ei holl Wledydd a rhanbarthau—sydd wedi esgor ar enghreifftiau o'r cynnwys gorau ar y sgrin. O *Gavin and Stacey* i *Mrs Brown's Boys*, o *The Fall* i *Peaky Blinders* i *Shetland* a *Poldark*, mae cynulleidfaoedd wrth eu bodd gyda'r storïau rydym yn eu hadrodd am eu bywydau ledled y DU.

Fodd bynnag, gwyddom fod angen cynyddol i weld amrywiaeth lawn o ddiwylliannau a chymunedau'r DU yn cael ei hadlewyrchu'n well ar y sgrin ac ar yr awyr.

Rydym yn gweithio tuag at dargedau uchelgeisiol er mwyn gwella amrywiaeth.

Ar y sgrin, rydym wedi gweld gwelliannau yn y ffordd y mae Pobl Dduon, Pobl Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) yn cael eu portreadu ar BBC One a BBC Two. Er enghraifft, enillwyd pedair gwobr gennym yn seremoni ddiweddaraf Gwobrau'r Rhwydwaith Amrywiaeth Greadigol. Ledled y BBC, dyblodd nifer y bobl anabl a bortreadwyd ar y sgrin rhwng 2012 a 2014. Ers mis Medi 2014 rydym wedi buddsoddi dros £1.5m o Gronfa Datblygu Creadigol Amrywiaeth newydd gwerth £2.1m mewn prosiectau teledu gydag awdurdon a chynhyrchwyr BAME talentog.

Ar yr awyr, mae menter Women in Local Radio wedi gweld nifer y sioeau brecwast a gyflwynir gan ferched yn cynyddu o 15% i 49%.

Mae ymgyrchoedd Busnes yn y Gymuned ynglŷn â chynhwysiant o ran rhyw a hil ac amrywiaeth yn enwi'r BBC fel un o'r deg sefydliad gorau yn y sector cyhoeddus, diolch i raglenni uwch arweinwyr i wella amrywiaeth, gan gynnwys rhaglen arweinyddiaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'n cynllun mentora. Y llynedd, agorwyd ein drysau i bobl ifanc o'r amrywiaeth ehangaf o gefndiroedd gyda mwy na 350 o hyfforddeion a phrentisiaid yn dechrau eu gyrfa yn y cyfryngau gyda ni.

Byddwn yn mynd ymhellach gyda Strategaeth Amrywiaeth newydd i'r BBC ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Er enghraifft, rydym am weithio gyda'r sector cynhyrchu annibynnol er mwyn cyrraedd ein targedau a sicrhau bod amrywiaeth yn cael lle blaenllaw ym maes gwneud rhaglenni. Byddwn yn trefnu ymgynghoriad yn yr hydref, mewn partneriaeth â PACT, er mwyn dod â'r sector ynghyd ac ystyried hyn ymhellach. Ein nod yw cyflwyno canllawiau newydd ar amrywiaeth ar gyfer ein cynyrchiadau yn 2016.

Yn gynharach eleni, nododd Ofcom fod cynulleidfaoedd wedi codi mater ynglŷn â'r ffordd roedd darlledu cyhoeddus yn adlewyrchu ac yn portreadu cymdeithas Prydain yr oedd angen mynd i'r afael ag ef ar fyrder. Ledled Gwledydd a rhanbarthau'r DU gwyddom fod y cyhoedd am i ni wneud mwy i bortreadu amrywiaeth lawn bywyd ledled y DU drwy ein rhaglenni a'n gwasanaethau i gyd. Mae'r DU yn newid ac nid yw'n beth syml adlewyrchu na phortreadu pob agwedd ar fywyd Prydain ym mhob un o'n gwasanaethau. Fodd bynnag, mae gan y BBC ran bwysig i'w chwarae yn hyn o beth, ac yn y Siarter nesaf, byddwn yn datblygu ein rhaglenni a'n gwasanaethau er mwyn ateb y gofynion newydd hyn gan gynulleidfaoedd.

Yn ystod y Siarter hon, sicrhawyd bod y swm a wariwn ar deledu rhwydwaith ym mhob Gwlad yn cyfateb yn fras i'w chyfran o'r boblogaeth. Ond rydym yn cydnabod bod yna ystyriaethau heblaw gwariant—mae angen i ni wneud mwy, ac yn well, er mwyn adlewyrchu bywydau a phrofiadau holl dalwyr ffi'r drwydded.

Yn ystod cyfnod y Siarter nesaf, byddwn yn parhau'n ymrwymedig i fuddsoddi mewn rhaglenni ledled y DU a sicrhau bod y rhaglenni drama a chomedi a gynhyrchwn ar gyfer BBC One a BBC Two yn adlewyrchu amrywiaeth Gwledydd a rhanbarthau'r DU yn well.

## 3.3 Investment in programmes is falling

Mynegodd Ofcom bryder ynglŷn â buddsoddiad is mewn cynnwys gwreiddiol o Brydain:

> *"The substantial fall in spend on all programmes and investment in new first-run UK originations, with a 17.3% real-terms decline in programme spend by the [public service broadcasters], would be a significant concern if that trend were to continue and result in a noticeable reduction in the volume, range or quality of output."*[34]


Cytunwn â dadansoddiad Ofcom.

Mae faint o arian sy'n cael ei fuddsoddi mewn cynnwys o ansawdd uchel o'r DU, heblaw am chwaraeon, yn gostwng: Gostyngodd cyfanswm y buddsoddiad mewn rhaglenni teledu gwreiddiol, newydd yn y DU mewn termau real o £2.6bn i £2.4bn rhwng 2008 a 2013.

- Yn ystod yr un cyfnod, gostyngodd buddsoddiad mewn rhaglenni gwreiddiol o Brydain gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus tua 15%: o £2.4bn yn 2008 i £2bn yn 2013
- Mae'r sianelau nad ydynt yn sianelau darlledu cyhoeddus wedi cynyddu eu buddsoddiad ond wedi gwneud iawn am lai na thraean o'r golled honno; mae eu buddsoddiad wedi cynyddu o £0.24bn i £0.35bn.

### Newid cronnus mewn gwariant ar gynnwys teledu a ddarlledwyd am y tro cyntaf ac a oedd yn dod o'r DU 2008–2013

*(£m, heb gynnwys chwaraeon, yn unol â phrisiau 2013)*[36]




Wrth i wariant y BBC ostwng, yn yr un modd gostyngodd cyfanswm y buddsoddiad mewn cynnwys gwreiddiol o Brydain, a hynny am mai'r BBC yw'r buddsoddwr unigol mwyaf mewn syniadau a thalent greadigol o Brydain—mae ffi'r drwydded yn cyfrif am tua 20% o arian refeniw teledu, ond caiff ei throi'n oddeutu 40% o'r buddsoddiad mewn rhaglenni gwreiddiol o Brydain. Nid yw'r buddsoddiad gan y darlledwyr nad ydynt yn rhai gwasanaeth cyhoeddus wedi gwneud iawn am y gwahaniaeth. Mae hwn yn brawf go iawn, dros gyfnod o bum mlynedd, o'r hyn sy'n digwydd gyda BBC llai o faint.

Yn y dyfodol, mae newydd-ddyfodiaid fel Netflix ac Amazon yn annhebygol iawn o lenwi'r bwlch hwn. Er bod oriau cynnwys newydd o'r DU a ddarlledir bob blwyddyn wedi lleihau o 15,500 i 13,500 dros bum mlynedd, dim ond 260 o oriau o gynnwys gwreiddiol a gynhyrchwyd gan Netflix ac Amazon rhyngddynt yn ystod y cyfnod hwnnw—ac roedd bron y cyfan wedi'i wneud yn yr UD neu am yr UD, yn hytrach na'r DU.

34 Ofcom, Rhagfyr 2014, Public Service Content in a Connected Society. Ar gael yn http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/consultations/psb-review-3/summary/PSBR-3.pdf

35 Ibid. Nid yw'r ffigurau a nodwyd yn cynnwys gwariant ar chwaraeon ac maent yn defnyddio prisiau 2013.

36 Ibid. / Dadansoddiad y BBC

Er mor dda y mae llawer o'u dramâu, ni allant gystadlu â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y DU o ran maint, amrywiaeth a gwerthfawrogiad y gynulleidfa. Am yr un gost â dwy gyfres o *House of Cards*, gwnaeth y BBC 14 o gyfresi drama, o *Sherlock* i *Happy Valley*, *The Village* i *Last Tango in Halifax*.

## Mae $100 miliwn yn edrych fel…




### House of Cards

- 2 gyfres/tua 22 awr o gynnwys
- Gwyliwyd gan 6% o oedolion yn y DU
- Gwerthfawrogiad gwylwyr 8.0/10

## fel…




### Drama gan y BBC o ffi'r drwydded

- 14 cyfres/tua 79 awr o gynnwys
- Gwyliwyd gan 72% o oedolion yn y DU
- Gwerthfawrogiad gwylwyr 8.8/10

Ac nid yw sianelau lloeren a chebl yn debygol o wneud iawn am y gwahaniaeth ychwaith. Gyda Sky a BT yn gwario bron cymaint bob blwyddyn ar eu contract nesaf â'r Uwch Gynghrair ag y mae'r BBC yn ei wario heddiw ar ei holl allbwn teledu, nid oes digon yn weddill o refeniw tanysgrifio i wneud iawn am y diffyg. A bydd y cynnwys y tu ôl i wal tâl.

## Gwariant a chyfran teledu'r BBC o'u cymharu â'r Uwch Gynghrair[37]




Felly gan edrych ymhellach i'r dyfodol, nid oes unrhyw bosibilrwydd y bydd y newid anochel o hysbysebion i wasanaethau a ariennir drwy daliadau yn debygol o ariannu nifer nac amrywiaeth y rhaglenni gwreiddiol o Brydain y mae Ofcom yn nodi bod cynulleidfaoedd yn y DU yn eu gwerthfawrogi. Dim ond darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fydd yn gwneud hynny.

Gwelodd Ofcom fod rhai materion yn deillio o'i ddadansoddiad yr oedd angen mynd i'r afael â hwy ar fyrder:

> *"… news consumption and the provision of news for young people, drama that reflects and portrays British society back to a British audience, content tailored to the specific needs of the UK Nations and their regions, religious programming, children's programming and investment in other areas such as music and arts."*[38]

Rydym wedi llunio ein cynigion er mwyn helpu i ddiwallu'r anghenion hyn, ac mae'r penodau canlynol yn awgrymu meysydd lle y gellir buddsoddi mewn gwasanaethau a rhaglenni newydd.

Ond os bydd y BBC yn gwneud rhagor, a fydd yn mynd yn rhy fawr?


37 Enders Analysis, Gorffennaf 2015, 'BBC Green Paper: red alert on funding'. Mae gwariant Teledu'r BBC yn cyfeirio at 2014/15. Mae gwariant Sky/BT ar yr hawl i ddarlledu'r Uwch Gynghrair yn fyw yn y DU ar gyfer tymor 2016/17.

38 Ofcom, Gorffennaf 2015 'Public Service Broadcasting in the Internet Age'. Ar gael yn http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/consultations/psb-review-3/statement/PSB_Review_3_Statement.pdf

## 3.4 Y BBC yng nghyd-destun ei farchnad

Mae'r BBC yn fach o gymharu â'r darlledwyr y mae'n gweithredu ochr yn ochr â hwy. Nid cymhariaeth ddamcaniaethol yw hon. Mae bron bob cwmni yn y siart isod yn berchen ar ddarlledwyr, cynhyrchwyr neu lwyfannau yn y DU neu'n eu gweithredu.

### Refeniw byd-eang i gwmnïau cyfryngau mawr (£bn)[39]





| | Walt Disney | 21st Century Fox | BT | National Amusements | TimeWarner | NBC Universal | Liberty Global | Sky | ARD | BBC | Discovery | Netflix | ITV | Channel 4 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyflenwr y BBC** | | | | | | | | | | | | | | |
| Cynnwys gorffenedig | ✓ | ✓ | ✗ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✗ | ✓ | ✓ | ✗ | ✓ | ✗ |
| Cydgynhyrchu | ✓ | ✓ | ✗ | ✗ | ✓ | ✗ | ✓ | ✗ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✗ | ✗ |
| **Sianel yn y DU/ darparwr Fideo ar Alw** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✗ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Yn berchen ar gwmni cynhyrchu yn y DU** | ✗ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✗ | ✓ | ✓ | ✗ | ✓ | ✓ |

Ac yn sgil cytundeb Cyllideb mis Gorffennaf, bydd y BBC ond yn cyfrif am 12% o arian refeniw teledu erbyn diwedd y Siarter nesaf.


39 Daw'r data refeniw blwyddyn lawn diweddaraf o adroddiadau cwmni (Mehefin 2015—Sky, gan gynnwys refeniw Ewrop; Mawrth 2015—BT a BBC; Rhagfyr 2014—Channel 4, ITV, Netflix, Discovery, National Amusements (Viacom a CBS), NBCUniversal, Liberty Global a Time Warner; Medi 2014—Walt Disney; Mehefin 2014—21st Century Fox; Rhagfyr 2013—ARD); cafodd y ffigurau eu troi'n bunnau sterling (XE.com)

## Cyfran y BBC o arian refeniw teledu[40]




Mae'r swm o £145.50 ar gyfer ffi trwydded teledu'r DU heddiw hefyd yn llai na gwledydd tebyg sydd â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus mawr.

## Lefel ffi'r drwydded flynyddol (2013)[41]




O ran radio, mae'n wir ein bod yn cyfrif am dros hanner refeniw'r sector. Ond er gwaethaf ein maint, mae radio masnachol yn tyfu—mae ei refeniw yn cynyddu. Ac mae gwrando ar y radio yn mynd yn rhan lai o wrando yn gyffredinol—o ran pobl ifanc 16–24 oed mae ond yn cyfrif am chwarter, llai na cherddoriaeth wedi'u ffrydio.[42] O ran fideo ar alw, mae iPlayer yn dal i gyrraedd mwy o bobl na Netflix, ond mae'r bwlch yn prysur leihau.[43]

Mae'r ffyrdd newydd hynny o ddosbarthu cynnwys yn cael eu darparu gan gwmnïau byd-eang—sy'n defnyddio eu maint yn eu marchnad wreiddiol i ehangu i fyd teledu a radio. Dyna pam mae'n berthnasol bod Google ac Apple, dros y cyfnod hwn, wedi tyfu o fod tua'r un maint â'r BBC y naill i fod wyth gwaith a'r llall i fod 23 gwaith yn fwy—a hynny am eu bod yn adeiladu'r llwyfannau y mae'n ddigon posibl y bydd cynulleidfaoedd yn y dyfodol yn eu defnyddio i gael y rhan fwyaf o'n gwybodaeth, ein haddysg a'n hadloniant.


40 Enders Analysis, Gorffennaf 2015, 'BBC to pay for the over-75s'

41 EBU Market Intelligence Service, 2013 (yn seiliedig ar ddata'r aelodau). Cafodd y ffigurau eu troi'n bunnau sterling, gyda chyfradd gyfartalog y flwyddyn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben Rhagfyr 2013 (ECB/OANDA). Noder: Teledu yn unig yng Ngwlad Belg, (Ffrangeg), Ffrainc, Iwerddon, yr Eidal, Norwy a'r DU

42 Ofcom, Awst 2014, Digital Day 2014. Ar gael yn at: http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/research/cross-media/2014/Digital_Day_2014_Overview_of_Findings.pdf

43 GfK ar ran y BBC, Arolwg 'Cross-Media Insight', 6,000 o oedolion yn y DU fesul chwarter

## Arian refeniw byd-eang i gwmnïau yn y cyfryngau[44]




Er bod y cwmnïau hyn yn cystadlu am dalent a ddatblygwyd gan y BBC, gydag Amazon Prime, er enghraifft, yn cyflogi hen dîm *Top Gear*, neu Apple yn cyflogi Zane Lowe a'i dim cynhyrchu o Radio 1, credwn ei bod yn annhebygol y bydd eu buddsoddiad mewn cynnwys i'r DU yn unig fyth yn cyfateb i fuddsoddiad y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

Dylem ddiogelu'r ffynonellau o fuddsoddiad mewn rhaglenni o Brydain, yn enwedig darlledu cyhoeddus.

Mae'r DU bob amser wedi cael y cyfan—sector domestig ffyniannus a mewnfuddsoddi, yn enwedig o'r UD. Ond nid drwy hap y digwyddodd hynny—fe'i cyflawnwyd drwy reoleiddio'r sector darlledu yn ofalus, gan gyfuno buddsoddiad ffi'r drwydded, cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ITV, STV, UTC, S4C, Channel 4 a Channel 5, â gwariant cyflenwol y sianelau eraill. O ganlyniad, gall ein diwydiannau creadigol gymharu eu hunain â'r UD, er ei bod yn farchnad lawer mwy o faint. Nid oes llawer o ddiwydiannau lle mae'r DU yn cystadlu'n agos â'r UD, ond mae'r diwydiannau creadigol yn dal i wneud hynny.


Ac nid yw'r BBC yn rhy fawr ar-lein ychwaith. Rydym yn cyfrif am 3% o'r traffig ar-lein yn y DU.[45] Mae ein cyfran o newyddion ar-lein wedi gostwng i 30% wrth i'r farchnad dyfu. Rydym yn falch o fod yn rhan o farchnad sy'n golygu bod gan Brydain ddwy o'r tair gwefan papur newydd iaith Saesneg fwyaf poblogaidd yn y byd.[46]

44 Daw'r data refeniw blwyddyn lawn diweddaraf o adroddiadau cwmni ar gyfer 2014 (Mae un Virgin Media ar gyfer 2013); cafodd y ffigurau eu troi'n bunnau sterling (XE.com, yn seiliedig ar gyfradd drosi ar ddiwedd y flwyddyn cyflwyno adroddiadau)

45 comScore MMx Aml-lwyfan, Y DU, Cyfanswm y Munudau ar Gyfartaledd, [P] Gwefannau'r BBC, Ionawr–Mehefin 2015

46 Ffynhonnell: comScore MMX, Byd-eang, Pen desg yn unig, Ymwelwyr Unigryw, Ionawr–Mehefin 2015

## Cyfran yr amser a dreulir ar wefannau newyddion/gwybodaeth (%)[47]






Ond er bod marchnadoedd darlledu yn tyfu, mae marchnad y papurau newydd traddodiadol yn crebachu. Mae deall yn iawn beth sy'n digwydd yn hyn o beth yn hanfodol. Mae rhai pobl yn awgrymu bod y BBC wedi achosi dirywiad yn y diwydiant papurau newydd. Ond pe bai hyn yn wir, dim ond ym Mhrydain y byddai dirywiad. Mae'n amlwg nad felly y mae.

Mae'r dirywiad mewn arian refeniw wedi bod yn llawer mwy mewn marchnadoedd fel yr UD, lle nad oes unrhyw wefan newyddion a ariennir drwy arian cyhoeddus. Rhwng 2007 a 2013, gostyngodd refeniw hysbysebu 15% bob blwyddyn yn yr UD. Yn y DU, gwelwyd gostyngiad o 10% bob blwyddyn.

47 comScore MMX Desktop only—does not include mobile or tablet viewing, [M] BBC, Average Total Minutes, Panel only numbers based on a custom deliverable

## Gwariant ar hysbysebu mewn papurau newydd yn y DU a'r UD[48]




48 Enders Analysis, Gorffennaf 2015, 'Public Service Broadcasting in the modern age'

Pe bai'r BBC wedi achosi'r dirywiad mewn papurau newydd, efallai—ond dim ond efallai—y byddai'r dirywiad hwnnw yn rhoi dadl dros leihau hyd a lled ei wasanaethau. Ond os na fu'n gyfrifol am ei achosi, yna dylai'r BBC yn sicr gael ei ystyried yn rhan o'r ateb—o ran sicrhau bod anghenion cynulleidfaoedd yn dal i gael eu diwallu, a helpu'r farchnad i sicrhau nad ydym yn mynd yn unig ddarparwr.

Mewn newyddion lleol, er enghraifft, yn ôl y tueddiadau presennol, y BBC fydd yr unig ddarparwr newyddion traddodiadol o bosibl mewn rhai ardaloedd—felly er mwyn osgoi hynny, rydym yn cynnig rhyddhau rhywfaint o'n gwariant i gefnogi papurau newydd lleol ac eraill. Mae cynigion, a ddatblygwyd ar y cyd â'r diwydiant, wedi'u nodi yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.

Fel yn achos newyddion, hoffem wneud pethau tebyg mewn meysydd eraill hefyd. Rydym am agor y BBC i fod yn adnodd i eraill, fel na fydd y buddsoddiad yn ffi'r drwydded yn fuddsoddiad yn y BBC yn unig. Mae ffi'r drwydded eisoes yn cefnogi sector cynhyrchu annibynnol ffyniannus. Rydym yn ystyried yn ddiweddarach sut y gellir gwneud yr un peth ym maes diwylliant a gwyddoniaeth.

Mae rhagor y gall y BBC ei wneud o dan y Siarter nesaf.

Byddwn yn ymateb i'r anghenion hyn gyda strategaeth syml—gwneud rhaglenni gwych a moderneiddio ein gwasanaethau er mwyn parhau i wasanaethu pawb.

Bydd ein cynigion yn ymateb i'r ffordd y mae ymddygiad cynulleidfaoedd yn newid. Byddant yn diwallu anghenion cynulleidfaoedd yn well, yn yr un modd ag y gwnaeth iPlayer a'r ap Chwaraeon o dan y Siarter hon. Bydd hynny, nid yn unig yn gwasanaethu cynulleidfaoedd ifanc—yn wir, bydd yn rhoi mwy o reswm i bawb fynd ar-lein, fel y gwnaeth ein datblygiadau arloesol yn y gorffennol. Ond bydd y datblygiadau arloesol hynny yn helpu i adnewyddu darlledu cyhoeddus i genedlaethau iau.

Ond hyd yn oed os gwnawn ragor, byddwn yn mynd yn rhan lai o'r farchnad. Byddwn yn ceisio cynnal darpariaeth a dewis o ran newyddion lleol. Ond mewn marchnadoedd eraill, nid BBC sy'n rhy fawr yw'r broblem o bell ffordd. Yn hytrach, y perygl yw y bydd yr holl sector ym Mhrydain yn dechrau edrych yn rhy fach wrth i'n marchnadoedd fynd yn fyd-eang.

# RHAN DAU:
# DYFODOL Y BBC

4

# BBC Agored

Mae ein cynigion i wneud y BBC hyd yn oed yn fwy creadigol a nodedig ond yn un rhan o strategaeth ehangach—un sy'n ymateb i'r heriau rydym newydd eu hamlinellu ac a fydd yn newid natur y sefydliad a'r gwasanaethau a ddarparwn.

Rydym yn mynd i greu BBC agored.

Yn draddodiadol, nid yw'r BBC wedi bod yn agored—boed hynny o ran cynnwys a wnaed gan eraill, neu adborth gan ei gynulleidfa. Yn wir, tan y 1990au, roeddh y BBC yn comisiynu ac yn gwneud ei holl raglenni. Ac yna cawsant eu darlledu.

Roedd hyd yn oed y symbolaeth a grëwyd gan y BBC yn adlewyrchu'r meddylfryd hwn: mae'r gair Saesneg 'broadcast' yn hen air am ledaenu hadau, ac mae'r arysgrif Lladin uwchben mynedfa'r Ganolfan Ddarlledu yn Llundain yn dal i gynnwys y geiriau:

> *"This temple of the arts and muses is dedicated to Almighty God by the first Governors in the year of our Lord 1931, John Reith being the Director-General. And they pray that the good seed sown may bring forth good harvest."*

Mae'n rhaid ailystyried yr union syniad hwn—y syniad mai darlledwr yn unig yw'r BBC, un sy'n anfon gwybodaeth i'w gynulleidfaoedd ac nad yw'n cael unrhyw beth yn ôl.

## 4.1 BBC sy'n addas i'r rhyngrwyd

Mae technoleg wedi newid. Pan sefydlwyd y BBC, roedd cyfyngiadau technoleg ddiwifr yn golygu na allai cynulleidfaoedd fynegi eu hunain yn hawdd, heblaw drwy ysgrifennu i'r *Radio Times*.

Mae cymdeithas wedi newid. Cafodd y BBC ei greu cyn cyflwyno'r bleidlais i bawb. Cymdeithas a gâi ei rheoli o'r brig i'r bôn ydoedd—nid oedd yn ddadleuol credu bod angen i bobl gael eu hysbysu, eu haddysgu a'u diddanu, yn hytrach na bod ganddynt unrhyw rôl i'w chwarae eu hunain, nac yn wir unrhyw ddewis o ran yr hyn a gâi ei ddarlledu.

Mae agweddau ymostyngol wedi diflannu dros y degawdau. Ond hyd yn oed ar droad y ganrif hon, roedd y cyfryngau ar ei hôl hi, yn dal i fodoli mewn byd o ddarlledu, a oedd yn methu ag ymateb yn llawn i awydd pobl i ddewis yr hyn yr oeddent am ei wylio a gwrando arno, ac yn methu â manteisio ar y ffordd y mae cynulleidfaoedd eu hunain yn greadigol.

Mae'r rhyngrwyd wedi cael gwared ar y llyffetheiriau. Mae wedi newid yr hyn y mae'n bosibl ei wneud.

Lle yr arferai darlledu fod yn un i bawb, mae'r cyfryngau heddiw yn un i un, yn un i lawer, yn llawer i lawer. Gall rhai o sêr YouTube fel Zoella ddenu cynifer o danysgrifwyr â Virgin TV. Gall eraill fel Devin Super Tramp greu fideo hanes naturiol o ansawdd uchel sydd wedi cael ei wylio bron 50m o weithiau.

Nid yw'r rhyngrwyd wedi disodli teledu na radio. Mae 15m o bobl yn gwrando ar Radio 2 bob wythnos.[49] Mae 84% o'r teledu sy'n cael ei wylio ar bob dyfais yn dal i fod yn fyw.[50] Mae *10 o'clock News* BBC One yn cyrraedd 15m o oedolion yr wythnos.[51] Serennodd Zoella ar *The Great British Bake Off*, er na wnaeth ei theisen lwyddo i wneud hynny.

Mae rhai yn dweud y caiff darlledu ei ddisodli yn ystod y degawd nesaf. Anghytunwn. Mae'n rhaid i'r BBC barhau i fod yn ddarlledwr. Ymhen deng mlynedd, bydd sianelau fel BBC One neu Radio 4 yn dal i fod yn hollbwysig. Rydym yn disgwyl y bydd o leiaf hanner yr holl weithgarwch gwylio a gwrando yn fyw. Bydd y ddrama ffurf hir, eistedd nôl, yr un mor bwysig i'n cymdeithas ni ag y bu ers oes Soffocles. Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn y gwasanaethau hynny a sicrhau eu bod o'r radd flaenaf.

Ond bydd yn rhaid iddynt gael eu hategu gan gyfres newydd o wasanaethau a ddarperir ar y rhyngrwyd yn gyntaf. Bydd y BBC yn parhau i fod yn ddarlledwr ond bydd yn fwy na hynny hefyd.

Nid oes a wnelo hyn â dosbarthu mathau traddodiadol o raglenni mewn ffyrdd newydd yn unig, er mor bwysig y bu'r iPlayer o ran hyn. Bydd y cyfrwng yn newid y cynnwys—byddem yn gwneud gwahanol fathau o raglenni a fformatau.

A byddem yn comisiynu mewn ffordd wahanol hefyd, er enghraifft, peidio â thrin teledu, radio ac ar-lein fel gwasanaethau ar wahân, ond edrych ar draws popeth a wnawn er mwyn sicrhau bod y cynnwys yn diwallu anghenion cynulleidfaoedd yn briodol. Dros ddeng mlynedd y Siarter nesaf, gallai hynny gael effeithiau dwfn ar ffurf a natur ein portffolio.

Nid oes dewis rhwng darlledu ac ar-lein, y torfol a'r personol. Daw llwyddiant lle y bydd profiad a rennir yn cyffwrdd ag ymwneud unigol. Meddyliwch am *Springwatch* lle y gwnaeth miloedd o wylwyr olrhain dyfodiad y gwanwyn eleni, gan ddarganfod iddo deithio i fyny Ynysoedd Prydain ar gyflymder o 1.9 milltir yr awr.[52] Neu, newyddion sy'n digwydd ar y pryd, lle mae'r ffôn clyfar bob amser yn rhoi'r darluniau cyntaf o unrhyw stori fawr erbyn hyn, ac mae bwletin teledu gyda'r nos yn adrodd y stori drwy newyddiaduraeth ffurfiol.

Rydym am ddod yn addas i'r rhyngrwyd er mwyn bod yn barod am fyd rhyngrwyd yn unig. Bydd band eang cyflym iawn a 5G yn helpu i fraenaru'r tir. Ond, yn ôl y tueddiadau presennol, ni fydd y DU yn wlad rhyngrwyd yn unig yn y deng mlynedd nesaf. Bydd rhai o'r pethau rydym yn eu mwynhau fwyaf am y byd darlledu presennol, fel sianelau mawr a digwyddiadau cenedlaethol pwysig, yn mynd i fod hyd yn oed yn fwy gwerthfawr dros y degawd nesaf.

Ond mae'r cyfeiriad yn yr hirdymor yn glir. Ac er mwyn ateb yr her honno, bydd angen i'r BBC fod yn addas i'r rhyngrwyd. Ond, hyd yn oed yn fwy na hynny, bydd angen iddo fod yn bartner creadigol Prydain.

49 RAJAR, 2014/15

50 3Reasons, HY2 2015

51 BARB, 3 min+, 16+, 2014/15

52 Coed Cadw, How fast was spring 2015? Ar gael yn www.naturescalendar.org.uk/bswresults

## 4.2 Y BBC—partner creadigol Prydain

Yn ystod y Siarter nesaf, rydym yn cynnig y dylem weithio gyda'r amrywiaeth ehangaf o bartneriaid.

Byddem yn dod yn llwyfan i sefydliadau syniadau Prydain, sef ein hamgueddfeydd, ein theatrau a'n gwyliau, ein prifysgolion a'n sefydliadau ymchwil. Byddem yn gweithio'n well gyda'n cystadleuwyr. Byddem yn gwahodd papurau newydd lleol i ddarparu gwasanaethau lleol y BBC. Byddai iPlayer yn dangos rhaglenni pobl eraill. Byddem yn cynnig ein gallu technolegol a digidol i'r diwydiant ehangach.

Er mwyn cael buddiannau'r ymgais hon i fod yn agored, byddai angen i'r BBC ddod yn well partner.

Dywedir wrthym yn aml bod partneriaeth yn rhywbeth rydym fel petai'n gwneud i bobl, nid â hwy. Yn ystod y Siarter nesaf, mae'n rhaid i hynny newid, wrth i ni ddysgu sut i weithio mewn ffordd wirioneddol gydweithredol â sefydliadau tebyg, cyflenwyr, unigolion a chystadleuwyr.

Gallwn gynnig gwerth unigryw i'r partneriaethau hyn. Cynulleidfaoedd torfol o'r cychwyn cyntaf. Mynediad wedi'i bersonoli. Arbenigedd curadurol i helpu defnyddwyr i ddod o hyd i'r cynnwys gorau oll—yr hyn y maent am ei gael a'r hyn y gallai fod ei angen arnynt. Ein hethos anfasnachol, yr ymddiriedir ynddo. Ymrwymiad hirdymor ac atebolrwydd cyhoeddus.

Yn bennaf oll, byddem yn rhoi pŵer i'n cynulleidfaoedd. Byddem yn ennyn eu diddordeb mewn gwyddoniaeth i ddinasyddion. Byddem yn eu helpu i ddechrau camp neu greu yn y celfyddydau. Byddem yn gofyn iddynt roi prawf ar gynhyrchion newydd. Byddem yn rhoi ein cynnwys iddynt ei rannu, ei guradu a'i newid. Byddem yn gofyn iddynt ein cynghori ar y ffordd rydym yn rhedeg y BBC.

Mae hwn yn newid sylfaenol yn y ffordd y mae'r BBC yn gweithredu.

Nid ydym yn cynnig y dylid newid ein cenhadaeth i hysbysu, addysgu a diddanu. Ond byddem yn ychwanegu pedwerydd gorchymyn heb ei ddatgan—galluogi, fel y bydd pawb, o dalwyr ffi'r drwydded i'n cystadleuwyr, yn ein hystyried yn bartner i'w helpu i gyflawni eu nodau.

## 4.3 Llwyfannau agored ar gyfer cynnwys

Felly byddai gan y BBC agwedd newydd—ni fyddai ynghau mwyach, ond yn agored i eraill. Ond nid oes a wnelo hyn ag agwedd yn unig. Mae a wnelo hefyd â chymhwyso syniadaeth llwyfannau at ein cynhyrchion ar-lein.

Ar hyn o bryd, mae apiau a gwefannau'r BBC yn dal i ddarlledu cynnwys. Ar ein hapiau Newyddion, mae gohebwyr yn cyfathrebu â chynulleidfaoedd. Mae Bitesize yn dweud wrth fyfyrwyr beth mae angen iddynt ei wybod. Mae iPlayer yn cymryd y rhaglenni sydd wedi bod ar y radio neu'r teledu ac yn sicrhau eu bod ar gael yn ddiweddarach. Model un i bawb ydyw.

Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, mae'r rhyngrwyd wedi galluogi llwyfannau i ffynnu.

Beth yw ystyr llwyfan i ni? Llwyfan yw'r lle sy'n galluogi cynhyrchwyr a defnyddwyr lluosog i ryngweithio â'i gilydd a chreu gwerth i'w gilydd. Mae llwyfannau yn dwyn ynghyd gynnwys gan sawl darparwr, nid dim ond un. Mae llwyfannau yn ffynnu drwy annog pawb i greu, rhannu a chyfranogi.

Er enghraifft, mae Wikipedia yn fwy buddiol i bawb oherwydd y nifer anhygoel o olygiadau, sef tua 787m, gan fwy na 26m o ddefnyddwyr ers 2001. Mae YouTube wedi creu ffordd newydd i bobl greu, rhannu a gwylio fideo ffurf gryno. Mae Medium, Tumblr a Pinterest wedi creu cymunedau ffyniannus, yn ysgrifennu, yn cyhoeddi, yn rhannu ac yn trafod.

Gall llwyfannau fod yn rhai rheoledig neu agored. Llwyfannau rheoledig yw'r rhai fel Hulu, y llwyfan cyfuno fideos yn yr UD, sy'n dwyn ynghyd gynnwys gan bartneriaid dethol (fel Fox, NBC, ABC, Disney, WWE a hyd yn oed y BBC). Llwyfannau agored yw'r rhai fel YouTube lle y gall unrhyw un gyhoeddi cynnwys. Fel arfer, maent yn annog ac yn galluogi llawer o ryngweithio rhwng darparwyr a defnyddwyr. Ar y llwyfannau hyn, efallai mai'r un person fydd y darparwr a'r defnyddiwr.

Rydym yn cynnig y dylid cymhwyso syniadaeth llwyfannau at ein cynhyrchion ar-lein. Nid yw hyn yn golygu efelychu YouTube nac unrhyw ddarparwr arall, na chaniatáu i gynnwys proffesiynol gael ei lethu gan

gynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr. Mae'n golygu y byddwn yn agor ein hunain i'r allbwn o'r ansawdd gorau, gan yr amrywiaeth ehangaf o ddarparwyr proffesiynol. Ac mae'n golygu hadu'r allbwn hwnnw yn y mannau lle y bydd cynulleidfaoedd yn dod o hyd iddo.

O ran newyddion, er enghraifft, mae cynulleidfaoedd yn troi at y BBC am storïau y maent yn ymddiried ynddynt—felly ni fyddai'n briodol caniatáu i unrhyw un gyhoeddi ei newyddiaduraeth ar ein safle. Sut bynnag, byddai hynny ond yn efelychu'r hyn y mae dwsinau o safleoedd masnachol eisoes yn ei wneud. Ond byddem yn agor ein llwyfan newyddion i gynnwys gan ddarparwyr eraill, gan greu cronfa i bapurau newydd lleol ac eraill greu cynnwys ar gyfer ein gwasanaethau a syndicetio storïau gorffenedig i safleoedd papurau newydd.


O ran adloniant, byddem yn creu llwyfan rheoledig. Gallai'r iPlayer gynnig mynediad at gynnwys gan ddarlledwyr eraill neu i bartneriaid newydd. Byddai hyn yn fwy cyfleus i gynulleidfaoedd, a allai ddod o hyd i fwy o raglenni o Brydain mewn un man, ac a allai ddefnyddio eu data drwy'r holl gatalog estynedig hwnnw er mwyn dod o hyd i'r rhaglenni gorau o blith y rhain iddynt hwy yn unig. Bydd yr un peth yn wir am iPlay, sef ein gwasanaeth arfaethedig i blant, lle y byddem yn darparu cynnwys gan bartneriaid a gaiff eu dewis yn ofalus ac yn rhoi llawer mwy o gyfle i blant ryngweithio a chreu cynnwys.

Byddai'r Gwasanaeth Syniadau a awgrymwn yn ddiweddarach yn curadu casgliadau o gynnwys gan y BBC ac eraill—fideo, testun a sain. Byddai ein cynnig ar gyfer radio ymatebol yn cynnig yr arlwy radio lafar orau i wrandawyr, boed hynny gan y BBC neu

**MyBBC** fydd eich ffenestr i mewn i'r BBC—y goreuon o blith ein holl gynhyrchion a gwasanaethau, dim ond i chi a'r cyfan mewn un man.

Er enghraifft

| Fy ffefrynnau | Argymhellir i mi | Mwyaf poblogaidd yr wythnos hon | Rhannwyd gan ffrindiau |
|---|---|---|---|



Bydd y gwasanaethau **Newyddion, Syniadau a Theledu** yn darparu'r cynnwys gorau gan y BBC a thu hwnt. Cânt eu hategu gan gyfres o wasanaethau ar-lein ychwanegol.

Bydd ein gwasanaethau dysgu ac ifanc ynghyd â'n harlwy o newyddion i gynulleidfaoedd ifanc yn rhoi **arlwy ar-lein, gydlynol a chlir i gynulleidfaoedd ifanc.**

## Hysbysu

Y Gwasanaeth Newyddion

Er enghraifft:
— Gwasanaethau iaith rhyngwladol
— Ffrwd Newyddion Cenedlaethol y DU
— Ffrwd Newyddion Lleol y DU
— Newyddion i gynulleidfaoedd ifanc

## Addysgu

Y Gwasanaeth Syniadau

Er enghraifft:
— Celfyddydau'r DU Ar-lein
— Gwyddoniaeth y DU Ar-lein

Y Gwasanaeth Dysgu

Er enghraifft:
— Bitesize

## Diddanu

Y Gwasanaeth Teledu

Er enghraifft
— iPlayer
— BBC Live

Y Gwasanaeth Cerddoriaeth

Er enghraifft:
— Ffrydio cerddoriaeth

Y Gwasanaeth Ifanc

Er enghraifft:
— iPlay

Bydd y gwasanaethau hyn yn ymgorffori **cynnwys gan amrywiaeth o ddarparwyr**

| Hysbysu | Addysgu | Diddanu |
|---|---|---|
| A hefyd gynnwys gan y BBC a phartneriaid dibynadwy. e.e. | A hefyd gynnwys gan y BBC a phartneriaid dibynadwy. e.e. | A hefyd gynnwys gan y BBC a phartneriaid dibynadwy. e.e. |
| BBC / Partner lleol / Partner lleol | BBC / Amgueddfa / Prifysgo | BBC / Label cerddoriaeth / Darlledwr yn y DU |

Byddwn yn defnyddio **data** i sicrhau bod defnyddwyr yn darganfod y cynnwys gorau

**Data**

Byddwn yn agor **ein hadnoddau a'n technoleg** fel y gall eraill greu cynnwys yn hawdd.

**Infrastructure**

sefydliadau eraill. Byddai ein rhwydwaith celfyddydau yn dwyn ynghyd y perfformiadau gorau oll ym maes y celfyddydau, gan y BBC, Oriel Tate, Opera North, Gwyliau Caeredin a llawer o sefydliadau eraill.

Sut y bydd cynulleidfaoedd yn dod o hyd i'r hyn sydd ei angen arnynt? Byddai'r gwasanaethau hyn yn galw ar rôl y BBC fel tywysydd dibynadwy yn fwy nag erioed o'r blaen. Byddem yn dal i hidlo cynnwys, cerddoriaeth a syniadau dros y byd er mwyn dod o hyd i'r hyn y mae cynulleidfaoedd am ei gael neu'r hyn y mae angen iddynt ei wybod, yn ein barn ni. Os credwn mai Syria yw prif stori'r dydd, bydd bob amser yn eitem gyntaf ar y newyddion, ond byddwn hefyd yn gallu defnyddio data a deunydd curadu cymdeithasol i dywys cynulleidfaoedd at yr hyn y mae angen iddynt ei wybod.

Byddai amserlenwyr sianel ar gael i wneud y gwaith caled o ddwyn ynghyd ddilyniant o raglenni y byddai cynulleidfaoedd yn eu mwynhau bob nos. Ond dim ond un o blith llu o fathau o restrau chwarae y gall llwyfan y BBC eu cynnig fydd y rhain, ynghyd â rhestrau chwarae personol, rhestrau chwarae gan eraill, rhestrau chwarae i ddeall pynciau, rhestrau chwarae o'r archif.

Gyda chymaint o ddewis, bydd cynulleidfaoedd am fanteisio i'r eithaf arnynt. Bydd personoli—ein prosiect myBBC—o gymorth. Gall cynulleidfaoedd fewngofnodi fel y byddwn ni a'n partneriaid yn gwybod beth y maent wedi'i hoffi yn y gorffennol, a defnyddio'r wybodaeth honno i roi argymhellion penodol ynglŷn â'r hyn y gallent roi cynnig arni nesaf. Mae'r potensial yn enfawr—creu newyddion wedi'u personoli i wybodaeth am eich iechyd, neu awgrymiadau ynglŷn â beth i'w ddysgu, yn seiliedig ar y data y mae unigolion yn ei rannu gyda ni a'n partneriaid. Rydym eisoes yn gwneud cymaint o gynnwys y credwn y byddai cynulleidfaoedd yn ei fwynhau o bosibl. Mae personoli yn ein galluogi i'w gyflwyno'n well iddynt.

Yn olaf, bydd hynny oll yn bwydo i mewn i'r rhaglenni a wnawn. Rydym wedi cyflwyno BBC Taster yn ddiweddar er mwyn profi gwasanaethau newydd. Ond daw hynny'n beth cyffredin bellach yn y BBC, gyda data'n dod yn hollbwysig i'r hyn sy'n cael ei gomisiynu gennym nesaf. Ni fydd yn disodli barn ein harbenigwyr, ein hawduron neu ein cynhyrchwyr ond yn eu helpu i wneud penderfyniadau hyd yn oed yn well.

> *An outward-looking BBC sharing its cultural and economic capital with the nation—in essence, a joint venture—would have appalled that absolute monarch, Lord Reith. But its time has come.*
>
> Syr Peter Bazalgette, Cadeirydd, Cyngor y Celfyddydau Lloegr

5

# Hysbysu

Mae'r newyddion o bwys i bob dinesydd. Mewn democratiaeth, mae'n wasanaeth cyhoeddus hanfodol. Ni all llywodraeth gan y bobl weithredu hebddo. Mae angen i bob aelod o'r cyhoedd weld gwybodaeth ddibynadwy er mwyn gwneud penderfyniadau da drostynt hwy eu hunain, eu cymunedau, eu gwledydd a'u dyfodol ar y cyd.

Y BBC yw'r ffynhonnell newyddion yr ymddiriedir ynddi fwyaf yn y wlad hon,[53] a'r un yr ymddiriedir ynddi fwyaf yn y byd, a hynny am fod BBC Newyddion yn cynrychioli ansawdd. Ei ased mwyaf yw ymddiriedaeth y cyhoedd. Ac mae hynny wedi'i wreiddio mewn ymrwymiad digyfaddawd i fod yn gywir, yn ddiduedd, i adlewyrchu amrywiaeth barn ac i drin pobl yn deg yn y newyddion.

Tasg bwysicaf y BBC yw hysbysu ac esbonio, er mwyn cyfrannu at gymdeithas fwy gwybodus, dinasyddiaeth fwy gweithredol a byd o ddealltwriaeth ddyfnach. Ein cenhadaeth, mae'n rhaid, yw esbonio cymhlethdod y byd rydym yn byw ynddo—i adrodd ar y newyddion sy'n bwysig a darparu'r cynnwys a'r dadansoddiad sy'n eu hegluro.

Mae ffi'r drwydded yn ei gwneud yn bosibl i ni fuddsoddi yn yr adnoddau i wneud hyn mewn ffordd unigryw. Mae'r BBC yn adrodd o fwy o wledydd ac i fwy o bobl nag unrhyw ddarlledwr newyddion rhyngwladol arall. Mae'n cynnal gweithrediad casglu newyddion helaeth ar lefel fyd-eang, genedlaethol a lleol. Mae'n cefnogi'r wybodaeth newyddiadurol arbenigol sydd ei hangen i helpu i ganfod y gwir. Ledled rhanbarthau a Gwledydd y DU, mae'n ystyried buddiannau pawb, cyfoethog a thlawd, hen ac ifanc.

53 Ipsos Mori ar ran y BBC, 1,906 o oedolion 15+ yn y DU sy'n dilyn y newyddion, Ionawr 2015

## 5.1 Rôl y BBC i hysbysu'r cyhoedd yn oes y rhyngrwyd

Mae'r gwerthoedd hyn yn bwysicach nag erioed yn oes y rhyngrwyd. Mae'r angen am newyddion annibynnol, diduedd a chraff yn fwy nag erioed. Mae digon o ddata, ond diffyg dealltwriaeth; mwy o wybodaeth swyddogol, ond llai o ymddiriedolaeth ymhlith y cyhoedd. Mewn llawer o wledydd, mae llai o ryddid mynegiant yn hytrach na mwy. A cheir bylchau cynyddol mewn gwybodaeth rhwng y cenedlaethau hŷn ac iau, rhwng pobl gyfoethog a thlawd, rhwng y rhai sy'n weithredol ar-lein a'r rhai nad ydynt yn weithredol.

Mae'n hawdd dod o hyd i rywbeth ar y rhyngrwyd sy'n ymddangos yn ffeithiol gywir ond nad yw felly. Neu rywbeth sy'n ymddangos fel newyddion ond sydd ond yn farn rhywun am y newyddion mewn gwirionedd. Ceir ffynonellau o newyddion sy'n diddanu neu'n cythruddo; eraill sy'n ochri neu'n coleddu barn benodol. Mae mwy o newyddion, ond llawer mwy o leisiau croch hefyd. Mae cymaint o wybodaeth ar gael erbyn hyn, sy'n gwneud y BBC yn fwy defnyddiol yn hytrach nac yn llai defnyddiol.

Dywedir bod y newyddion yng nghanol chwyldro rhyngrwyd. Ond megis cychwyn y mae'r chwyldro, mewn gwirionedd.

Heddiw, rydym yn dal i adrodd a rhannu storïau yn yr un ffordd fwy neu lai ag y gwnaethom ers degawdau. Yn y blynyddoedd sydd i ddod, byddwn yn edrych yn ôl ar ein hymgais gynnar i ddarparu newyddiaduraeth ar-lein gyda'r un difyrrwch a deimlwn pan edrychwn ar hen ffilm o ddarlledwyr yn darllen y bwletinau radio ar gyfer y camerâu yn nyddiau cynnar newyddion teledu dros 60 mlynedd yn ôl.

Bydd y rhyngrwyd yn trawsnewid y newyddion yn ystod y degawd nesaf. Bydd yn dod yn haws cynnig mwy o wybodaeth i fwy o bobl yn fwy cyflym. Os manteisiwn i'r eithaf arno, bydd yn ein llywio ac yn ein grymuso'n fwy nag erioed o'r blaen. Felly, mae'r BBC yn cynnig agenda o ddiwygio ac adnewyddu er mwyn gwireddu addewid oes y rhyngrwyd.

Wrth i anghenion cynulleidfaoedd newid, rydym am sicrhau mai ni fydd darparwr newyddion mwyaf dibynadwy'r byd ar sgriniau o bob maint.

Erbyn canmlwyddiant y BBC yn 2022, ein huchelgais yw manteisio i'r eithaf ar y rhyngrwyd ochr yn ochr â radio a theledu er mwyn cynyddu'r gynulleidfa fyd-eang i 500m o bobl. Wrth wneud hynny, ein blaenoriaeth fydd gwasanaethu pobl—o Rwsia i Ogledd Corea, Gogledd Affrica i'r Dwyrain Canol—y mae mawr angen gwybodaeth ddibynadwy arnynt.

Ac rydym am barhau i fod yn brif ddarparwr newyddion teledu rhanbarthol a radio lleol ledled y DU, ond gan adeiladu ar hyn er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch cynyddol mewn atebolrwydd o ran adrodd ar sefydliadau llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus. Ledled y wlad, mae pŵer yn cael ei ddatganoli. Ar yr un pryd, mae nifer y gohebwyr sy'n rhoi sylw i wasanaethau'r llywodraeth a sefydliadau cyhoeddus yn lleihau. Wrth fynd i'r afael â'r broblem hon, rydym am weithio gyda'r wasg leol a rhanbarthol sy'n rhannu'r cyfrifoldeb hwn. Ein nod yw bod yn rhan o adfywiad newyddiaduraeth leol. Felly, mae'r BBC yn cynnig y dylai fod yn fwy agored. Bydd yn agor ei archif o newyddion fideo a sain; bydd yn sicrhau bod ei newyddiaduraeth ddata ar gael; a bydd yn gwahodd sefydliadau newyddion eraill i gystadlu â'r BBC i roi sylw i wasanaethau cyhoeddus lleol.

> *Collecting, analysing, carefully evaluating and then disseminating information will always be an expensive business, but it's essential to a properly functioning democracy. Offhand, I can't think of a better argument for the licence fee.*
>
> John Humphrys, newyddiadurwr

## 5.2 Ffrwd newyddion y BBC: yn adrodd stori'r DU, yn well ac yn gynt

Mae'r BBC wrth wraidd newyddion yn y DU, yn rhan o farchnad newyddion fywiog a chystadleuol. Mae newyddion gan y BBC yn cyrraedd mwy nag 80% o holl oedolion y DU bob wythnos ar draws teledu, radio ac ar-lein.[54] Mae dros hanner yr holl gynulleidfaoedd yn nodi mai'r BBC yw eu ffynhonnell bwysicaf o newyddion.[55] Mae'r cyhoedd yn dewis defnyddio'r BBC yn weithredol, er bod ganddynt fynediad at fwy o ffynonellau o newyddion a gwybodaeth nag erioed o'r blaen.

Nid yw llwyddiant y BBC yn atal pobl rhag dod o hyd i ffynonellau eraill o newyddion a'u defnyddio. Dim ond cyfran fach o bobl—tua 16%—sy'n cael eu newyddion gan y BBC yn unig.[56] Canfu Ofcom fod cynulleidfaoedd yn defnyddio pedair ffynhonnell o newyddion ar gyfartaledd[57] ac mae ffynonellau lluosog yn debygol o gynyddu wrth i gynulleidfaoedd symud ar-lein. Mae pobl yn troi at wahanol ffynonellau o newyddion ar gyfer gwahanol bethau.

Ni yw'r ffynhonnell newyddion yr ymddiriedir ynddi fwyaf yn y DU o bell ffordd o hyd. Mae 57% o'r cyhoedd yn nodi'r BBC pan ofynnir iddynt enwi'r ffynhonnell y maent yn ymddiried ynddi fwyaf, ymhell o flaen yr un nesaf (ITV ar 11%).[58] Mae gwefan newyddion y BBC bum gwaith yn fwy tebygol o gael ei dewis fel ffynhonnell er mwyn "cadarnhau bod rhywbeth yn wir" na'r darparwr agosaf nesaf[59] a'r BBC yw'r brand newyddion a rennir fwyaf yn Saesneg ar Twitter.[60]

Ond mae newid yn y ffordd y mae cynulleidfaoedd yn gwylio neu'n gwrando ar y newyddion yn datblygu rhwng y cenedlaethau. Cyrhaeddodd newyddion teledu yn y DU 92% o bobl dros 55 oed bob wythnos ar gyfartaledd y llynedd ac mae hyn wedi bod yn sefydlog yn ystod y degawd diwethaf. Ymhlith pobl 16–34 oed, mae'r ganran yn gostwng i 52% bob wythnos gymharu â 69% yn 2004.[61] Mae pobl ifanc yn gwerthfawrogi'r dewis o ddarparwr newyddion diduedd: ond mae'n well ganddynt gael eu newyddion mewn ffordd wahanol, ar ffôn clyfar yn hytrach na theledu clyfar.

Felly, gan edrych ar y realiti ariannol a'r angen yn y dyfodol, credwn ei bod yn bryd adolygu'r arlwy, ac yn benodol newid y ffordd y darperir newyddion byw a newyddion parhaus.

### O newyddion treigl i ffrydio'r newyddion

Er y bydd teledu a radio yn llwyfannau parhaol o hyd, mae dyfeisiau symudol yn prysur ddal i fyny fel y brif ffordd o gael newyddion. Yn ôl gwaith ymchwil ar ran Adroddiad Newyddion Digidol Reuters, ar draws pob un o'r 12 o wledydd a arolygwyd, mae 25% o ddefnyddwyr newyddion ar-lein yn dweud mai eu ffôn clyfar yw'r brif ffordd y maent yn cael newyddion ar-lein erbyn hyn. Mae hyn yn cynyddu i 41% i'r rhai o dan 35 oed.[62] Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae ffonau symudol wedi mynd yn fwy niferus na phobl am y tro cyntaf.

Dyfeisiau symudol sy'n cynnig y cyfle gorau i ddarparu gwasanaeth newyddion wedi'i bersonoli, a chreu ffyrdd arloesol o hysbysu cynulleidfaoedd. Nid dim ond storïau newyddion fydd y newyddion mwyach, ond hefyd y data, y cyd-destun a'r wybodaeth berthnasol sydd eu hangen ar bawb, wedi'u darparu mewn ffordd sy'n addas ar gyfer eu bywydau.

Felly byddwn yn newid o newyddion treigl i ffrydio newyddion. Bydd BBC Newstream yn wasanaeth ffrydio newydd ar gyfer ffonau symudol. Bydd yn wasanaeth sy'n cynnig mwy o fideo, wedi'i ategu gan sain, graffeg a thestun yn fyw o BBC Newyddion. Mae'n cynnig y posibilrwydd o newyddion sy'n bersonol, yn gludadwy ac ar alw.

Mae'n rhaid i ni harneisio potensial llwyfannau symudol i esbonio cymhlethdod y byd rydym yn byw ynddo i gynulleidfaoedd drwy fabwysiadu math newydd o newyddiaduraeth. Bydd yn cynnwys yr hyn a elwir yn 'newyddiaduraeth WDIAM' (What Does It All Mean) bellach, sy'n helpu cynulleidfaoedd i ddeall termau allweddol neu gefndir storïau. Gyda data personol perthnasol, gall cynhyrchion symudol hefyd ddarparu gwasanaethau sy'n rhoi gwybodaeth ddinesig ddefnyddiol yn seiliedig ar yr ardal rydych yn byw ynddi a'ch diddordebau.

54 Kantar Media ar ran y BBC, tua 12,000 o oedolion yn y DU, 2014/15

55 Ofcom, Mehefin 2014, News consumption in the UK: research report. Ar gael yn: http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/research/tv-research/news/2014/Ofcom_News_Report_2014_slides.pdf

56 Ibid.

57 Ibid.

58 Ipsos Mori ar ran y BBC, 1,906 o oedolion 15+ yn y DU sy'n dilyn y newyddion, Ionawr 2015

59 Populus, oedolion 18+ yn y DU, Mehefin 2014. "Please indicate which ONE site/ app you would go to for the following tasks"/"When I want to check whether something I've heard is true"

60 http://blog.newswhip.com/index.php/2015/08/the-biggest-twitter-publishers-of-july-2015#SiLf85cWq0iazlys.97

61 BARB, 16+, cyrhaeddiad 3 mun, 2004 a 2014, genres BARB: 'Newyddion: Cenedlaethol/Rhyngwladol' a 'Newyddion: Amrywiol'

62 Adroddiad Newyddion Digidol Reuters, Mehefin 2015. Ar gael yn http://www.digitalnewsreport.org

## 5.3 Helpu'r farchnad newyddion lleol i lenwi bylchau mewn democratiaeth leol

Credwn fod newyddion yn wirioneddol bwysig i bobl lle maent yn byw ac yn gweithio. Cynulleidfaoedd teledu mwyaf y BBC ar gyfer newyddion yw ein bwletinau rhanbarthol gyda'r nos. Wrth i bŵer gael ei ddatganoli, mae hyd yn oed mwy o angen i adrodd am sefydliadau a gwasanaethau cyhoeddus ledled y DU.

Ond mae twf newyddion ar-lein wedi cael effaith uniongyrchol iawn ar y diwydiant papurau newydd ym mhob un o wledydd y Gorllewin, ac ar bapurau newydd lleol yn benodol.

Nid yw'r BBC yn gyfrifol am y newidiadau strwythurol hyn. Nid yw'r BBC yn cystadlu am hysbysebion yn y sectorau hyn. Ac mae tueddiadau tebyg wedi cael eu gweld mewn marchnadoedd ledled y byd lle nad oes darparwr newyddion gwasanaeth cyhoeddus cyfatebol. Ond mae'r cyfuniad o leihad yn nifer y gohebwyr sy'n gweithio mewn papurau newydd lleol a'r wasg ranbarthol yn golygu ei bod yn fwy tebygol bod pobl mewn grym yn llai atebol—ac yn teimlo eu hunain eu bod yn llai atebol—am benderfyniadau lleol. Nid yw hyn yn beth da i'n democratiaeth, sefydliadau'r llywodraeth na'n dinasyddion.

Mae'r BBC yn awyddus i fod yn rhan o'r ateb i'r her hon—ond dim ond rhan o'r ateb. Mewn partneriaeth â rhai sefydliadau newyddion lleol a rhanbarthol blaenllaw, rydym yn cyflwyno'r cynigion canlynol i'w trafod, eu llunio ac ymgynghori arnynt.

### Gwasanaeth Adrodd Atebolrwydd Lleol

O dan y cynnig hwn, byddai'r BBC yn dyrannu arian ffi'r drwydded i'w fuddsoddi mewn gwasanaeth sy'n adrodd ar gynghorau, llysoedd a gwasanaethau cyhoeddus mewn trefi a dinasoedd ledled y DU. Y nod yw rhoi rhwydwaith o 100 o ohebwyr gwasanaethau cyhoeddus ar waith ledled y wlad. Byddai'r adroddiadau ar gael i'r BBC ond hefyd, a hynny'n hollbwysig, i bob sefydliad newyddion dibynadwy. At hynny, er y byddai'n rhaid iddo fod yn ddiduedd a chael ei redeg gan y BBC, gallai unrhyw sefydliad newyddion—asiantaeth newyddion, darparwyr newyddion annibynnol, papur lleol yn ogystal â'r BBC ei hun—gystadlu i ennill y contract i ddarparu'r tîm gohebu ar gyfer pob ardal.

### Canolfan newyddiaduraeth ddata a rennir

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf gwelwyd cynnydd mawr mewn newyddiaduraeth ddata. Deuir o hyd i storïau newydd yn ddyddiol yn nata'r llywodraeth, data corfforaethol, data a geisir o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a meintiau cynyddol o ddata personol cyfun. Mae'r data hwn yn cynnig ffyrdd newydd o ddod o hyd i storïau a dwyn gwasanaethau cyhoeddus, gwleidyddion a sefydliadau pwerus i gyfrif.

Rydym yn cynnig y dylid creu canolfan newydd ar gyfer newyddiaduraeth ddata, sy'n gwasanaethu'r BBC ac yn sicrhau bod dadansoddiadau o ddata ar gael i sefydliadau newyddion ledled y DU. Bydd yn anelu at lunio partneriaeth â phrifysgol yn y DU, wrth i'r BBC geisio datblygu cyfleuster newyddiaduraeth ddata o'r radd flaenaf sy'n llywio sylw lleol, cenedlaethol a byd-eang.

### Cronfa Newyddion i syndicetio cynnwys

Bydd y BBC yn sicrhau bod ei ddarnau fideo rhanbarthol a'i ddarnau sain lleol ar gael i'w defnyddio ar unwaith ar wasanaethau rhyngrwyd sefydliadau newyddion lleol a rhanbarthol ledled y DU.

Gall fideo fod yn rhywbeth sy'n cymryd cryn dipyn o amser ac adnoddau i'w gynhyrchu. Byddai'r Gronfa Newyddion yn sicrhau bod pob darn o gynnwys fideo'r BBC a gynhyrchir gan dimau newyddion rhanbarthol a lleol y BBC ar gael i ddarparwyr cyfryngau eraill. Yn amodol ar hawliau a thrafodaeth bellach â'r diwydiant, byddem hefyd yn ystyried rhannu fersiynau hwy o gynnwys nas darlledir, megis cyfweliadau chwaraeon a chynadleddau i'r wasg.

Byddai'n hawdd i sefydliadau newyddion eraill chwilio am y cynnwys, gan sicrhau bod deunydd perthnasol ar gael i'w lawrlwytho neu ei ddarparu gan y sefydliadau eu hunain, neu ar gael iddynt ei ymgorffori ar eu gwefannau eu hunain. Byddai rhannu cynnwys yn sicrhau bod talwyr ffi'r drwydded yn cael y gwerth mwyaf posibl o'u buddsoddiad mewn newyddiaduraeth leol, ond byddai hefyd yn darparu cynnwys ychwanegol a fyddai'n rhoi cyfle i sefydliadau newyddion atgyfnerthu eu harlwy i gynulleidfaoedd heb fynd i gostau ychwanegol. Byddem hefyd yn parhau i wella cysylltiadau â BBC Ar-lein, gan adeiladu ar waith Local Live.

### Adlewyrchu diwylliant lleol

Rydym yn datblygu partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Lloegr er mwyn sicrhau ein bod yn adlewyrchu bywyd diwylliannol y wlad yn well ym mhob rhan o'r BBC ar deledu rhanbarthol, radio lleol ac ar-lein ledled y DU. Ym mhob rhanbarth yn Lloegr byddwn yn cyflwyno cynhyrchwyr celfyddydau lleol a fydd yn gweithio gyda sefydliadau megis llyfrgelloedd neu theatrau lleol er mwyn ymhelaethu ar gelfyddydau a diwylliant yr ardal a darparu llinyn radio lleol newydd ar y celfyddydau. Rydym am i radio lleol y BBC ehangu ei agenda er mwyn dod o hyd i ffyrdd newydd o adlewyrchu cyfoeth diwylliannol eu hardal leol.

> *At a time when more power is being devolved to the regions, it is even more important that there is a long-term commitment to media coverage of democratic institutions to ensure full accountability. The BBC's financial contribution to this local democratic process and the evolution of the UK news market, through assigning a proportion of its news budget to independent local news provision, would be a significant enhancement to its public service remit and we welcome the BBC's constructive thinking in this regard.*
>
> David Montgomery, Prif Swyddog Gweithredol Local World

## Atgyfnerthu ein newyddion yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon

Wrth i'r broses ddatganoli gyflymu—ac wrth i'r DU newid yn gynt nag sydd wedi digwydd yn ei hanes diweddar—bydd angen i ni addasu ein gwasanaethau er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu gwleidyddiaeth gynyddol wahanol y DU ac yn adrodd arni'n llawn. Ni ddylai'r BBC, mewn egwyddor, arwain newidiadau cyfansoddiadol yn y Deyrnas Unedig na bod ar ei hôl hi. Ein blaenoriaeth yw sicrhau ein bod yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar ddinasyddion ym mhob un o bedair Gwlad y DU er mwyn iddynt wneud synnwyr o'u byd a'u helpu i ddwyn y rhai mewn grym i gyfrif.

Mewn Teyrnas Unedig fwy datganoledig, nid yw newyddion mewn rhai rhannau o'r wlad yn berthnasol mewn rhannau eraill. Mae gwleidyddiaeth ac economeg y wlad yn dod yn fwy amrywiol, ac mae'r busnes o adrodd arno yn mynd yn fwy cymhleth.

Mae cyfrifoldeb ar y BBC i sicrhau ei fod yn hysbysu'r gynulleidfa yn y ffordd fwyaf effeithiol a pherthnasol. Credwn ei bod yn bryd i ni gael cydbwysedd gwell rhwng darparu newyddion i'r DU gyfan a newyddion sydd wedi'u teilwra at anghenion ac agenda benodol Gwledydd datganoledig y DU.

Fel man cychwyn, byddwn yn darparu hafan BBC Newyddion wahanol ym mhob Gwlad. Byddwn yn personoli ein gwasanaethau newyddion er mwyn adlewyrchu hoffterau a diddordebau personol ym mhob rhan o'r DU.

Ond efallai y bydd angen i ni fynd ymhellach. Rydym am ymgynghori â chynulleidfaoedd ledled y wlad ynghylch a ydym yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng bwletinau newyddion i'r DU gyfan ac i'r Gwledydd ar y teledu. Mae ein gwasanaethau Newyddion heddiw yn boblogaidd iawn ac yn cael eu defnyddio'n helaeth gan gynulleidfaoedd, gan gynnwys rhaglen Six o'clock News y BBC sydd wedi bod yn destun cymaint o drafodaeth.

Ond yn sgil datganoli, refferendwm yr Alban ac mewn byd lle mae agweddau sylweddol ar bolisi cyhoeddus wedi'u datganoli yn y Gwledydd, mae dadl lawer yn gryfach dros gynnig cydbwysedd gwahanol o ran sut rydym yn cyflwyno'r newyddion a materion cyfoes mwyaf perthnasol gan y BBC i gynulleidfaoedd. Edrychwn ymlaen at ystyried yr amrywiol opsiynau â'n partneriaid, rhanddeiliaid, cynulleidfaoedd a Llywodraethau'r Gwledydd drwy broses yr Arolwg o'r Siarter.

## 5.4 Rydym am fuddsoddi yn y World Service

Drwy'r rhyngrwyd mae'r byd yn crebachu, ac mae effaith gweddill y byd ar y DU yn cynyddu.

Mae pethau sy'n digwydd mewn mannau eraill yn y byd bellach yn digwydd ym mhob man yn y byd. O'r diwydiant gofal iechyd i'r farchnad ynni, o eithafiaeth grefyddol i seibrdroseddu, mae datblygiadau byd-eang yn cael effaith fwyfwy ar y DU.

Mewn sawl rhan o'r byd mae'r cyfryngau yn llai rhydd nag y bu ddeng mlynedd yn ôl, yn fwyaf amlwg yn Rwsia, ond hefyd mewn gwledydd fel Twrci neu Wlad Thai. Bu twf hefyd mewn sefydliadau newyddion mawr a noddir gan y wladwriaeth a newyddion a gyfunir gan lwyfannau digidol. Gall Al Jazeera, China Central Television (CCTV) a Russia Today oll alw ar adnoddau helaeth iawn.

Gall y gwasanaeth a gynigir gan y sefydliadau hyn fod o ansawdd uchel, ond adlewyrchu barn benodol am y byd ac agenda ei noddwyr.

Wrth i'r hyn sy'n digwydd mewn mannau eraill yn y byd ddod yn bwysicach i'r DU, a chyda'r posibilrwydd y bydd gwasanaethau gwladol mewn gwledydd llai rhydd yn chwarae rhan flaenllaw mewn dadleuon byd-eang a darpariaeth newyddion, mae gwerth cyrhaeddiad byd-eang y BBC i ddemocratiaeth a rhyddid yn fwy nag erioed.

I'r perwyl hwnnw, cynigiwn y dylid buddsoddi yn ein gwasanaethau newyddion byd-eang.

### Llais mwyaf adnabyddus ac uchel ei barch yn y byd ym maes newyddion rhyngwladol

BBC World Service yw allforyn diwylliannol pwysicaf y DU. Mae'n ysbrydoli ac yn egluro bywydau miliynau ledled y byd, gan eu helpu i wneud synnwyr o'r byd y maent yn byw ynddo. Mae un o'r ffynonellau gorau o ddylanwad diwylliannol y DU. Rydym am fuddsoddi ynddo fel y gall ymateb yn briodol i fyd sy'n newid a byddwn yn trafod â'r Llywodraeth i weld a fyddai ganddi ddiddordeb o bosibl mewn buddsoddi mwy yn y World Service o'r tu allan i ffi'r drwydded.

Byddem yn cynnig y dylid buddsoddi yn y meysydd canlynol:

- Presenoldeb digidol mwy o faint yn Rwsieg drwy wasanaeth digidol newydd ar lwyfannau megis YouTube a'r hyn sy'n cyfateb i Rutube yn Rwsia, ynghyd â bwletinau teledu ar gyfer gwladwriaethau cyfagos. Byddem hefyd yn dechrau ar astudiaeth ddichonoldeb o sianel teledu lloeren ar gyfer Rwsia.
- Rhaglen newyddion ddyddiol, saith diwrnod yr wythnos ar gyfer Gogledd Corea, a ddarperir i ddechrau drwy Donfedd Fer, a newyddion ar gyfer Ethiopia ac Eritrea ar Donfedd Ganol a Thonfedd Fer
- Arlwy ddigidol a symudol newydd neu estynedig yn India a Nigeria
- Cynnwys mwy rhanbarthol ar Wasanaeth Arabeg y BBC er mwyn gwasanaethu cynulleidfaoedd yn y rhanbarth yn well, a thargedu cynulleidfaoedd newydd, gyda mwy o sylw i Ogledd Affrica a'r Gwlff.

### Datblygu'r gwasanaeth newyddion digidol Saesneg gorau yn y byd

Er mwyn i Brydain gael llais yn y byd, yna bydd gan y BBC rôl hollbwysig o ran sicrhau bod y llais hwnnw yn cael ei glywed.

Mae Saesneg yn iaith fyd-eang. Mae'r byd yn ymddiried yn y BBC. Dylai Prydain fanteisio ar hynny. Er mwyn parhau'n ddarparwr newyddion a gwybodaeth byd-eang blaenllaw, mae'n rhaid i ni estyn ein cyrhaeddiad i 500 miliwn o ddefnyddwyr erbyn 2022. Byddai'r ffigur hwn yn golygu y gallem gystadlu o ran dylanwad â chwmnïau cyfryngau blaenllaw'r byd.

Fodd bynnag, mae yna derfyn o ran y graddau y gellir disgwyl i aelwydydd ym Mhrydain ariannu newyddion i eraill ledled y byd, er gwaethaf y buddiannau. Mae ein newyddion ar-lein o amgylch y byd a gwasanaeth teledu BBC World News—sydd hefyd yn cael ei redeg gan Grŵp World Service—eisoes yn cael eu hariannu'n fasnachol. Felly, mae'n rhaid bod ein huchelgeisiau yn hunangynhaliol yn fasnachol. Byddem yn anelu at sefyllfa lle mae unrhyw gynnydd mewn arian cyhoeddus i'r World Service yn ysgogi arian cyfatebol o incwm allanol ar gyfer ein gwasanaethau newyddion byd-eang eraill yn ystod y Siarter.

Mae hyn yn golygu uchelgais fasnachol; ceisio refeniw gan gynulleidfaoedd y tu allan i'r DU; a bod yn agored i dderbyn arian gan lywodraethau a chymdeithas sifil. Mae Grŵp World Service eisoes yn manteisio ar gyfleoedd masnachol ym myd teledu, ar-lein ac, i ryw raddau, radio. Drwy BBC Monitoring a BBC Media Action, mae hefyd yn dibynnu ar gontractau â llywodraethau, incwm masnachol a rhoddion. Byddai angen i ni gynyddu refeniw o bob ffynhonnell o'r fath.

Er mwyn gwneud hynny, bydd yn rhaid i bbc.com arbrofi, gan ystyried cytundebau hysbysebu newydd, gwasanaethau tanysgrifio, digwyddiadau byw, pecynnau syndicetio a chyfleoedd masnachol ar bob llwyfan ac ym mhob iaith.

Ond mae'r hyn a gynigir yn syml: mynediad i gynulleidfaoedd byd-eang i hysbysebwyr; a chynnyrch i ddefnyddwyr sy'n cynnwys y gwasanaeth newyddion mwyaf dibynadwy ac yr ymddiriedir ynddo fwyaf yn y byd—gan amrywio o'r newyddiaduriaeth gryfaf am faterion y byd i ddadansoddi hygyrch o fusnes a'r economi i fforymau newydd ar gyfer mynegi barn a syniadau.

> *The BBC is the best export of Britain to the world.*
>
> Malala Yousafzai, Enillydd, Gwobr Heddwch Nobel 2014

## 5.5 BBC Newyddion agored sy'n addas i'r rhyngrwyd

Tasg bwysicaf y BBC yw hysbysu. Mae hon yn rhaglen o ddiwygio gyda'r nod o sicrhau ei fod yn gwneud hynny'n well nag erioed o'r blaen.

Dylai ein gwasanaeth ffrydio'r newyddion ein helpu i gyrraedd cynulleidfaoedd iau—diolch i'r cynigion yn y ddogfen hon, rydym yn rhagweld y byddai cyrhaeddiad BBC Newyddion yn parhau ar 80% yr wythnos ac y byddai cynulleidfaoedd yn ymwneud mewn ffordd ystyrlon ag amrywiaeth eang o newyddion.

Byddem yn agor ein gwasanaethau i bartneriaid newyddion lleol a sefydliadau'r celfyddydau. Diolch i'n hymdrechion ar y cyd, byddai modd gwarantu bod democratiaeth leol a chymdeithas yn cael sylw ym mhob rhan o'r wlad.

Drwy'r cynigion hyn, byddem yn ail-greu BBC Newyddion, gan wneud i'n gwerthoedd weithio yn oes y rhyngrwyd. Byddem yn dywysydd dibynadwy drwy gors gwybodaeth, gan helpu i ddidoli rhwng gwybodaeth gywir a gwybodaeth anghywir. A byddem yn gwneud hynny i bawb.

6

# Addysgu

Sut mae darganfod uwchnofa?

Dechreuwch gyda 40,000 o wirfoddolwyr. Ychwanegwch delesgop SkyMapper. Ac ewch ar helfa pum diwrnod am wrthrychau nefol anhysbys. Eleni, gwnaeth gwirfoddolwyr *Stargazing Live* bron ddwy filiwn o ddosbarthiadau o gyrff nefol, gan gynnwys pum uwchnofa y bu awydd mawr eu darganfod, sef y sêr ffrwydrol hynod lachar sy'n rhoi cliwiau hollbwysig ar hanes a dyfodol y bydysawd.

Pum uwchnofa. 40,000 o wyddonwyr sy'n ddinasyddion. Dwy filiwn o sêr. Pum miliwn o wylwyr. Adwaith cadwynol o ddysgu.

Dim ond y BBC all wneud hynny. Ac yn ystod y Siarter nesaf, rydym am wneud llawer, llawer mwy, gan helpu i sicrhau mai Prydain yw'r wlad fwyaf gwybodus y byd ac arddangos sefydliadau diwylliannol a deallus y DU ledled y byd.

## 6.1 Rôl y BBC i addysgu yn oes y rhyngrwyd

P'un a ydych yn sôn am y celfyddydau, hanes, hanes naturiol, athroniaeth neu wyddoniaeth, mae'r DU ymhlith y lleoedd gorau yn y byd am ddyfeisgarwch a gwybodaeth.

Mae talent y DU yn fyd-enwog. Mae'r wlad hon yn gartref i rai o'r sefydliadau diwylliannol, addysgol ac ymchwil gorau. Ac mae gan y DU ddarlledwr cyhoeddus cenedlaethol sydd, drwy ei arbenigedd a'r miliynau o bobl y mae'n eu cyrraedd bob dydd, wedi chwarae rhan eithaf mawr yn y gwaith o ennyn a chefnogi'r brwdfrydedd hwnnw dros y 90 mlynedd diwethaf.

Ond wynebwn heriau hefyd.

Mae sefydliadau yn aml yn gweithio ar wahân i'w gilydd. Nid oes mynediad i bawb o bell ffordd[63]. Er bod technegol ddigidol yn cynnig cyfleoedd anhygoel, mae perygl y bydd yn rhannu pobl rhwng y ffodus a'r llai ffodus. A gall fod yn anodd adnabod yr hyn sy'n bwysig a'r hyn sy'n wir.

Ers amser maith mae'r BBC, a'r sector ehangach hefyd, wedi bod yn wynebu'r un cwestiwn: sut y gallwn gydweithredu'n well, er mwyn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau, er budd pawb?

Drwy drafodaeth eang, mae cynnig newydd wedi dod i'r golwg: creu partneriaeth genedlaethol a fydd, drwy ei harbenigedd technegol, ei seilwaith lleol a byd-eang, a'i chyrhaeddiad, yn dod yn llwyfan i gydweithredu ym myd gwyddoniaeth, peirianneg, hanes, y celfyddydau a diwylliant, a'r disgyblaethau eraill y mae'r wlad hon yn rhagori arnynt.

## 6.2 Y Gwasanaeth Syniadau

Yn yr 20fed ganrif, creodd y BBC y World Service, sef rhodd ddemocrataidd i'r byd. Yn y ganrif hon, gan adeiladu ar gyfoeth gwybodaeth a diwylliant Prydain, dylem gynnig rhodd arall yr un mor werthfawr i'r byd: y Gwasanaeth Syniadau.

Felly beth yw'r Gwasanaeth Syniadau?

Byddai'n dwyn ynghyd yr hyn a wna'r BBC ym maes y celfyddydau, diwylliant, gwyddoniaeth, hanes a syniadau ac ychwanegu ato y gwaith a wneir gan lawer o'r sefydliadau celfyddydau, diwylliant a deallusol uchaf eu parch yn y wlad hon. Byddai hefyd yn manteisio i'r eithaf ar dreftadaeth archifol gyfoethog y BBC—o radio llafar i'n casgliadau teledu—a'i hagor i eraill.

I gynulleidfaoedd chwilfrydig ledled y byd, byddai'r BBC yn creu ac yn rheoli llwyfan ar-lein a fyddai, gan weithio gyda phartneriaid, yn cynnig y safon aur o ran cywirdeb, rhychwant, dyfnder, dadleuon a datgeliadau. Byddai'n cynnig ias darganfod a sicrwydd o ddibynadwyedd i gynulleidfaoedd.

Byddai'n dwyn ynghyd ar-lein yr holl bethau rydym eisoes yn eu gwneud ac y gwyddom fod cynulleidfaoedd yn eu hoffi a'u coleddu: er enghraifft, o Radio 4, BBC Four, BBC Two, Radio 3, ein gwasanaethau yn y Gwledydd, iWonder a BCC Learning ymhlith llu o bethau eraill. Mae'r holl bethau hyn wedi bod yn chwarae eu rhan yn unigol fel darparwyr darlledu a chynnwys digidol—ond hyd yma nid ydym wedi eu dwyn ynghyd yn effeithiol er mwyn iddynt fod yn fwy na chyfanswm eu rhannau. Dyma'r cyfle—ar y cyd â'n partneriaid.

Wrth wraidd y Gwasanaeth Syniadau bydd curadu cryf, drwy gyfuniad o ddulliau golygyddol, algorithmig a chymdeithasol. Er mwyn atgyfnerthu hynny, byddai gan y Gwasanaeth ei gyllideb comisiynu ei hun er mwyn creu a chomisiynu cynnwys ym maes teledu, radio ac ar-lein er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf i gynulleidfaoedd.

Byddai'r Gwasanaeth Syniadau yn croesi genres ond ni fyddai'n eu cymysgu. Byddai rhannau o'r gwasanaeth yn cael eu neilltuo ar gyfer y celfyddydau yn unig, neu ar gyfer gwyddoniaeth, fel y dangoswn isod. Ond deuai llawer o'r llawenydd o ddarganfod a serendipedd lle mae'r celfyddydau, dyweder, yn cyffwrdd â gwyddoniaeth feddygol neu lle mae hanes yn cyffwrdd â pherfformiad theatr.

63 Fel y dangosodd adroddiad Comisiwn Warwick yn ystod gwanwyn 2015, mae hyn yn arbennig o wir am fyd y celfyddydau lle mae'r 8% fwyaf cyfoethog, hyddysg a lleiaf amrywiol yn ethnig o'r boblogaeth yn cyfrif am y gyfran fwyaf gweithredol yn ddiwylliannol.

Byddai'r Gwasanaeth Syniadau yn gweithio drwy ddarllediadau ac ar-lein. Rydym eisoes yn gwneud hynny i nodi achlysuron megis canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf neu bedwar canmlwyddiant Shakespeare—gan ddefnyddio grym teledu a radio i gyflwyno pwnc diwylliannol neu hanesyddol pwysig i gynulleidfaoedd, ond yna ddefnyddio ar-lein i'w helpu i archwilio'n ddyfnach, cyfranogi a dysgu. Bwriadwn bellach ddefnyddio'r grym hwnnw drwy gydol y flwyddyn.

Byddem yn gofyn i ddefnyddwyr gofrestru i gael y gwasanaeth fel y gallem bersonoli cynnwys at eu diddordebau hwy. Byddem yn defnyddio'r data hwnnw er mwyn cyflwyno pynciau newydd a chwestiynau pwysig iddynt. Byddem yn rhoi'r cynnwys iddynt gael chwarae ag ef—p'un a yw hynny'n golygu llunio eu rhestrau chwarae eu hunain, neu fynd i amgylchedd cwbl wahanol.

I bartneriaid, byddai'r BBC yn darparu'r seilwaith sylfaenol, mynediad at yr archif, cymorth i gomisiynu ar gyfer mentrau mawr ac arbenigedd creadigol a thechnegol lle y bo angen. Byddem yn ei gwneud yn hawdd i bartneriaid gyfrannu at y Gwasanaeth Syniadau. Yn y modd hwn, byddai'n pontio rhwng sefydliadau a'u cysylltu â chyhoedd hyd yn oed yn ehangach.

Byddai'r llwyfan ar-lein hwn yn gyrchfan ynddo'i hun, lle y byddai cynulleidfaoedd yn mynd er mwyn darganfod beth sy'n newydd neu gael gwell dealltwriaeth o bwnc. Ond disgwyliwn mai dim ond rhan fach o'r ffordd y câi ei ddefnyddio y byddai hynny. Gan mwyaf, byddai pobl yn dod o hyd i'w gynnwys drwy amrywiol ffyrdd eraill—o ymholiadau chwilio i fod mewn lleoliad megis amgueddfa, o restr ddarllen TGAU i raglen ar BBC One neu Radio 1.

Yn amlwg, byddai'r Gwasanaeth Syniadau yn anelu at sicrhau cyrhaeddiad da a gwerthfawrogiad da ymhlith cynulleidfaoedd ond byddai'n barnu ei hun ar sail pethau eraill. Byddem am iddo gyflwyno'r sefydliadau—a'r unigolion—deallusol a diwylliannol gorau o bob cwr o'r wlad i gynulleidfa lawer ehangach yn y DU ac yn fyd-eang. Rydym am iddo ysbrydoli cenedlaethau newydd i fod yn gywrain ac yn uchelgeisiol.

Rydym yn hynod uchelgeisiol am y gwasanaeth newydd hwn. Heddiw, cysyniad ydyw, yn hytrach na chynnyrch, gyda rhai camau, prosiectau a phartneriaid cychwynnol er mwyn ei wneud yn real. Ond mae brwdfrydedd ein partneriaid a'n hanes blaenorol ein hunain o arloesi ym myd y rhyngrwyd yn rhoi hyder i ni fod cyfle gwych i'w gael.

> *Britain is ready to lead the world in knowledge. Our public institutions, from museums to universities, are home to world-leading thinkers and researchers, and our cities and industries are driven by great entrepreneurs. These are priceless resources, holding the keys to economic growth and inspiring the next generation of scientists, artists, industrialists and engineers. They all have stories to tell. The BBC is uniquely placed to make those stories available to everyone. Why? Because the BBC is an institution whose primary goal is to make Britain a better place, with direct access to the entire population of the UK, young and old. It is trusted, and has a unique creative skills base—nobody is better at communicating ideas.*
>
> Yr Athro Brian Cox, Prifysgol Manceinion

## 6.3 Celfyddydau'r DU

Daw'r Gwasanaeth Syniadau yn gartref i'r celfyddydau.

Byddai'r Gwasanaeth Syniadau, drwy lwyfan newydd UK Arts, yn dwyn ynghyd sefydliadau celfyddydau gwych Prydain—o'r brandiau byd-enwog fel y BBC ei hun, Oriel Tate, Gwyliau Caeredin, Whitworth, Theatr y Royal Court, yr Amgueddfa Brydeinig, a'r Royal Shakespeare Company i'r rhai sy'n hyrwyddo rhagoriaeth ac arloesedd yn y DU ei hun fel Slung Low, Tramway, Liverpool Biennial a Contact Theatre Manceinion—mewn siop un stop ddigidol, fyd-eang ar gyfer diwylliant gorau Prydain.

Byddai UK Arts yn galluogi'r sector i ddod yn fwy na chyfanswm ei rannau a, thrwy rym y brandiau dan sylw a chymorth darlledwyr, yn ymgysylltu â miloedd.

Byddai'n cael ei guradu, gan ganolbwyntio cynnwys ar ddigwyddiad mawr y dydd—o Shakespeare 2016 i Hull, Dinas Diwylliant y DU yn 2017. Gan ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf, bydd cynulleidfaoedd yn gallu cyfranogi a chwarae â chynnwys, boed hynny drwy ailolygu archif, ailgymysgu casgliadau amgueddfa, neu wylio perfformiadau gwych fel y mynnont.

Yn bwysig ddigon, nid diwedd y daith fydd UK Arts o ran cynnwys, a fydd yn teithio cyn belled â phosibl drwy gyfryngau cymdeithasol a llwyfannau dosbarthu eraill fel YouTube, heb sôn am hafanau sefydliadau unigol. Ond bydd yn fan lle daw'r stori at ei gilydd, gan roi'r fframwaith ar gyfer cydweithredu golygyddol a rhannu technoleg o ddydd i ddydd.

Bydd grym y brandiau mawrion yn hollbwysig. Ond hefyd ddarganfod a meithrin talent newydd. Yn y man hwn y gallai olynwyr Darcey Bussell, Kate Tempest a Chiwetel Ejiofor ddod i sylw cynulleidfa ehangach am y tro cyntaf.

Am y tro cyntaf, bydd gan bartneriaid ran i'w chwarae yn allbwn celfyddydau ehangach y BBC, a byddant yn gallu cydweithredu i greu tymhorau darlledu sy'n ategu neu'n dylanwadu ar eu blaengynlluniau eu hunain, gan ddwyn yr holl sector ynghyd mewn digwyddiadau cenedlaethol newydd a all gyrraedd y cynulleidfaoedd ehangaf.

Yn gynharach eleni, sefydlodd Martha Lane Fox fudiad DOT EVERYONE gan amlinellu gweledigaeth syml: gwneud y DU yn wych o ran defnyddio'r rhyngrwyd. Bydd y BBC yn gweithio gyda DOT EVERYONE a gobeithiwn y bydd y Gwasanaeth Syniadau yn ffordd bwysig o helpu sefydliadau'r celfyddydau a diwylliant i fanteisio i'r eithaf ar y rhyngrwyd er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd, archwilio fformatau ar-lein newydd a dod yn arweinwyr byd-eang.

> *This partnership will give audiences, people in this country and an international audience, an unprecedented opportunity to see work by major companies, by emerging companies, and by young artists. It's a great platform to show what's vital, exciting and special about what's happening in the United Kingdom today.*
>
> Syr Nicholas Serota, Cyfarwyddwr, Tate

## 6.4 Oes Ryfeddod Newydd

Man cychwyn arall i'r Gwasanaeth Syniadau yw UK Science, sef llwyfan agored, newydd sy'n cysylltu prifysgolion, amgueddfeydd, ysgolion, y cymdeithasau dysgedig a'r cymunedau gwyddoniaeth a pheirianneg ehangach. Rydym yn datblygu hyn gyda'r Gymdeithas Frenhinol, Grŵp yr Amgueddfeydd Gwyddoniaeth, yr Amgueddfa Hanes Naturiol, y Sefydliad Brenhinol, Ymddiriedolaeth Wellcome, Cymdeithas Wyddoniaeth Prydain, y Llyfrgell Brydeinig, yr Academi Brydeinig, Universities UK, yr Academi Frenhinol Peirianneg, Prosiect Eden, Academi'r Gwyddorau Meddygol, y Gerddi Botaneg Brenhinol, Kew a llawer o sefydliadau eraill ledled y wlad.

Mae gwyddoniaeth yn chwarae rhan hanfodol yn ein heconomi, ein diwylliant a'n democratiaeth. Ac mae'r BBC mewn sefyllfa unigryw i ddwyn ynghyd fath newydd o bartneriaeth â'r sector er mwyn hysbysu, addysgu a diddanu—a galluogi. Cynnig mynediad heb ei ail i'r cyfoeth o waith ymchwil ac adnoddau gwyddonol drwy'r wlad i gyd, ymhelaethu ar wyddoniaeth bywyd bob dydd, ac ysbrydoli gwyddonwyr a pheirianwyr y dyfodol.

Gan weithio gyda phartneriaid, rydym yn cynllunio'r ymgyrch wyddonol fwyaf ar gyfer y cyhoedd yn hanes Prydain. Mae'n syniad a fydd yn helpu i droi'r DU yn economi wybodaeth fwyaf blaenllaw'r byd, a'r lle gorau yn y byd i fod yn rhan o fyd gwyddoniaeth.

Byddwn yn dechrau ym mis Medi 2016 gydag ymgyrch traws-sefydliadol mawr ynghylch tua 100 cwestiwn mawr ym myd gwyddoniaeth—gwyddoniaeth sy'n bwysig i bawb. Bydd rhai cwestiynau yn ysbrydoledig; bydd eraill yn ganolog i'r ddadl genedlaethol a'r heriau polisi y mae'r wlad yn eu hwynebu.

Oherwydd hyd a lled yr ymgyrch bydd modd ymgysylltu ar bob lefel o arbenigedd—o fyfyrwyr ysgol gynradd i ymchwilwyr ôl-ddoethurol ac athrawon prifysgol. A byddwn yn cysylltu â miliynau o ddinasyddion-wyddonwyr er mwyn helpu i osod y cwestiynau—a darganfod yr atebion.

Fel rhan o hyn byddwn yn creu llwyfan ar-lein newydd a fydd yn cysylltu partneriaid—yn lleol ac yn genedlaethol. Bydd yn cynnig profiadau newydd a chynnwys newydd i bawb, yn ogystal ag agor yr archif a churadu asedau pob partner. Bydd sawl pwynt mynediad a rhyngweithio serendipaidd er mwyn cynnig math newydd o ymgysylltu a fydd yn cyfoethogi ein democratiaeth, ysgogi ein heconomi, a chynnig mwynhad a rhyfeddod i bawb.

Byddai'r llwyfan, er enghraifft, yn defnyddio technolegau geo-leoli manwl-gywir er mwyn rhoi mynediad i gynnwys sy'n agos i gynulleidfaoedd, gan greu dynamig newydd rhwng y cyhoedd a mannau cyhoeddus fel traethau'r Arfordir Jurasig a labordy Rutherford ym Mhrifysgol Manceinion, y mae miloedd o bobl yn mynd heibio iddo bob dydd, heb sylweddoli i'r niwclews atomig gael ei ddarganfod nid nepell i ffwrdd.

> *This is a golden opportunity. A New Age of Wonder will deliver a step change in public engagement, public participation and public celebration of science. We have a national public service broadcaster with the expertise and audience reach to deliver unprecedented access to everyone.*
>
> Syr Paul Nurse, Llywydd y Gymdeithas Frenhinol

Mae'r celfyddydau a gwyddoniaeth yn ddwy enghraifft o'r hyn y gall y Gwasanaeth Syniadau ei wneud. Ond ni fydd y Gwasanaeth Syniadau yn gyfyngedig i bynciau na genres traddodiadol. Nid felly y mae cynulleidfaoedd yn meddwl na'r ffordd y mae gwasanaethau fel Radio 4 yn gweithio.

Os mai trefnu gwybodaeth y byd yw cenhadaeth Google, ein cenhadaeth ni fyddai helpu pawb i'w deall. Byddwn yn gweithio gydag unrhyw un a all ein helpu i ddeall y byd. Dros amser, byddem yn casglu cynnwys ar y cwestiynau mawr a fu'n bwysig i bobl, a byddai ein tywysyddion dibynadwy yn ei gwneud yn hawdd i ni i gyd ddod o hyd i'r hyn y mae angen i ni ei wybod. Byddwn yn cynnig ffyrdd newydd i bobl gyfranogi, ymgysylltu a dysgu, ac ar y cyd â'n partneriaid, byddwn yn helpu i sicrhau bod Prydain yn parhau i arwain y byd o ran y celfyddydau, diwylliant, gwyddoniaeth a syniadau.

## 6.5 iPlay

Wrth reswm, nid yw addysg i oedolion yn unig.

Mae profiad plentyndod yn newid, a hynny'n gyflym. Mae newidiadau cymdeithasol, economaidd a thechnolegol yn ei newid. Felly mae'n rhaid i'r BBC ymateb.

Mae gan y BBC hanes balch ym maes y cyfryngau i blant.

Byddwn yn parhau'n ymrwymedig i hysbysu, addysgu a diddanu holl blant y DU. Byddwn yn cynnal ein rôl fel darparwr cynnwys i blant sydd o'r radd flaenaf ac a gynhyrchir yn y DU, gan ategu'r cynnwys rhyngwladol o ansawdd uchel y maent yn ei fwynhau'n gynyddol a chefnogi'r rhan hollbwysig hon o economi greadigol y DU.

I'r perwyl hwnnw, byddem yn sicrhau bod holl gynnwys y BBC ar gyfer y gynulleidfa hon ar gael drwy un llwyfan ar-lein o'r enw iPlay, a fydd wedi'i gynllunio i ddiwallu anghenion plant, eu rhieni a'u gofalwyr.

Byddai'n darparu deunydd wedi'i deilwra sy'n briodol i'r oedran dan sylw ac a fydd yn newid ac yn datblygu o blentyndod drwy laslencyndod hyd at drothwy bod yn oedolyn. Byddai'n cynnwys amrywiaeth eang o fathau o gynnwys, o fideo ffurf hir i fformatau rhyngweithiol, y câi'r rhan fwyaf ohono ei chomisiynu'n benodol i gynulleidfa plant gan dimau mewnol ac allanol, ond a fyddai hefyd yn ymgorffori cynnwys priodol o bob rhan o'r BBC. Byddai'n ffenestr yn rhoi mynediad i holl wybodaeth a chynnwys y BBC, gan roi cyfle i blant a phobl ifanc chwilio'n ddiogel a dysgu o holl adnoddau'r BBC gyda'r amrywiaeth ehangaf o ddeunydd sy'n briodol i'r oedran dan sylw a geir mewn un man.

Wrth wraidd iPlay byddai dysgu a gwneud, gan annog plant i fod yn grewyr gweithredol, yn hytrach na defnyddwyr goddefol.

Mae plant yn tyfu i fyny ar gyfraddau gwahanol, a byddai iPlay yn rhoi cyfle iddynt symud wrth eu pwysau eu hunain. Yn hytrach na chorlannu plant yn

ddau gategori, sef cynulleidfa CBeebies a chynulleidfa CBBC, byddai gan bob un ei gasgliad unigol o raglenni a chynnwys bellach, a hynny'n seiliedig ar eu hoedran a'u defnydd.

Byddai iPlay yn rhydd o unrhyw ddylanwad masnachol, a phŵer plagio felly. Byddai'n gadael i blant ryngweithio ag eraill mewn amgylchedd sy'n ddiogel rhag y bygythiadau yn y rhyngrwyd ehangach a mynegi eu creadigrwydd mewn ffyrdd na fyddai gwylwyr Blue Peter 20 mlynedd yn ôl erioed wedi'u dychmygu. Byddem yn helpu plant i ddarganfod a datblygu eu creadigrwydd cynhenid drwy ddarparu adnoddau y gellir eu defnyddio ar gyfer amrywiaeth eang o brosiectau—adrodd stori, darluniau, animeiddio, cerddoriaeth, iaith, blogiau, blogiau fideo a phodlediadau, codio, datblygu apiau, argraffu 3D a llawer mwy.

Byddai'r amgylchedd ar-lein newydd hwn yn helpu plant i ddarganfod, creu, cysylltu, rhannu a dysgu. Byddai'n dwyn ynghyd holl gynnwys y BBC i blant yn un man a byddai'n ymgorffori cynnwys sy'n apelio i blant gan bartneriaid dibynadwy hefyd. Byddai'n wasanaeth rhyngweithiol lle mae plant yn helpu i greu'r allbwn ac yn cyfrannu eu syniadau eu hunain, gan ddatblygu sgiliau digidol a chreadigol wrth fynd heibio.

Rydym am wneud mathau newydd o raglenni i oedolion ifanc hefyd. Byddwn yn dechrau gyda'r BBC Three newydd. Gan nad sianel ddarlledu fydd hon, ni fydd yn rhaid iddi gynnwys rhaglenni hanner awr ac awr o hyd yn unig. Rydym wedi sefydlu tîm yn Birmingham i ystyried yr hyn a allai weithio orau. Ond rydym yn awyddus i fynd ymhellach, ac ysgogi'r farchnad gynhyrchu y tu allan i Lundain. Byddem yn croesawu cynigion gan ddinasoedd neu ranbarthau a hoffai sefydlu canolfan ragoriaeth ar gyfer cynnwys ar-lein arbrofol. Pe bai digon o ddiddordeb, byddem yn cynnal cystadleuaeth i benderfynu ar y lleoliad, a pha gymorth y gallai'r BBC ei roi.

## 6.6 Cymorth cwricwlwm ledled y DU

Mae gan y BBC rôl hefyd o ran cefnogi addysg fwy ffurfiol—gyda chanllawiau i ddysgwyr ac adnoddau cwricwlwm, sy'n hynod boblogaidd ac y gwneir defnydd helaeth ohonynt. Rydym yn dwyn y rhain ynghyd o dan faner Bitesize, a ddefnyddir gan fwy nag 80% o fyfyrwyr ysgolion uwchradd bob blwyddyn i'w helpu gyda'u haddysg ffurfiol.

Ledled y DU, mae'r cwricwlwm ysgol wedi'i ddatganoli ac yn gynyddol wahanol. Ein bwriad yw datblygu adnoddau cwricwlwm ar gyfer pob Gwlad, gan sicrhau bod yr hyn a gynigiwn i fyfyrwyr yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yr un mor gynhwysfawr â'r hyn a gynigir yn Lloegr. Yng Nghymru, byddwn hefyd yn darparu cynnwys yn Gymraeg.

Yn y maes hwn, rydym yn cydnabod y bydd yn rhaid i ni ddatblygu ein deunydd gan roi ystyriaeth briodol i'r effaith ar ddarparwyr masnachol, a byddwn yn gwneud hynny. Credwn hefyd fel darparwr gwasanaethau i'r DU gyfan y bydd angen i ni sicrhau bod ein gwasanaeth yn y maes hwn yn gyson ym mhob un o bedair Gwlad y DU.

> *The BBC is part of everyone's childhood in this country, from much-loved programmes to being a trusted source of information, helping children and young people learn and discover. This is very positive to see the BBC evolving to enrich education and entertainment for a digitally engaged young audience for now and in the future.*

Anne Longfield, Comisiynydd Plant Lloegr

Drwy'r cynigion hyn, byddem yn ailddyfeisio'r ffordd rydym yn cyflawni cenhadaeth y BBC ym maes addysg.

Byddem yn creu dau wasanaeth newydd—iPlay i blant a'r Gwasanaeth Syniadau i bawb. Byddem yn agored, gan weithio gyda'r sefydliadau diwylliannol, addysgol a deallusol gorau yn y wlad. A byddem yn rhoi pŵer i'n cynulleidfaoedd, boed hynny drwy annog pobl ifanc i chwarae a bod yn greadigol, neu eu rhieni.

7

# Diddanu

Mae pobl yn aml yn meddwl mai John Reith a ddyfeisiodd y triawd, 'hysbysu, addysgu, diddanu'. Ond i David Sarnoff, sef sylfaenydd radio masnachol America, a ysgrifennodd mai ei swyddogaeth oedd "diddanu, hysbysu ac addysgu'r genedl" y dylid rhoi'r clod. Gall Reith hawlio'r clod am aildrefnu'r tri ac hefyd, a hynny'n nodweddiadol, eu troi'n orchmynion.

Esgorodd greddf Reith i symud diddanu i'r trydydd safle ar berthynas hir a throellog rhwng y BBC a'i genres mwyaf poblogaidd.

Mewn llythyr gan ddarllenydd yn y rhifyn cyntaf un o'r *Radio Times* yn 1923 gosodwyd y dôn ar gyfer y dadleuon sydd wedi mynd rhagddynt byth ers hynny:

> *"Frankly, it seems to me that the BBC are mainly catering for the listeners who… pretend to appreciate only and understand only highbrow music and educational and 'sob' stuff. Surely, like a theatre manager, they must put up programmes which will appeal to the majority and must remember that it is the latter that provide the main bulk of their income."*

Mae'r cydbwysedd rhwng cyrraedd pawb a bod yn nodedig wedi parhau mewn theori byth oddi ar hynny, ond cafwyd ateb yn ymarferol yn gynnar iawn. Fel y dywedodd Huw Wheldon, "The BBC's core duty [is] to entertain the public, for the simple reason that unless listeners and viewers found a programme agreeable they wouldn't stay with it long enough to be educated or informed."

Mae diddanu'r genedl yn anwahanadwy oddi wrth genhadaeth y BBC, a bydd yn parhau felly. Drwy ddrama rydym yn adrodd ein stori genedlaethol. Mae comedi yn ystyried y cwestiynau mwyaf annifyr i ni. Mae adloniant yn dod â ni at ein gilydd ac yn rhoi pleser mawr.

Ond yn y meysydd hyn y mae'r farchnad yn newid fwyaf. Mae rhywbeth rhyfeddol yn digwydd. Mae cynnwys o Brydain yn fwy poblogaidd dros y byd nag erioed. Ym meysydd drama ac adloniant, mae rhaglenni a fformatau a ddatblygwyd yn y DU yn teithio'r byd yn fwy nag erioed.

Ar yr un pryd, mae rhaglenni o'r UD mewn genres tebyg yn fwy hygyrch nag erioed, drwy Sky, Netflix, Amazon ac eraill. Mae talent, actorion, cyfarwyddwyr ac awduron bellach yng nghanol diwydiant byd-eang. Ac mae llwyddiant byd-eang drama ac adloniant o Brydain yn sbardun i'r diwydiannau creadigol ehangach.

Felly sut y dylai rôl y BBC ddatblygu yn oes y rhyngrwyd?

Dylem ddechrau gyda drama. I lawer o gynulleidfaoedd dyma'r peth pwysicaf a mwyaf gwerthfawr y maent yn ei ddisgwyl gan y BBC. Fodd bynnag, mae disgwyliadau cynulleidfaoedd ynglŷn ag ansawdd yn mynd yn uwch ac yn uwch wrth i'r farchnad ar gyfer teledu wedi'i sgriptio o'r radd flaenaf fynd yn fyd-eang.


Byddwn yn gwneud rhai o'r rhaglenni drama gorau yn y byd. Byddwn yn cefnogi awduron a chyfarwyddwyr o Brydain. Byddwn yn chwilio am storïau cyfoes, gwreiddioldeb ac amrywiaeth. Ond byddwn hefyd yn ehangu'r arlwy o ddrama a gynigir gennym, gan godi uchelgais greadigol yr hyn a wnawn orau a chystadlu am ansawdd byd-eang. Byddwn yn rhoi cynnig ar ddulliau newydd o ymdrin â drama gyfoes ac ar gyfresi creadigol, cysyniad uchel a all apelio i gynulleidfaoedd iau a rhoi cyfleoedd newydd i ddiwydiant drama'r DU.

Ond beth am yr adloniant ei hun? A dylai'r BBC ddarparu cymaint ag y mae heddiw?

## 7.1 Rôl y BBC i ddiddanu

Pan ofynnir i gynulleidfaoedd nodi'r hyn y maent am ei gael gan y BBC, ar ben y rhestr rhoddant adloniant. Mae dros 80% o'r cyhoedd yn cefnogi cenhadaeth Reith. Yn wir, 'diddanu' yw'r gair sy'n cael y sgôr uchaf pan roddir rhestr o eiriau sy'n gysylltiedig â'r BBC i bobl.

### Safbwyntiau cynulleidfaoedd ynglŷn â chenhadaeth y BBC (%)[64]




Mae ein cynulleidfaoedd wrth eu bodd gyda'n hadloniant. *Strictly Come Dancing* a *The Voice UK* yw dwy o hoff raglenni'r DU, gyda chynulleidfaoedd cyfartalog o rhwng wyth a deg miliwn o wylwyr.[65] Maent yn apelio i bob grŵp oedran a demograffeg, ac yn rhoi gwerth gwych am arian. Daw'r 2% o ffi'r drwydded a wariwn ar adloniant teledu yn 4% o'r holl amser y mae cynulleidfaoedd yn ei dreulio gyda'r BBC.[66]

Rydym yn diddanu mewn ffordd sy'n nodedig ac yn benodol i'r BBC. Wrth ddewis cyflwynwyr, beirniaid a chystadleuwyr, rydym yn adlewyrchu amrywiaeth lawn y DU. Rydym bob amser yn anelu at barchu'r rhai sy'n cystadlu ar ein rhaglenni a'u trin gydag urddas. Mae gan gynulleidfaoedd rhaglenni adloniant y BBC ddisgwyliadau mawr y byddant yn 'dysgu rhywbeth newydd' o'r hyn y maent yn ei wylio, ac yn rhoi sgôr llawer uwch i BBC One nag ITV o ran hyn.[67]

Mae adloniant y BBC wedi bod yn rhan bwysig o'r sector. Ynghyd ag ITV a Channel 4, rydym yn codi'r safon o ran ansawdd ac arloesi. Yn hytrach na chystadleuaeth y BBC yn niweidio eraill, mae rhaglenni adloniant ITV gyda'r nos dros y penwythnos wedi ffynnu yn ystod y degawd diwethaf.

Mae cystadleuaeth am ansawdd yn gweithio. Ac un o'r symptomau amlycaf o hynny yw'r llif dirwystr o dalent. Drwy gydol ein hanes, rydym wedi hyfforddi talent adloniant sydd wedi symud i ddarlledwyr eraill, ac sydd wedi bod o fudd i'r sector cyfan.

64 ICM Unlimited ar ran y BBC, 2,111 o oedolion yn y DU (ar-lein), Tachwedd/Rhagfyr 2014. Dyma rai o'r geiriau y mae pobl eraill wedi'u defnyddio i ddisgrifio'r hyn y teimlant y dylai'r BBC ei wneud. Dewiswch hyd at dri gair sydd fwyaf addas yn eich barn chi.

65 BARB, cyfres ddiwedaraf Strictly Come Dancing 2014, The Voice UK 2015

66 Dadansoddiad y BBC

67 GfK ar ran y BBC, Pulse panel, dydd Sadwrn 1800–2229, 2014/15




*Symudodd **Morecambe and Wise** o BBC One i ITV yn 1978 mewn newid proffil uchel*



*Aeth **Syr Bruce Forsyth** o The Generation Game ar BBC One i ITV a rhaglenni fel Play Your Cards Right a The Price Is Right*



*Ymddangosdd **Ant & Dec** ar raglen oriau brig yn gyntaf gyda Friends Like These BBC One cyn symud i raglenni oriau brig ar ITV a sioeau fel Pop Idol, Britain's Got Talent ac I'm a Celebrity…Get Me Out Of Here!!*



*Symudodd **Alesha Dixon** o fod yn un o gystadleuwyr a beirniaid Strictly Come Dancing i fod yn feirniad ar Britain's Got Talent*




*Gwnaeth **James Corden** gyd-ysgrifennu a serennu yn Gavin & Stacey ar BBC Three a chyd-gyflwyno Sport Relief 2010 ac mae bellach yn cyflwyno The Late Late Show with James Corden ar CBS*

Dylai'r BBC bob amser wneud rhaglenni adloniant, ond llai ohonynt na rhwydweithiau masnachol.

Ond rydym am i'r fformat adloniant byd-eang nesaf gael ei greu ym Mhrydain. Mae ffi'r drwydded yn rhoi'r rhyddid i ni arbrofi. Mae BBC One yn rhoi'r llwyfan i ni brofi'r syniadau newydd hynny.

Felly, byddwn yn gweithio gyda chynhyrchwyr annibynnol ym Mhrydain ac yn sefydlu ein BBC Studios ein hunain—wrth wraidd y BBC—er mwyn dod o hyd i'r llwyddiannau nesaf.

Bydd BBC Stiwdios yn arddel gwerthoedd ac ansawdd y BBC. Ei genhadaeth fydd ysbrydoli cynulleidfaoedd yn y wlad hon a ledled y byd gyda chreadigrwydd beiddgar o Brydain. Bydd yn darganfod ac yn hyrwyddo'r genhedlaeth nesaf o dalent ar y sgrin a'r tu ôl i'r llwyfan ym Mhrydain. Bydd yn ymhyfrydu mewn amrywiaeth ac arbenigedd, gan wneud pob math o genre yn hytrach na'r rhai hynny sydd â'r apêl fasnachol fwyaf yn unig. Bydd yn sicrhau y caiff gwerth llawn cynnwys a wneir gan y BBC ei ddychwelyd i dalwyr ffi'r drwydded. Byddwn yn nodi ein cynlluniau manwl ar gyfer BBC Studios yn ddiweddarach ym mis Medi ac yn ymgynghori â rhanddeiliaid.

7.2

# Cyfuno cynnwys y DU

Erys drama, adloniant a chomedi yn brofiadau ymlaciol, eistedd yn ôl. Dim ond newidiadau ymylol y mae'r rhyngrwyd wedi'u gwneud i'r math o ddrama rydym yn ei gwylio—mae hyd penodau bellach yn addas ar gyfer y stori, yn hytrach na chonfensiynau'r amserlen deledu sefydlog, ond heblaw am hynny, nid yw'r ffurf wedi newid llawer.

Ond mae'r rhyngrwyd eisoes wedi trawsnewid y ffordd y caiff drama a fideo ffurf hir eu dosbarthu, wedi'i ysgogi yn rhannol gan BBC iPlayer. Mae'r broses o ddosbarthu drama a chomedi yn ddigidol wedi arwain at gynnydd yn nifer y grwpiau newydd o gomisiynwyr a dosbarthwyr. Mae wedi annog holl ddarlledwyr y DU i feddwl yn fwy strategol am eu harlwy ar-lein a phwysigrwydd cynnwys premiwm.

Mae'r BBC yn awyddus i archwilio cyfleoedd posibl newydd a chyfuno cynnwys gwreiddiol o'r DU, er mwyn helpu cynulleidfaoedd a'r diwydiant fel ei gilydd. Byddai'r nod yn syml—cynyddu'r traffig i gynnwys gwreiddiol o'r DU, a'r buddsoddiad ynddo.

Ein nod yw cael gwasanaeth fideo sy'n agored i gomisiynwyr cynnwys eraill o'r DU sy'n rhoi màs critigol i'r holl bartneriaid ac sy'n sicrhau nad cytundebau â chwaraewyr byd-eang yw'r unig ffordd i gynhyrchwyr a darlledwyr yn y DU gyrraedd cynulleidfaoedd. Wrth ei wraidd, byddai arlwy am ddim, gyda chynnwys y BBC yn cael ei ariannu o ffi'r drwydded a chynnwys masnachol drwy fodelau busnes eraill. Byddem hefyd yn awyddus i sicrhau ei bod yn bosibl prynu a chadw rhaglenni, fel y gwnawn gyda BBC Store. Un llwybr posibl yw defnyddio'r iPlayer, trosoli ei frand, technoleg a chyrhaeddiad, ond mae atebion posibl eraill, y byddai angen i ni drafod unrhyw un ohonynt a chytuno â phartneriaid.

Rydym am greu llwyfan ar gyfer creadigrwydd Prydain, a phrofiad hyd yn oed yn well ar gyfer cynulleidfaoedd y DU. Mae'r syniadau hyn ar gam cynnar iawn a byddem am eu trafod ag eraill.

## 7.3 Diddanu'r DU gyfan

Er y gwyddom fod cynulleidfaoedd ledled y DU yn edmygu ac wrth eu boddau â drama, comedi a rhaglenni dogfen y BBC, maent hefyd yn dweud wrthym yn glir eu bod o'r farn bod angen i ni wneud mwy i gipio straeon nodedig ein pedair Gwlad.

Felly rydym yn pennu her greadigol glir i'n hunain: addasu'r BBC i DU sy'n newid. Yn y blynyddoedd i ddod rydym am adrodd straeon newydd a gwahanol. Rydym am ddod o hyd i storïwyr newydd ym mhob rhan o'r DU—pobl sy'n byw ac yn anadlu'r dirwedd newidiol. Ac rydym am adrodd y straeon newydd hyn mewn ffyrdd newydd ac mewn llefydd newydd, gan fod technoleg a marchnadoedd yn newid.

Mae gennym fan cychwyn cadarn. Ym mhob Gwlad yn y DU, mae 95% o'r oedolion yn gwneud defnydd o'r BBC bob wythnos.[68] Ac yng nghyfnod y Siarter hon, gwelwyd llwyddiannau nodedig o ran perfformiad y BBC yn y Gwledydd. Er enghraifft, mae cynnydd yn y gyfran o Deledu'r BBC yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban yn golygu bod y BBC yn symud yn agosach at wasanaethu'r holl Wledydd mewn modd mwy cyfartal ar y teledu.[69]

Ni ddylai'r ffaith y gall fod angen gwneud rhagor o newid atal y cynnydd hwn.

Yng Ngogledd Iwerddon, er enghraifft, ceir gwrthgyferbyniad trawiadol rhwng perfformiad y rhwydwaith a pherfformiad lleol. Er bod gwasanaethau rhwydwaith y BBC yno yn parhau i danberfformio o gymharu â chyfartaledd y DU, mae BBC Radio Ulster a Radio Foyle yn cyflawni cyrhaeddiad enfawr.[70]

Yn yr Alban, mae'r amser a dreulir gyda gwasanaethau'r BBC wedi bod yn fwy sefydlog na chyfartaledd y DU.[71] Fodd bynnag, mae'n amlwg bod galw cynyddol am raglennu sy'n gwasanaethu anghenion nodedig yr Alban yn well ac sy'n adlewyrchu bywyd yn yr Alban yn well.[72]

Yng Nghymru, mae gwasanaethau rhwydwaith y BBC yn parhau i berfformio'n gryf ond mae nifer y rhaglennu iaith Saesneg lleol a ddarperir ar draws y BBC ac ITV wedi gostwng yn gyflymach nag mewn unrhyw wlad arall.

Credwn fod angen mynd i'r afael â'r cyflenwad o raglennu'r BBC a rhaglennu a ariennir yn fasnachol ym mhob un o'r Gwledydd.

I ddechrau, byddwn yn gwella'r ffordd rydym yn portreadu ac yn cynrychioli Gwledydd gwahanol y DU ar ein gwasanaethau rhwydwaith ledled y DU.

Yn ail, byddwn yn atgyfnerthu'r gwasanaeth ar gyfer pob Gwlad. Rydym yn bwriadu creu gwasanaeth digidol rhyngweithiol ar gyfer pob un o Wledydd y DU. Drwy greu 'sianeli' wedi'u curadu ar ein gwasanaethau digidol presennol—fel iPlayer—byddwn yn gallu cynnig arlwy unigryw, sy'n galluogi'r BBC i arddangos cynnwys presennol yn ogystal â chynnwys newydd digidol yn gyntaf, gennym ni ein hunain a chan amrywiaeth fwy o bartneriaid.

Ond ni ellir sicrhau buddsoddiad newydd sylweddol mewn amrywiaeth eang o raglennu, fel drama, comedi ac adloniant, o fewn cytundeb presennol y Gyllideb gyda'r Llywodraeth. Fel yr amlinellwn yn y bennod nesaf, byddai angen incwm ychwanegol er mwyn ariannu'r dyheadau hyn.

### Gwasanaethau ieithoedd brodorol

Mae'r BBC yn llwyr ymrwymedig i ddarlledu a darparu gwasanaethau yn ieithoedd lleiafrifol brodorol y DU. Mae'r rhaglenni a'r gwasanaethau a ddarperir gennym ar hyn o bryd—drwy ein gwasanaethau ein hunain ac mewn cydweithrediad â'n partneriaid—yn rhan hanfodol o rôl y BBC. Byddwn yn parhau i gefnogi ein partneriaid strategol allweddol, yn cynnwys S4C, MG ALBA ac NI Screen, ac yn cydweithio'n agos â hwy.

Mewn ymateb i'r heriau cynyddol o ran cynulleidfaoedd a wynebir gan y gwasanaethau hyn, rydym am gydweithio'n agos â'n partneriaid er mwyn symud yn gyflymach ar-lein i gyrraedd cynulleidfaoedd iau, digidol gyda chynnwys sy'n berthnasol i'w bywydau. Byddwn yn defnyddio—ac yn rhannu—technolegau myBBC er mwyn galluogi gwasanaethau mwy personol a all adlewyrchu diddordebau gwahanol a lefelau gwahanol o rugldeb yn well.

68 Arolwg 'Cross-Media Insight' gan GfK, cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog, 2014: Cymru 97%, Gogledd Iwerddon 95%, yr Alban 95%, y DU 97%

69 BARB, 2010/11–2014/15

70 RAJAR, 2014/15

71 BARB, 4+, yr Alban a'r DU, cyfanswm amser wythnosol cyfartalog y BBC y pen, 2010/11–2014/15; RAJAR, 15+, cyfartaledd yr Alban a'r DU, cyfanswm amser wythnosol cyfartalog y BBC y pen, 2007/08–2014/15

72 Arolwg Cylch Gwaith Pwrpasau gan NatCen Social Research ar ran Ymddiriedolaeth y BBC, Cymru 364 , yr Alban 359, Gogledd Iwerddon 358, Lloegr 1,217, hydref 2014


## 7.4 Y chwyldro nesaf yn myd radio

Mae 90% o bobl y DU yn gwrando ar y radio bob wythnos.[73] Mae bron yr holl ddeunydd y gwrandewir arno yn fyw. Drwy bwyso botwm gallwch wrando ar un o'ch hoff orsafoedd, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi yn rheolaidd am draffig, newyddion, chwaraeon a'r tywydd, yn ogystal â rhaglenni cerddoriaeth a llafar o ansawdd uchel.

Ond mae'r ffordd y mae pobl yn gwrando yn newid. Mae cannoedd o filoedd o orsafoedd o bob cwr o'r byd ar gael ar-lein am ddim. Mae dyfeisiau newydd yn rhoi llawer o gynnwys sain yn eich poced. Mae pobl yn dal yn awyddus i gael symlrwydd a chwmnïaeth radio byw ond maent hefyd yn fwyfwy awyddus i'r profiad fod yn fwy personol ac yn fwy o fewn eu rheolaeth, p'un a yw hynny gartref, allan yn yr awyr agored, neu yn y car.

Bydd y BBC yn diwallu'r angen hwn drwy helpu cynulleidfaoedd i greu eu sianeli radio unigol eu hunain, yn seiliedig ar eu hanghenion, beth bynnag y bônt, pa bynnag adeg o'r dydd. Bydd gwrandawyr yn gallu cyfuno cynnwys radio byw ac ar alw y BBC gyda rhestrau chwarae cerddoriaeth a'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am newyddion, chwaraeon, teithio, y tywydd a hysbysiadau eraill. Byddwn hefyd yn gwneud argymhellion personol yn seiliedig ar arferion a dewisiadau gwrandawyr.

Mae hyn yn golygu y bydd gwrandawyr yn gallu cael gafael ar eu hoff gynnwys sain mewn un lle, ond hefyd ddarganfod pethau newydd sy'n cyd-fynd â'u chwaeth a'u hanghenion, heb orfod chwilio drwy filoedd o raglenni. Bydd yn cefnogi amserlenni amrywiol sy'n cymysgu deunydd llafar, cerddoriaeth a newyddion. Bydd yn helpu pobl i ddarganfod holl ehangder creadigrwydd a newyddiaduraeth Brydeinig ar Radio'r BBC, gan eu galluogi i wrando ar newyddion a radio lleol a'r Gwledydd ynghyd â'n gorsafoedd cenedlaethol a'r World Service. Holl Radio'r BBC rydych am ei gael, yn eich poced, gartref neu allan yn yr awyr agored.




73 RAJAR, 15+, 2014/15

## 7.5 Gwasanaeth darganfod cerddoriaeth newydd gan y BBC

TY BBC yw'r darlledwr cerddoriaeth pwysicaf yn y byd.

Dyma ein genre mwyaf yn ôl maint, gyda thros 40,000 o oriau o gynnwys bob blwyddyn. Mae gennym ymrwymiad unigryw iawn i bob math o gerddoriaeth, hen a newydd, ac i gefnogi ac arddangos yr amrywiaeth eang o genres cerddoriaeth. Mae ein rôl fel y prif guradur cerddoriaeth annibynnol yn bosibl oherwydd y ffaith ein bod yn cyflogi rhai o'r arweinwyr cerddoriaeth yr ymddiriedir ynddynt fwyaf yn y byd y mae ein cynulleidfaoedd yn eu caru a'u parchu.

Mae'r BBC wedi cefnogi diwydiant cerddoriaeth y DU o'r cychwyn cyntaf, gan chwarae rhan ganolog yn iechyd ac egni cerddoriaeth o'r DU—mae'r DU yn un o ddim ond tri allforiwr cerddoriaeth net yn fyd-eang. Ni yw deiliad trwydded cerddoriaeth unigol mwyaf y DU a chyflogwr mwyaf cerddorion proffesiynol. Drwy fentrau arloesol fel *BBC Introducing* a *New Generation Artists* Radio 3, rydym yn cyflwyno talent newydd i'r brif ffrwd.

Ond mae'n rhaid i ni addasu er mwyn sicrhau ein bod dal yn berthnasol i gynulleidfaoedd, ac yn dal yn gonglfaen i'r diwydiant cerddoriaeth ehangach.

Mae'r twf cyflym mewn mynediad digidol ac ar-lein i gerddoriaeth yn gyfrifol am newid sylweddol yn niwydiant cerddoriaeth y DU ac mae'n effeithio ar sut mae cynulleidfaoedd yn defnyddio ein gwasanaethau cerddoriaeth. Mae'n rhaid i ni ddatblygu ein harlwy cerddoriaeth er mwyn sicrhau ei bod yn gwasanaethu anghenion ac arferion newydd cynulleidfaoedd ac yn ein galluogi i barhau i fod yn bartner a chyfrannwr cadarn i sector creadigol y DU.

I'r perwyl hwnnw, rydym wedi datblygu cynnig cerddoriaeth ddigidol gyda'r diwydiant cerddoriaeth, sy'n adeiladu ar Playlister BBC Music. Byddai'n golygu bod y 50,000 o ganeuon y mae'r BBC yn eu darlledu bob mis ar gael i wrando arnynt ar-lein, am gyfnod cyfyngedig. Byddai cynulleidfaoedd yn gallu cael gafael ar y gerddoriaeth hon drwy restrau chwarae wedi'u curadu gan y BBC, a byddent yn gallu adeiladu eu rhestrau chwarae eu hunain yn seiliedig ar y gerddoriaeth y maent yn ei chlywed a'i charu ar y BBC.

Drwy'r cynnig cerddoriaeth ddigidol hwn, byddem yn ailddyfeisio ein rôl fel arweinydd yr ymddiriedir ynddo, mewn partneriaeth â'n cynulleidfa ynghyd â'r diwydiant cerddoriaeth yn y DU. Gyda'n gilydd, byddai'r BBC a'i gynulleidfaoedd yn curadu cerddoriaeth mewn ffyrdd newydd, gan sicrhau y gellir darganfod mwy o'r holl gerddoriaeth rydym yn ei chwarae ym mhob un o amserlenni ein gorsafoedd radio a sianeli teledu niferus.

Byddem yn sicrhau bod y cynnyrch hwn yn hyrwyddo cerddoriaeth newydd o'r DU, p'un a yw hynny'n golygu y dalent ddiweddaraf sydd heb ei darganfod o *BBC Introducing* neu berfformiad clasurol o gerddoriaeth newydd wedi'i chomisiynu a'i darlledu gan Radio 3. Byddem hefyd yn ei ddefnyddio i gynyddu ein cefnogaeth ar gyfer genres arbenigol, artistiaid a labeli annibynnol—y rhai hynny a gaiff lai o gefnogaeth gan y farchnad darlledu a digidol ehangach ond y ceir cynulleidfaoedd brwdfrydig ar eu cyfer. Byddem yn gwneud hyn drwy gynnwys eu cerddoriaeth yn amlwg yn y rhestrau chwarae rydym yn eu curadu, a byddem yn ychwanegu at yr amrywiaeth o ganeuon a ddarlledir drwy gynnig cyfran benodol o gerddoriaeth ganddynt hwy, nad yw wedi'i chwarae ar wasanaethau'r BBC o'r blaen.

Byddai perfformiadau byw arbennig ac unigryw yn rhan fawr o'n gwasanaeth, p'un a yw o'r *Live Lounge*, yn berfformiad o *Radio 1's Big Weekend*, neu'n glasur anghofiedig o'n harchif glasurol. Bydd caneuon hefyd yn cysylltu'n ôl i'w darllediad gwreiddiol ar y BBC, gan alluogi cynulleidfaoedd i ddarganfod mwy o raglennu radio a theledu ffurf hir.

Ein cynnyrch cerddoriaeth fyddai'r unig un yn y farchnad a fyddai'n gwbl agored ac wedi'i integreiddio â darparwyr digidol eraill. Bydd defnyddwyr yn gallu trosglwyddo rhestrau chwarae rhwng cynhyrchion cerddoriaeth ddigidol, a chael gafael arnynt ar ôl i'r argaeledd ar y BBC ddod i ben drwy ddarparwyr trydydd parti.

Rydym am i'n harlwy cerddoriaeth ddigidol fod o fudd i gynulleidfaoedd ac artistiaid. Rydym yn cydweithio â'r diwydiant er mwyn datblygu'r cynnig hwn mewn ffordd sy'n cyflawni'r nod hwnnw, p'un a yw hynny drwy ddarparu'r gynulleidfa gyntaf ar gyfer artist sydd heb gael contract recordio eto neu sydd heb ei ddarganfod eto, neu drwy weithio i drwyddedu'r cynnyrch hwnnw mewn ffordd sy'n deg i artistiaid. Gallwn hefyd edrych ar ffyrdd o ddefnyddio ein sgiliau curadu digidol yn fyd-eang, gan arddangos y gerddoriaeth orau yn y DU i gynulleidfaoedd ledled y byd.

Byddai'r cynnyrch darganfod cerddoriaeth nodedig hwn yn golygu y gallai'r BBC barhau i fod yn gatalydd allweddol i'r diwydiant cerddoriaeth yn y DU, ac y byddai'n rhan o ddyfodol digidol cyffrous i gerddoriaeth ar y BBC.

> *Music is at the heart of the BBC, from their programmers and presenters through to their programming and live output, throughout their digital and broadcast arenas. I firmly believe the BBC respects and values music more than any other broadcaster in the world.*

David Joseph, Cadeirydd a Phrif Swyddog Gweithredol Universal Music UK

Bydd hon yn Siarter o drawsnewid.

Nid ydym yn gwybod pa mor llwyddiannus fydd yr arloesedd hwn. Byddwn yn cau'r rhai sy'n methu, ac yn ehangu'r rhai sy'n gweithio. Mewn amser, gall y straeon llwyddiant hynny olygu nad oes angen rhai o'r gwasanaethau presennol arnom mwyach. Efallai y bydd newyddion wedi'i ffrydio yn disodli newyddion treigl. Efallai y bydd plant yn ffafrio iPlay dros deledu amserlen. Efallai y bydd y Gwasanaeth Syniadau yn golygu na fydd angen BBC Four arnom mwyach.

Mewn byd delfrydol, byddem yn symud gyda'r gynulleidfa. Er bod llawer o'r gynulleidfa yn defnyddio cynnyrch mewn ffyrdd newydd, mae rhan fawr ohoni yn dal i fwynhau radio a theledu fel y maent bob amser wedi'i wneud—yn fyw a thrwy sianelau. Ar gyfer y Siarter nesaf, mae angen i ni wasanaethu'r ddwy gynulleidfa.

Gyda phopeth arall yn gyfartal, byddem felly'n ychwanegu'r arloesedd hwn at ein portffolio i ddechrau, a dim ond yn cael gwared ar wasanaethau yn raddol pan na fyddai cynulleidfaoedd eu hangen mwyach.

Ond mae hynny'n dibynnu ar gyllid.

# RHAN TRI:
# ARIANNU'R DYFODOL

# 8 Ariannu BBC y dyfodol

Yn yr adran hon byddwn yn dechrau drwy amlinellu cyd-destun ariannol y BBC.[74] Byddwn yn cynnal adolygiad cryno o'n cofnod arbedion effeithlonrwydd ac yn disgrifio ein cynlluniau ar gyfer rhagor o arbedion effeithlonrwydd yn y dyfodol drwy ein fframwaith 'Cystadlu neu Gymharu'. Byddwn yn amlinellu ein cynlluniau i gynyddu ein hincwm masnachol a'r anghenion buddsoddi ar gyfer y cynigion yn y ddogfen hon.

Yn Adran 8.6 rydym yn dwyn hyn ynghyd er mwyn nodi sut rydym yn bwriadu ariannu ein buddsoddiadau arfaethedig a'r heriau y bydd hyn yn eu creu. At ei gilydd, bydd angen i ni gyflawni arbedion blynyddol sy'n cyfateb i tua 3.5% o'n sylfaen costau—arbediad cronnol o bron i 20% dros bum mlynedd. Ni fydd hyn yn hawdd a bydd angen gwneud newidiadau i'n gwasanaethau.

74 Oni nodir yn wahanol, cymerir y data yn y bennod hon o ddadansoddiad ariannol y BBC, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC ar gyfer 2014/15 a 'Driving efficiency at the BBC', Tachwedd 2014

# 8.1 Cyd-destun ariannol y BBC

Fel y cyhoeddwyd ar adeg y Gyllideb ddiwethaf, mae'r Llywodraeth a'r BBC wedi cytuno ar fframwaith i ariannu ffi'r drwydded ar gyfer y cyfnod o 2017/18. Mae hyn yn cynnwys nifer o newidiadau a fydd yn effeithio ar refeniw y BBC.

O dan y Siarter bresennol, mae'r Llywodraeth yn digolledu'r BBC am gost trwyddedau ffi'r drwydded i bobl dros 75 oed. Caiff hyn ei ddileu'n raddol dros dair blynedd, o 2018/19. Gall y BBC ofyn am daliadau gwirfoddol gan bobl dros 75 oed yng nghyfnod y Senedd hon a diwygio'r polisi o 2020.

Yn gyfnewid am hynny, bydd y Llywodraeth yn cynyddu incwm y BBC mewn tair ffordd:

- Moderneiddio ffi'r drwydded, er mwyn ei haddasu i gwmpasu gwasanaethau Fideo ar Alw darlledu cyhoeddus yn ogystal â theledu byw
- Dileu'n raddol yr arian 'a neilltuwyd' o ffi'r drwydded a ddefnyddir i gefnogi'r broses o gyflwyno band eang
- Codi ffi'r drwydded yn unol â chwyddiant (Mynegai Prisiau Defnyddwyr) dros gyfnod nesaf y Siarter, yn amodol ar gasgliadau'r Arolwg o'r Siarter ar ddibenion a chwmpas y BBC, a'r BBC yn ymgymryd ag arbedion effeithlonrwydd sy'n cyfateb i'r rhai a ddisgwylir o rannau eraill o'r sector cyhoeddus.

Mae effaith y newidiadau hyn yn ansicr, ond credwn y byddant yn profi i fod yn niwtral o ran arian parod i'r BBC. Fodd bynnag, mae hyn yn cyfateb i tua 10% o doriad mewn termau real oherwydd effaith chwyddiant.

Er mwyn amsugno chwyddiant a lefelau buddsoddi arferol yn ogystal ag ariannu rhywfaint o arloesedd, bydd y BBC yn parhau i gyflawni arbedion. Ond bydd angen cyfuniad o ail-flaenoriaethu gwasanaeth, twf masnachol a newidiadau polisi er mwyn mantoli'r cyfrifon ac ariannu'r syniadau a nodir yn y ddogfen hon.

Mae'n anochel y bydd hyn yn golygu newidiadau i'n portffolio.

Ochr yn ochr â chytundeb y Gyllideb, daeth adolygiad y Llywodraeth ar orfodi ffi'r drwydded deledu, a gynhaliwyd gan David Perry CF, i'r casgliad na ddylid dad-droseddoli achosion o osgoi ffi'r drwydded a bod y system bresennol yn gymharol deg, cymesur ac yn cynnig gwerth da i dalwyr ffi'r drwydded a threthdalwyr.

Byddwn yn gweithredu argymhellion yr adolygiad ar sut i wella ein polisïau gorfodi presennol a hefyd yn trafod y newidiadau eraill a argymhellir gyda'r Llywodraeth.

Nid yw ein cynlluniau ariannol yn ystyried dad-droseddoli posibl. Fel y nododd ein hymateb i'r adolygiad, byddai symud i fodel sifil yn debygol o arwain at effaith ariannol o tua £200m y flwyddyn ar dalwyr ffi'r drwydded. Pe byddai dad-droseddoli yn cael ei gyflwyno yn absenoldeb unrhyw fesurau digolledu, byddai angen gwneud toriadau dwys i gynnwys y BBC a'i fuddsoddiad yn y sector creadigol.

# 8.2 Mae'r BBC wedi trawsnewid ei effeithlonrwydd


Dros yr 20 mlynedd diwethaf, mae'r BBC wedi trawsnewid ei effeithlonrwydd a'i gynhyrchiant, gan ddarparu mwy o wasanaethau am lai, ac mae bellach mor effeithlon â sefydliadau cymharol.

Yn y 1990au, cynhaliodd y BBC y rhaglen marchnadeiddio fwyaf radical yn y sector cyhoeddus.

Cyflwynodd Dewis y Cynhyrchydd gystadleuaeth ar gyfer popeth o stiwdios i ddiogelwch. Sicrhaodd Deddf Darlledu 1990 fod o leiaf 25% o gynnwys teledu wedi'i wneud gan gynhyrchwyr annibynnol, a chyflwynodd y BBC raniad prynwr-darparwr pendant er mwyn rhoi hynny ar waith. Yr effaith gyfunol oedd difidend arbedion effeithlonrwydd uniongyrchol a sylweddol o fwy na 6% y flwyddyn rhwng 1993 a 2000.

Ar ôl cywain y prif arbedion o'r diwygiadau strwythurol hyn, yna trodd y BBC at raglenni gwelliant parhaus, gan arwain at welliant cyfartalog o 4% y flwyddyn. Mae ein cofnod arbedion effeithlonrwydd ymhell ar y blaen i'r sector cyhoeddus hyd yn oed ar ôl ystyried cost gwneud y newidiadau.

### Arbedion effeithlonrwydd net blynyddol cronnol rhwng 2005/06 a 2014/15





Ar ôl cymryd y cyfrifoldeb o gasglu ffi'r drwydded oddi wrth y Swyddfa Gartref yn 1991, torrodd y BBC y lefel osgoi a'r gost casglu fwy na hanner. Mae cost gyfunol casglu ac osgoi talu bellach tua 8% o ffi'r drwydded—gostyngiad o 18% bron yn 1991/92. Ychwanegodd twf aelwydydd dros y cyfnod incwm pellach o c.0.7% y flwyddyn, neu tua phedair miliwn o aelwydydd dros 24 o flynyddoedd.

Gwnaethom fuddsoddi'r difidend arbedion effeithlonrwydd hwnnw mewn arloesedd. Er i'r BBC grebachu mewn perthynas â'r farchnad, cododd ei werth i gynulleidfaoedd. Gostyngodd ein cyfran o refeniw darlledu o tua 40% i 25%—ond roedd cyrhaeddiad a chyfran y BBC o ran teledu a radio yn sefydlog. O ganlyniad, cynyddodd y gefnogaeth gan y cyhoedd.

Ond ar ôl yr argyfwng ariannol yn 2008, roedd yn bryd rhewi ffi'r drwydded. Roedd yr aelwydydd yn cael trafferth ymdopi, a byddent wedi croesawu'r arbediad. Felly, arweiniodd y BBC y sector cyhoeddus drwy rewi ffi'r drwydded yn wirfoddol yn 2011/12 a gofynnodd y Llywodraeth i hynny barhau hyd at 2016/17. O ganlyniad, mae ffi'r drwydded wedi gostwng mewn termau real tra bod costau eraill i aelwydydd wedi cynyddu'n sylweddol.

## Mynegai o gynnydd mewn prisiau nwyddau a gwasanaethau a ddewiswyd o fewn categorïau

*(2009–2014), prisiau nominal*[75]




Roedd yn rhaid i ffi'r drwydded hefyd dalu am £500m o rwymedigaethau newydd y flwyddyn. Arweiniodd y setliad hwnnw ar gyfer ffi'r drwydded at ymgyrch newydd i wneud arbedion, rhaglen Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf, i dalu am y rhwymedigaethau newydd a gwrthbwyso pwysau chwyddiannol yn y sylfaen costau.

Erbyn diwedd y Siarter hon, byddwn wedi arbed £1.6bn mewn arbedion blynyddol cronnol, mwy na 40% o sylfaen costau'r BBC y gellir mynd i'r afael ag ef.

Mae'r mwyafrif o'r arbedion hyn wedi deillio o welliannau gwirioneddol mewn cynhyrchiant:

- Cafwyd mwy na £90m o arbedion caffael yn 2013/14 yn unig drwy ail-gaffael prif gontractau a sicrhau bod y BBC yn talu prisiau cystadleuol. Dyfarnwyd safon 'aur' i brosesau caffael y BBC gan y Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi a daeth adolygiadau annibynnol i'r casgliad ei fod yn y 25% uchaf o gwmnïau ar gyfer effeithiolrwydd.
- Cafwyd arbedion eiddo o £75 y flwyddyn drwy ostwng capasiti ein hadeiladau 35%. Mae hyn yn cynnwys gadael y Ganolfan Deledu (gan arbed £30m y flwyddyn) ac adeiladau eraill yn White City
- Rydym yn sicrhau arbedion gwasanaethau technoleg o fwy na £90m yn y ddwy flynedd rhwng 2015 a 2017
- Gwnaethom weithredu proses diwygio pensiynau a arweiniodd y sector cyhoeddus, yn cynnwys cau'r cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig i newydd-ddyfodiaid a chyfyngu ar y modd y mae buddiannau yn cronni i aelodau presennol. Ar y pryd, gostyngodd y diwygiadau ddiffyg cyllido'r cynllun pensiwn tua £0.5bn
- Mae ein cyfyngiad ar gyflogau, wedi'u gyfuno â gostyngiad yn nifer y staff, wedi sicrhau mwy na £150m y flwyddyn drwy leihau costau
- Ers 2009, rydym wedi gostwng nifer yr uwch reolwyr a'r bil ar eu cyfer fwy na thraean, gan arbed mwy na £20m y flwyddyn. Mae'r taliadau diswyddo wedi cael eu capio.

75 Mediatique, Index of cultural inflation, 2015

*I have to testify that the BBC have done, in my view, a good job of addressing their cost structure. They have been successful with their cost reduction work over a period of time; they have set targets and they have achieved them. I am impressed with that and we have reported on it on various occasions and always given positive comment about it. The criticism I have always made of it is that it does not tend to have what I call a destination model.*

Syr Amyas Morse, Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Genedlaethol, yn y Pwyllgor Dethol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Gorffennaf 2014

Mae'r BBC wedi datblygu ac mae bellach yn rhoi strategaeth 'Cystadlu neu Gymharu' ar waith er mwyn sicrhau bod 'modelau cyflawni' clir ar gyfer ein gweithgareddau a diwylliant o welliant parhaus.

Mae PwC wedi cymharu gorbenion y BBC â meincnodau'r diwylliant. Gwnaethant ganfod bod y BBC yn cymharu'n dda—rydym yn agos at y 25% uchaf o ddiwydiannau a gaiff eu rheoleiddio ar gyfer gwariant ar orbenion cyffredinol, ac yn llawer uwch na'r cyfartaledd o gymharu â chwmnïau cyfryngau.[76]


Ym mis Gorffennaf, gwnaethom gyhoeddi y byddem yn dod o hyd i £50m yn rhagor o arbedion effeithlonrwydd cynhyrchiol erbyn 2017/18. Byddwn yn uno isadrannau, yn dileu haenau rheoli ac yn gwella prosesau. O ganlyniad, caiff mwy na 1,000 o swyddi eu colli.

Yn dilyn y camau hyn, bydd ein gorbenion yn y 25% uchaf o gymharu â meincnodau cwmnïau sy'n gweithredu mewn diwydiannau a gaiff eu rheoleiddio.

76 PwC, BBC Efficiency Review—An update on the BBC's overheads, Gorffennaf 2015

## Cymhareb gorbenion, y BBC o gymharu â'r sector cyhoeddus a chyrff a gaiff eu rheoleiddio[77]

*Cymhareb gorbenion (Costau gorbenion / cyfanswm y costau)*




Mae eisoes angen i'r BBC ddod o hyd i arbedion ychwanegol o fwy na £150 y flwyddyn erbyn 2017/18 er mwyn mynd i'r afael â'r gostyngiad mewn cyfraddau treiddio teledu hyd at ddiwedd y setliad hwn ar gyfer ffi'r drwydded. Mae'r gostyngiad hwnnw mewn cyfraddau treiddio teledu yn dal i fod yn risg yng nghyfnod y Siarter newydd, er bod moderneiddio ffi'r drwydded yn lliniaru hyn rywfaint. Fel yr amlinellir uchod, rydym wedi cyhoeddi cynlluniau i ariannu o leiaf £50m o'r arbedion hyn drwy arbedion effeithlonrwydd cynhyrchiol pellach i gefnogi swyddogaethau a haenau rheoli, ond mae'n anochel y bydd angen gwneud rhai newidiadau yn ein gwasanaethau er mwyn cau'r bwlch hwn.

Bydd angen diwygiad radical er mwyn sicrhau'r arbedion ychwanegol sy'n ofynnol yn ystod cyfnod y Siarter hon (mwy na £150m y flwyddyn) yn ogystal â'r arbedion effeithlonrwydd arfaethedig ar gyfer y dyfodol (cynhyrchiol, cymysgedd amserlennu ac ail-flaenoriaethu). O ystyried hanes y BBC o sicrhau arbedion, mae'n anochel y bydd yn anoddach sicrhau arbedion newydd yn y dyfodol.

77 Ibid.

## 8.3 Proses yw effeithlonrwydd, yn hytrach na diwedd y daith

Er hyn, byddwn yn parhau i wella ein heffeithlonrwydd dros gyfnod y Siarter nesaf.

Gyda chytundeb cymharol niwtral o ran arian parod ar gyfer y Gyllideb, bydd yn rhaid i'r BBC sicrhau arbedion effeithlonrwydd er mwyn rheoli chwyddiant yn ein sylfaen costau presennol a chyllido lefelau arferol o fuddsoddiad mewn gwariant cyfalaf.

Er bod y BBC wedi ceisio lliniaru effaith chwyddiant drwy gontractau pris sefydlog hirdymor er enghraifft, fel arfer, nid ydym yn rhydd rhag y pwysau chwyddiannol sy'n effeithio ar y diwydiant cyfryngau a'r economi cyffredinol. Mewn sawl maes, mae'r BBC yn gweithredu mewn marchnad fyd-eang lle nad ydym yn rheoli'r prisiau. Rydym yn wynebu pwysau sylweddol o ran cost mewn nifer gynyddol o genres; nid dim ond hawliau chwaraeon, ond bellach mewn meysydd fel drama, hanes naturiol a sgiliau digidol, o ystyried y gystadleuaeth fyd-eang ddwys ar gyfer y syniadau a'r dalent orau.

Gofynnodd Ymddiriedolaeth y BBC a'r BBC i PwC, fel rhan o'i waith ar effeithlonrwydd y BBC, i edrych ar y gyfradd effeithlonrwydd bosib ar gyfer y dyfodol y gallai'r BBC ei chyflawni o arbedion effeithlonrwydd cynhyrchiol yn unig. Gwerthusodd PwC beth y mae sefydliadau eraill yn ei wneud, tueddiadau'r farchnad, meincnodau allanol a pha gyfleoedd y gellir eu nodi o adolygiad manwl o feysydd o'r sylfaen costau.

Mae gwaith PwC sy'n cydnabod hanes hir y BBC o sicrhau arbedion effeithlonrwydd yn golygu bod y cyfleoedd ar gyfer y dyfodol yn anochel yn fwy cyfyngedig na'r hyn a gafwyd yn y gorffennol. Maent yn cynghori y dylem geisio cyflawni tua 1% o arbedion effeithlonrwydd cynhyrchiol blynyddol, er y bydd hyn yn golygu llawer o ailstrwythuro a newidiadau sylweddol i arferion gwaith. Byddwn yn cyhoeddi eu gwaith maes o law.

Ni fydd hyn yn ddigon i ariannu ein pwysau chwyddiannol presennol a'n gwariant cyfalaf parhaus. Bydd newidiadau yn y cymysgedd amserlennu, lle y byddwn yn ceisio cael yr effaith leiaf posibl ar y gynulleidfa, ynghyd â gwaith gofalus o reoli chwyddiant yn ein contractau hirdymor, yn sicrhau rhagor o arbedion effeithlonrwydd o tua 1% y flwyddyn dros y cyfnod, yn ogystal â'r rhai a nodwyd gan PwC.

Rydym yn dal i fod yn ymrwymedig i sicrhau ein bod yn gwario cymaint â phosibl ar gynnwys. Byddwn yn defnyddio cystadleuaeth lle y bo'n bosibl, ac yn cymharu lle nad yw'n bosibl. Prif ysgogydd 'Cystadlu neu Gymharu' yw sicrhau'r gwerth gorau i dalwyr ffi'r drwydded—gan sicrhau ein bod yn cyflawni'r canlyniad gorau am y gost isaf.

Ar hyn o bryd, mae tua dwy ran o dair o gostau'r BBC yn agored i ryw fath o weithgarwch profi'r farchnad a byddwn yn cynyddu hynny tuag at 80%. Yn amodol ar dderbyn ein cynigion ar gyfer BBC Studios, byddwn yn dileu'r gwarantau mewnol sydd wedi diogelu cynyrchiadau teledu. Bydd rhai eithriadau, fel newyddion neu chwaraeon, lle mae model cynhyrchu integredig yn hanfodol ar gyfer ansawdd.

O ran radio, rydym yn archwilio ffyrdd o gynyddu'r cyfleoedd i gynhyrchwyr annibynnol greu cynnwys, gan agor cystadleuaeth ym mhob maes lle ceir buddiannau creadigol neu economaidd. Gallai'r cynigion hyn, sy'n amodol ar gymeradwyaeth yr Ymddiriedolaeth, arwain at gystadleuaeth am tua 60% o oriau radio rhwydwaith cymwys. Dylai cynhyrchwyr radio annibynnol allu tyfu'n sylweddol, gan gynyddu cynaliadwyedd y sector. Byddai cynyrchiadau radio mewnol y BBC yn cael symbyliad creadigol, gan sicrhau bod ansawdd y syniadau a'r cynhyrchu ar y lefelau uchaf posibl o hyd.

Mewn cynnwys ar-lein, ein nod fyddai sicrhau cymaint o gystadleuaeth â phosibl mewn allbwn golygyddol. Gallai 60%–70% o'r gwariant ar gynnwys ar-lein (h.y. bron yr holl wariant ar gynnwys nad yw'n newyddion ac nad yw'n chwaraeon) fod yn agored ar gyfer cystadleuaeth erbyn diwedd cyfnod y Siarter nesaf. Mae ffi'r drwydded wedi helpu i greu sector cynhyrchu teledu o'r radd flaenaf a hoffem wneud yr un peth ar gyfer cynnwys ar-lein a chynnwys cysylltiedig. Dim ond crafu'r wyneb yr ydym wedi'i wneud o ran canfod sut y bydd y rhyngrwyd yn newid y cynnwys a wnawn. Rydym am weithio gyda thalent greadigol o Brydain o ddarparwyr presennol i academyddion a'r cyhoedd i ymchwilio i'r potensial hwnnw ar gyfer cynulleidfaoedd a chwmnïau.

Lle na allwn ddefnyddio cystadleuaeth, byddwn yn cymharu. Lle y mae gan y sector preifat feincnodau perthnasol, byddwn yn eu defnyddio. Rydym yn disgwyl gallu cwmpasu bron i 90% o'n sylfaen costau drwy naill ai gystadleuaeth uniongyrchol neu gymhariaeth a meincnodi manwl.

Bydd y rhaglen hon yn ddull systematig a ddefnyddir ar gyfer pob eitem fawr o wariant gan y BBC dros gyfnod o bum mlynedd. Bydd yn darparu'r model

arbedion effeithlonrwydd delfrydol y mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi gofyn amdano, ac y mae'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol yn cyfeirio atynt uchod. Byddai'n cynrychioli arfer gorau yn y sector cyhoeddus, ac yn cymharu'n dda ag arweinwyr yn y sector preifat a gaiff ei reoleiddio.

Mae'r angen i ddefnyddio ein harbedion effeithlonrwydd cynhyrchiol, dulliau lliniaru chwyddiant a newidiadau i'r cymysgedd amserlenni er mwyn ariannu pwysau chwyddiannol presennol a diwygio seilwaith yn barhaus yn golygu bod angen i unrhyw arian ar gyfer buddsoddiadau newydd ddod naill ai o incwm masnachol uwch, incwm uwch o ffi'r drwydded neu ail-flaenoriaethu gwasanaethau.

## 8.4 Byddwn yn cynyddu ein hincwm masnachol

Dros y 25 mlynedd diwethaf, mae gweithgareddau masnachol y BBC wedi tyfu o fod yn fusnes cymharol fach i fod yn arweinydd byd-eang. Yn 1989, roedd trosiant BBC Enterprises yn cyfateb i £368m ym mhrisiau heddiw, gan greu £25m o elw masnachu. Heddiw, mae trosiant BBC Worldwide yn £1bn ac mae ei brif elw yn £139m. Ef yw'r dosbarthwr rhaglenni teledu mwyaf yn y byd, y tu allan i stiwdios yr UD.

Fodd bynnag, am yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae BBC Worldwide wedi cael ei redeg yn bennaf ar gyfer difidend a chyfraniad, yn hytrach na thwf. Heb y difidend hwn, ni fyddai gennym wasanaethau'r BBC sydd gennym heddiw. Er mwyn ymdopi â setliad olaf ffi'r drwydded, gofynnodd y BBC i BBC Worldwide helpu i lenwi'r bwlch. Mae wedi gwneud hyn yn llwyddiannus, gan gynyddu cyfanswm yr enillion i'r BBC 6.2% y flwyddyn, o £168m yn 2009/10 i £226m yn 2014/15, gan roi mwy yn ôl i'r BBC nag erioed o'r blaen. O fewn hynny, cynyddodd buddsoddiad BBC Worldwide mewn cynnwys a gomisiynwyd gan y BBC o £71m yn 2009/10 i £94m yn 2014/15.

Mae busnes craidd BBC Worldwide yn buddsoddi yn rhaglenni'r BBC ac yn eu dosbarthu, p'un a ydynt wedi'u gwneud gennym ni neu gan gynhyrchwyr annibynnol. Mae'r busnes hwnnw wedi cynyddu refeniw 10% y flwyddyn o £215m yn 2009/10 i £345m yn 2014/15. Bydd buddsoddi mewn cynnwys newydd i fwydo ein busnes gwerthu a dosbarthu yn un o brif flaenoriaethau BBC Worldwide dros y pum mlynedd nesaf. Wrth gwrs, pe byddai'n rhaid i ni dorri buddsoddiad yn rhaglenni'r BBC, byddai hynny hefyd yn lleihau ein henillion masnachol gan BBC Worldwide.

Rydym wedi creu portffolio sianelau byd-eang llwyddiannus, sydd, ar y cyd, wedi cynyddu o refeniw o £263m yn 2009/10 i £357m yn 2014/15. Yr elfennau pwysicaf o'n portffolio o sianelau yw BBC America, sydd bellach yn fenter ar y cyd ag AMC Networks, ac UKTV, menter ar y cyd â Scripps. UKTV yw'r bwndel mwyaf o sianelau nad ydynt yn rhan o'r system darlledu cyhoeddus, ac mae ei refeniw wedi cynyddu o £229m yn 2010 i £283m yn 2014. Dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, rydym yn bwriadu cydweithio â'n partneriaid er mwyn datblygu ein portffolio o sianelau ymhellach, manteisio ar y galw parhaus am raglennu'r BBC a chyfleoedd digidol newydd, yn enwedig mewn marchnadoedd Saesneg eu hiaith.

Byddwn yn ychwanegu dwy fenter newydd at y gweithgarwch craidd hwnnw.

I ddechrau, byddwn yn symud ein busnes defnyddwyr i fod yn ddigidol. Mae'r farchnad ar gyfer gwerthiannau ffisegol, DVDs yn fwyaf amlwg, yn dirywio'n gyflym, sy'n effeithio ar y BBC, fel pawb arall.

Rydym wedi gwneud iawn am rywfaint o'r dirywiad hwnnw drwy syndicetio cynnwys i Netflix ac Amazon Prime yn y DU a thramor.

Yn y DU, byddwn nawr hefyd yn gwerthu rhaglenni ar-lein, drwy BBC Store. Sicrhawyd bod hyn yn bosibl

drwy gytundeb newydd â PACT—y corff masnach ar gyfer cynhyrchwyr annibynnol—yn 2013. Gwnaethom gytuno i sicrhau bod rhaglenni ar gael am gyfnod hwy ar yr iPlayer—cynnydd o saith i 30 diwrnod—ond yna alluogi defnyddwyr i dalu i'w prynu ar-lein. Bellach, bydd y rhain ar gael drwy BBC Store yn ogystal ag iTunes, Amazon ac eraill. Nod BBC Worldwide yw parhau i ymchwilio i amrywiaeth o lwybrau marchnata digidol newydd dros y cyfnod nesaf, gan geisio ffyrdd newydd o wasanaethu cynulleidfaoedd a chynyddu gwerth i gynhyrchwyr cynnwys.

Mae BBC Worldwide mewn sefyllfa gadarn i dyfu yn ddigidol yn fyd-eang oherwydd cryfder ein brand a gwerthfawrogiad y gynulleidfa o'n cynnwys: rhwng 2011 a 2014, cynyddodd refeniw digidol y BBC o farchnad yr UD 35%, sy'n llawer cyflymach na marchnad fideos digidol ehangach yr UD, a gynyddodd 22% ar gyfer yr holl ddosbarthwyr. Rydym am wthio hyn ymhellach.

Yn ail, byddwn yn sicrhau bod gan ein mentrau masnachol lif cryf o eiddo deallusol, sef calon y busnes. Mae creu BBC Studios llwyddiannus, fel is-gwmni dan berchenogaeth lawn y BBC, yn hanfodol ar gyfer hyn.

Ynghyd â chydberthynas barhaus â sector cynhyrchu allanol y DU sy'n ffynnu, credwn y bydd y cynnig hwn yn helpu i ddarparu cynnwys gwych i'n gwasanaethau cyhoeddus ac i BBC Worldwide, gan sicrhau ein cenhadaeth gyhoeddus a'n dyheadau ar gyfer twf masnachol.

Os gallwn gyflawni'r holl fentrau hyn, gallwn geisio cynyddu'r enillion i dalwyr ffi'r drwydded. Ni fydd hyn yn hawdd—mae'n heriol iawn. Mae'n cynnwys rhaglen sylweddol o arbed costau a gwella gorswm ac mae'n dibynnu ar lwyddiant creadigol BBC Studios a chyflwr y farchnad. Rydym yn rhagweld y bydd effaith y mentrau newydd hyn, ynghyd ag enillion cryf parhaus o bortffolio sylfaenol BBC Worldwide, tua £1.2bn mewn enillion cronnol i'r BBC gwasanaeth cyhoeddus dros y pum mlynedd nesaf—cynnydd o fwy na 15% ar enillion dros y pum mlynedd flaenorol.

Yn syml, mae BBC Worldwide yn bwysig iawn i fodel ariannol cyffredinol y BBC a'i allu i ariannu cynnwys.

## 8.5 Anghenion buddsoddi'r BBC

Er mwyn ymateb i adolygiad darlledu cyhoeddus Ofcom, rydym wedi nodi tair blaenoriaeth:

- Moderneiddio gwasanaethau
- Buddsoddi mewn cynnwys
- Datganoli ac amrywiaeth

Yn y ddogfen hon, rydym wedi nodi ein cynlluniau i foderneiddio ein gwasanaethau gyda chynigion fel y Gwasanaeth Syniadau, iPlay a Newstream, radio ymatebol a throi iPlayer yn llwyfan. Mae'r rhain yn fuddsoddiadau hanfodol y byddai'r gynulleidfa yn eu disgwyl gan y BBC. Hebddynt, gallai'r BBC ganfod ei fod ar ei hôl hi yn dechnolegol. Mae fel pe na fyddai'r BBC heddiw yn cynnig radio digidol, teledu digidol na'r iPlayer. Mae'n rhaid i ni fwrw ymlaen â'r buddsoddiadau hyn cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau ein bod dal yn berthnasol i gynulleidfaoedd.

Mae'n rhaid i ni arloesi. Nid y cynigion newydd yn y ddogfen hon fydd yr unig syniadau a fydd gennym yn y Siarter nesaf. Yn benodol, bydd angen mwy na dim ond y syniadau newydd a awgrymwyd gennym yma er mwyn diwallu anghenion cynulleidfaoedd ifanc dros gyfnod y Siarter nesaf. Bydd angen i holl bortffolio'r BBC o wasanaethau feddwl mewn ffordd wahanol a newid y buddsoddiad o fewn gwasanaethau a rhyngddynt.

Ac ni fydd ein holl arloesedd yn golygu gwasanaethau newydd o'r math hwn—mae gwasanaethau'r BBC yn gwella fesul tipyn, drwy'r amser. Bydd angen buddsoddiad ar gyfer hynny hefyd.

O fewn ein cytundeb ariannol, gwnawn gymaint â phosibl i ddiwallu'r anghenion am fuddsoddiad mewn cynnwys, amrywiaeth a datganoli a nodwyd gan Ofcom. Disgwyliwn allu ariannu mwy o ddrama ar gyfer cynulleidfaoedd ifanc, cynnwys ar gyfer y Gwasanaeth Syniadau, a buddsoddi yn y Gwledydd, yn cynnwys ariannu'r mentrau uchod fel gwasanaethau newyddion digidol, addysg ac adloniant i bob Gwlad. Byddwn yn diogelu arian ar gyfer y Gwledydd, gan sicrhau eu bod yn cael llai o doriadau na'r meysydd eraill, ac yn sicrhau bod y buddsoddiad yn gweithio'n galetach, er enghraifft drwy bortreadu'r holl DU a'r holl Wledydd yn well, neu drwy gydweithio â phartneriaid ledled y DU gyfan.

At ei gilydd, rydym yn amcangyfrif y bydd hyn yn costio tua £150m y flwyddyn erbyn 2021/22.

Fodd bynnag, gyda'n gwariant ar wasanaethau yn gostwng yn gyffredinol mewn termau real, ni fyddem yn gallu gwrthdroi'r gostyngiad yn y gwariant ar gynnwys gwreiddiol o'r DU, buddsoddi yn y World Service, nac ariannu cynnydd net mewn gwariant yn y Gwledydd.

Fodd bynnag, fel rydym yn ei egluro yn ddiweddarach, gallai newid i ffi fesul aelwyd ryddhau mwy o fuddsoddiad. O ystyried y rôl ffurfiol newydd a roddir i Lywodraethau'r Gwledydd yn yr Arolwg o'r Siarter, rydym yn bwriadu ymgynghori â hwy a rhanddeiliaid ledled y DU, er mwyn nodi a phrisio ein cynigion ar gyfer y Gwledydd ac unrhyw arian ychwanegol sy'n ofynnol.


## 8.6 Ariannu ein buddsoddiadau arfaethedig

Ein nod fydd ariannu'r £150m ar gyfer buddsoddiadau newydd o fewn ein hamlen ariannol bresennol. Caiff hyn ei ariannu gan gymysgedd o ail-flaenoriaethu, newidiadau i wasanaethau, yn ogystal ag incwm masnachol a newidiadau i bolisïau. Nid yw'r un o'r rhain yn syml.

Mae'r siart isod yn dangos effaith bosibl cytundeb diweddaraf y Gyllideb erbyn 2021/22, y pwysau presennol ar y BBC yn sgil y gostyngiad mewn cyfraddau treiddio teledu, yn ogystal â'n dulliau lliniaru arfaethedig.

### Sefyllfa ariannol y BBC erbyn 2021/22, yn cynnwys dulliau lliniaru o 2017/18

*(Symiau blynyddol a dalgrynnwyd)*



Ceir mwy o risg o ddirywiad na'r potensial i wella. Mae'r costau o ran pobl 75 oed a throsodd yn gymharol bendant ond yw hynny mor wir am y dulliau lliniaru. Bydd chwyddiant yn effeithio ar ein sylfaen costau, ond mae'n anodd cyflawni arbedion effeithlonrwydd cynhyrchiol ac arbedion effeithiolrwydd amserlennu, yn ogystal â chynyddu incwm masnachol. Hyd yn oed gyda'r dulliau lliniaru a'r arbedion effeithlonrwydd, bydd angen gwneud newidiadau i'n gwasanaethau.

Bydd cytundeb diweddar y Gyllideb yn gymharol ddigyfnewid o ran arian parod ar gyfer y BBC dros y cyfnod o bum mlynedd. Fel y dywedodd y Canghellor yn ei araith ar y gyllideb, "The BBC has agreed to take on responsibility for funding free TV licences for the over 75s and in return we were able to give our valued public broadcaster a sustainable income for the long term." Penderfynodd y Llywodraeth drosglwyddo cost consesiwn ffi'r drwydded i bobl dros 75 oed i'r BBC fesul cam, gan ddechrau yn 2018/19 gyda'r BBC yn bodloni'r atebolrwydd llawn o 2020/21. Rydym yn amcangyfrif y bydd hyn yn gostwng yr incwm o ffi trwydded y BBC tua £700m y flwyddyn.

Mae'r trefniadau newydd yn cynnwys ymrwymiad i foderneiddio ffi'r drwydded, ei addasu i gwmpasu Fideo ar Alw darlledu cyhoeddus yn ogystal â theledu byw. Bydd hyn yn golygu bod model ffi'r drwydded yn gynaliadwy, yn decach ac yn diogelu'r arian sydd ar gael ar gyfer ein cynnwys a'n gwasanaethau dros y cyfnod. Rydym yn amcangyfrif y bydd y fantais ariannol tua £100m y flwyddyn yn erbyn ein llinell sylfaen. Ceir cytundeb i ddileu'r arian a 'neilltuwyd' o ffi'r drwydded fesul cam—£150m y flwyddyn—a ddefnyddir i gynorthwyo'r broses o gyflwyno band eang, ac ymrwymiad i gynyddu ffi'r drwydded yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr dros gyfnod y Siarter nesaf. Byddai cysylltu ffi'r drwydded i'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn sicrhau incwm o tua £350m y flwyddyn ar gyfradd chwyddiant targed Banc Lloegr o 2%.

Mae'n anodd rhagweld effaith y newidiadau hyn dros gyfnod o saith mlynedd. Ni wyddom beth fydd union effaith moderneiddio ffi'r drwydded, na sut y bydd yn rhyngweithio â gostyngiadau parhaus yn y cyfraddau treiddio teledu. Mae canran yr aelwydydd dros 75 oed a fydd yn barod i wneud taliad gwirfoddol hefyd yn anhysbys. Yn olaf, bydd cyfradd twf aelwydydd, sy'n cynyddu nifer talwyr ffi'r drwydded, yn dibynnu ar dueddiadau economaidd ehangach.

Gyda'i gilydd, credwn y bydd ymyriadau yng nghytundeb y Gyllideb yn cyflawni incwm ffi'r drwydded sy'n gymharol ddigyfnewid o ran arian parod dros y cyfnod i'r BBC, er y bydd cyfnodau da a drwg o flwyddyn i flwyddyn. Fodd bynnag, mae'r rhagolwg hwn yn ansicr iawn, a cheir mwy o risgiau o ddirywiad na chyfleoedd i wella.

Mae hefyd angen i ni ganfod arbedion o £150m o leiaf yn ystod cyfnod presennol ffi'r drwydded er mwyn cwmpasu'r diffygion a ragwelir mewn incwm o ostyngiad mewn cyfraddau treiddio teledu yn ystod cyfnod y Siarter hon.

Mae'r cyfuniad hwn o bwysau chwyddiannol a'r angen presennol am arbedion yn golygu bod y BBC yn wynebu her o fwy na £550m y flwyddyn erbyn 2021/22, cyn i ni ddechrau dod o hyd i arian ar gyfer buddsoddiadau newydd.

Wrth i ni ddechrau ar gyfnod y Siarter newydd, ac fel yr amlinellir yn 8.3, bydd y BBC yn ceisio dod o hyd i arbedion o gynhyrchiant a newidiadau i'r cymysgedd amserlennu, ynghyd â dulliau lliniaru diogel rhag chwyddiant, a fydd yn ariannu'r chwyddiant parhaus yn ein sylfaen costau presennol yn ogystal â'n rhaglen buddsoddi cyfalaf barhaus. Rydym wedi pennu targed heriol ar gyfer yr arbedion hyn sef £400m y flwyddyn erbyn 2021/22, yn cynnwys y rhai o arbedion effeithlonrwydd cynhyrchiol a newidiadau i'r cymysgedd amserlennu.

Ochr yn ochr â hyn, ein nod yw cynyddu ein hincwm masnachol dros y cyfnod, ond ni all hyn fod yn ddigon i dalu am y buddsoddiad newydd. Mae'r buddsoddiadau newydd arfaethedig yn darged heriol pellach o tua £150m y flwyddyn (nad yw'n cynnwys unrhyw arian ychwanegol ar gyfer y World Service na buddsoddiadau mawr newydd posibl yn y Gwledydd). Felly, bydd angen i ni ystyried gwneud newidiadau i wasanaethau, yn ogystal ag ymchwilio i'r holl gyfleoedd i gynyddu enillion masnachol a gwneud newidiadau polisi er mwyn gwneud y mwyaf o incwm ffi'r drwydded.

Gall y BBC ofyn am daliadau gwirfoddol gan bobl dros 75 oed yng nghyfnod y Senedd hon a diwygio'r polisi o 2020. Byddwn yn rhoi cyfle i'r aelwydydd cymwys hynny dalu am drwydded deledu yn wirfoddol ac felly gyfrannu at gost gwasanaethau'r BBC. Byddwn hefyd yn ystyried sut i sicrhau tegwch rhwng y cenedlaethau unwaith i'r BBC gymryd cyfrifoldeb am y polisi o 2020. Ar hyn o bryd, mae pobl ifanc yn cael llai gan y BBC, felly bydd angen i ni ystyried i ba raddau y gellid disgwyl iddynt sybsideiddio trwyddedau teledu am ddim i bobl dros 75 oed, a'r cyfnewidiad â gwasanaethau ar gyfer pob oedran.

Yn gryno, mae'r BBC yn wynebu her ariannol anodd iawn. Cyn i gyfnod y Siarter newydd ddechrau, mae'n rhaid i ni ddod o hyd i o leiaf £150m er mwyn lliniaru'r gostyngiad mewn cyfraddau treiddio teledu. Dros y pum mlynedd nesaf bydd angen i ni amsugno chwyddiant ar gyfradd o 2% y flwyddyn—sy'n cyfateb i £400m y flwyddyn erbyn 2012/22. Mae'r amcangyfrif chwyddiant hwn yn seiliedig ar gymhwyso'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr i'n sylfaen costau ac nid yw'n cynnwys unrhyw ddarpariaeth ar gyfer chwyddiant uwch mewn meysydd fel cynhyrchu drama, hawliau chwaraeon a chostau talent, yr ydym yn bwriadu eu rheoli drwy newidiadau amserlennu a dulliau lliniaru eraill. Ac ni allwn sefyll yn llonydd. Bydd angen £150m ychwanegol ar gyfer ein buddsoddiad arfaethedig mewn gwasanaethau newydd.

Mae hyn yn golygu cyfanswm arbediad o £700m y flwyddyn erbyn 2012/22. Mae'r £700m hwn yn cynrychioli bron i 20% o'n gwariant disgwyliedig ar gyfer 2016/17, neu darged arbedion blynyddol cyfartalog o tua 3.5% y flwyddyn dros y pum mlynedd nesaf. Mae hon yn her yr un mor fawr â'n rhaglen arbedion presennol, ond heb yr un cyfle i wneud arbedion untro. Credwn y gallwn gyflawni hyn o fewn cytundeb y Gyllideb, er y bydd angen gwneud sawl penderfyniad anodd. Yn anochel, bydd yn rhaid i ni gau neu leihau rhai gwasanaethau.

Bydd angen i ni gael yr hyblygrwydd i ymateb ac i newid gwasanaethau wrth i gynulleidfaoedd newid. Mae'n rhy gynnar i fod yn benodol am y newidiadau y bydd angen i ni eu gwneud i wasanaethau, a byddwn yn cynnal proses adolygu er mwyn ystyried yr opsiynau. Fodd bynnag, fel y mae cynigion BBC Three yn eu dangos, mae'n anochel y bydd newid o wasanaethau llinellol i wasanaethau ar alw.

Er y bydd rhywfaint o'r £150m yn y buddsoddiad newydd ar gynnwys newydd gwreiddiol o'r DU, yng nghyd-destun gostyngiad mewn termau real yn ffi'r drwydded, ni all wrth-droi'r gostyngiad mewn buddsoddiad mewn talent. Ond mae un opsiwn a allai wneud hynny.

Ni fydd y BBC yn ceisio ailagor y cytundeb a wnaed ar y Gyllideb ym mis Gorffennaf.  Mae sicrwydd yn gweithio'r ddwy ffordd—yn union fel y ffaith na fydd y Llywodraeth yn ei ailagor oni fydd yn penderfynu newid yn sylfaenol gwmpas a phwrpas y BBC, rydym wedi cytuno ar amlen ariannol a byddwn yn cadw at y cytundeb hwn. Bydd yr holl gynigion yn y ddogfen hon yn dibynnu ar hyn.

Fodd bynnag, mae ffordd y gallai'r Llywodraeth ddal i wrthdroi'r gostyngiad mewn buddsoddiad mewn cynnwys gwreiddiol o'r DU, buddsoddi yn y diwydiannau creadigol a diwallu anghenion cynulleidfaoedd y Gwledydd yn well.

Mae'r Llywodraeth wedi nodi opsiwn ariannu yn y tymor canolig yn y Papur Gwyrdd i foderneiddio ffi'r drwydded drwy ei chodi ar bob aelwyd. Credwn y byddai hyn yn creu refeniw ychwanegol. Penderfyniad i'r Llywodraeth yw hwn, a byddwn yn cynnal trafodaethau i weld p'un a yw'n fuddsoddiad y gellir ei gyfiawnhau yn y diwydiannau creadigol.

Mae buddsoddiad yn y diwydiannau creadigol yn talu amdano'i hun.

Gofynnwyd i PwC ddangos effaith y buddsoddiad yn ffi'r drwydded ar y sector creadigol ac economi'r DU yn ei gyfanrwydd. Gan ddefnyddio rhagdybiaethau pwyllog, am bob cynnydd o £1 yn refeniw ffi'r drwydded, byddai'r BBC  yn creu tua 60c o werth economaidd ychwanegol.

Mae dadansoddiad PwC[78] yn awgrymu y byddai cynnydd nominal o 15% dros gyfnod o bum mlynedd incwm ffi'r drwydded yn debygol o roi hwb o £435 i GYG y sector creadigol, £319m i GYG yr economi a chreu 16,200 o swyddi ychwanegol yn 2021/22, o gymharu â'r sefyllfa wrthffeithiol lle mae refeniw ffi'r drwydded y BBC yn ddigyfnewid.

78 PwC, The impact of a change in the BBC's licence fee revenue, Awst 2015

Mae PwC wedi dangos bod yr effaith hon yn gweithio i'r gwrthwyneb hefyd. Pe byddai incwm y BBC yn gostwng, dyweder, 25% dros gyfnod o bum mlynedd, yna mae dadansoddiad PwC yn awgrymu y byddai'r CMC £630m yn is yn 2021/22 nag y byddai wedi bod fel arall heb unrhyw newid yn y refeniw o ffi'r drwydded.  Mae llai o wariant gan y BBC yn golygu diwydiant creadigol llai.

Mae hyn oherwydd bod ffi'r drwydded yn sianelu adnoddau i un o sectorau mwyaf cynhyrchiol economi'r DU, sef y diwydiannau creadigol. Ymhell o gynyddu'r diffyg, mae hwn yn faes lle mae buddsoddiad cyhoeddus yn ei leihau.

Mae'r BBC yng nghanol rhaglen radical i sicrhau gwell effeithlonrwydd. Bydd y fframwaith 'Cystadlu neu Gymharu' yn sicrhau bod y mwyafrif llethol o'n gwariant yn cael ei adolygu a'i feincnodi neu ei gyrchu mewn modd cystadleuol ac y ceir tystiolaeth o hynny.

Mae gennym ymrwymiad parhaus i ddangos gwerth am arian yn yr hyn a wnawn ac i barhau i ganolbwyntio ar beth sydd bwysicaf i gynulleidfaoedd—cynnwys a gwasanaethau. Mae'r BBC yn sefydliad sy'n diwygio gyda phob menter i leihau gwastraff a gwneud y mwyaf o arian ar gyfer cynnwys.

Ond er mwyn cyflawni arbedion o tua 3.5% y flwyddyn, bydd angen gwneud penderfyniadau anodd wrth gomisiynu, amserlennu, gwneud newidiadau radical mewn arferion gwaith yn ogystal â newid y gwariant rhwng gwasanaethau a rhwng mathau gwahanol o gynnwys. Mae cytundeb y Gyllideb, er ei fod yn sicrhau eglurder hirdymor, yn golygu toriad o c10% mewn termau real. Mae hefyd yn cynnwys risgiau ac ansicrwydd, yn enwedig mewn perthynas ag incwm o foderneiddio ffi'r drwydded. Bydd dewisiadau anodd i ddod, a bydd angen i'r BBC gael hyblygrwydd i wneud y dewisiadau hyn.

9

# BBC agored, mwy nodedig

Edrychwn ymlaen at glywed barn cynulleidfaoedd a phartneriaid am y cynigion hyn.

Eu nod yw creu BBC agored, mwy nodedig.

Byddwn yn sicrhau bron i 20% o arbedion. Daw cymaint â phosibl o hynny o effeithlonrwydd a thwf masnachol, ond mae'n anochel y bydd hefyd yn galw am gwtogi neu gau gwasanaethau.

Rydym am arbed mwy na'r hyn y mae cytundeb y Gyllideb yn gofyn amdano, er mwyn arloesi a gwneud rhaglenni ar gyfer y DU gyfan.

Rydym yn cynnig y canlynol:

- AGwasanaeth newydd i blant—iPlay—gan greu un porth i blant i holl gyfoeth y BBC a'n partneriaid yr ymddiriedir ynddynt y tu hwnt i hynny—gan sicrhau bod plant yn gallu cael gafael ar gynnwys sy'n aeddfedu gyda hwy, ar draws rhagor o lwyfannau, mewn ffordd ddiogel yr ymddiriedir ynddi
- Dod o hyd i ffyrdd digidol o gynorthwyo'r broses o ddarganfod cerddoriaeth er mwyn helpu cynulleidfaoedd i ddod o hyd i gerddoriaeth newydd a'r gorau o'r archif
- Radio ymatebol er mwyn rhoi amserlen bersonol o raglenni i gynulleidfaoedd
- Agor BBC iPlayer i ddangos cynnwys gan eraill
- Fersiynau newydd o'n gwasanaethau addysg, newyddion ac adloniant yn y Gwledydd, fel dechrau ein hymgynghoriad am sut i adlewyrchu datganoli dyfnach
- Atgyfnerthu'r World Service mewn rhannau o'r byd lle ceir diffyg democrataidd o ran newyddion diduedd
- Symud o newyddion treigl i ffrydio newyddion, gyda BBC Newstream, gan roi arbenigedd ein newyddiaduraeth yng nghledr eich llaw
- Cynnig partneriaeth newydd gyda phapurau newydd lleol i ategu gohebu democrataidd
- Partneriaeth i greu Gwasanaeth Syniadau er mwyn rhoi syniadau a diwylliant gorau Prydain i'r cyhoedd
- Buddsoddi mewn drama a chomedi wreiddiol o Brydain er mwyn cyfoethogi cynnwys ar gyfer gwylwyr yn y DU a rhoi hwb i'r diwydiannau creadigol. Bydd hyn yn sylfaen i ddull mwy nodedig ar draws holl wasanaethau'r BBC, o BBC One i ar-lein.

Byddwn yn diwygio'r BBC. Dros yr ychydig fisoedd nesaf, byddwn yn trawsnewid ein strwythur, ein proses gomisiynu a'n cyllideb.

Rydym yn stiwardiaid i'r BBC. Byddwn yn moderneiddio'r BBC er mwyn gwarchod yr hyn sydd orau am ddarlledu cyhoeddus, a chyflwyno BBC sy'n feiddgar, yn Brydeinig ac yn greadigol.

BBC gwell, i bawb.


© BBC 2015